Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 17/2024

Dyddiad Cyhoeddi: 13/03/2024

# Gwerthusiad o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW):

## Adroddiad Terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-464-9

**Gwerthusiad o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW): Adroddiad Terfynol**

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Hannah Browne Gott
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

ISBN: 978-1-83577-464-9

## Cynnwys

Geirfa ..... 3
1. Cyflwyniad ..... 4
2. Methodoleg ..... 6
3. Trosolwg o grant ENRaW ..... 11
4. Cyd-destun polisi wedi'i ddiweddaru ..... 21
5. Cynnydd a chyflawniadau ..... 26
6. Y manteision a'r canlyniadau a gyflawnwyd ..... 44
7. Casgliadau ac argymhellion ..... 74
Atodiad A Offerynnau ymchwil ..... 82
Atodiad B Arolwg ar-lein ..... 94

## Rhestr o'r tablau a'r ffigurau


Tabl 3.1: Prosiectau ENRaW yn ôl cyfnod cyllido ........ 15
Tabl 3.2: Gwariant prosiectau bach Cyfnod 1 ........ 16
Tabl 3.3: Gwariant prosiectau mawr Cyfnod 1 ........ 17
Tabl 3.4: Statws prosiectau Cyfnodau 2 a 3 ........ 17
Tabl 3.5: Cyllideb a gwariant prosiectau Cyfnodau 2 a 3 ........ 18
Tabl 3.6: Gwariant ENRaW o gymharu â'r cyllid a ddyfarnwyd ........ 19
Tabl 5.1: Allbynnau terfynol Cyfnod 1 a gyflawnwyd yn erbyn y targedau ........ 33

Ffigur 5.1: Y cyfraniad a wnaed gan y prosiectau a ariannwyd at feysydd ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig ........ 37
Ffigur 5.2: Cyfraniad at yr amcanion a'r themâu trawsbynciol ........ 39
Ffigur 5.3: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau at gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ........ 42
Ffigur 6.1: Manteision yn deillio o brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg ........ 45
Ffigur 6.2: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg at fanteision cymdeithasol a chymunedol ........ 46
Ffigur 6.3: Y cyfraniad a wnaeth y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg at fanteision amgylcheddol ........ 55
Ffigur 6.4: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg at fanteision diwylliannol ........ 58
Ffigur 6.5: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg at fanteision economaidd ........ 61

## Geirfa

| **Acronym/Allweddair** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AS | Aelod o'r Senedd |
| BBaCh | Busnes Bach a Chanolig |
| COP15 | 15fed Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol |
| COVID-19 | Clefyd y Coronafeirws 2019 |
| DPA | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| ENRaW | Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| LHDTC+ | Pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol a cwiar/pobl sy'n cwestiynu |
| OECM | Mesur cadwraeth effeithiol arall sy'n seiliedig ar ardal |
| RPW | Taliadau Gwledig Cymru |
| SFS | Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SMS | Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy |
| SROI | Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi |
| TWIG | Y Grant Buddsoddi mewn Coetir |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WEMWBS | Arolwg Llesiant Meddyliol Warwick Caeredin |
| Y Ddeddf Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Phartneriaeth BRO, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW).

1.2 Mae cynllun grant ENRaW yn gynllun grant amgylcheddol sengl a sefydlwyd yn 2018 i gefnogi prosiectau i wneud gwelliannau mewn ardaloedd preswyl ac o'u cwmpas ac i ddod â manteision i bobl, busnesau a'u cymunedau. Bu'r cynllun, sy'n cwmpasu Cymru gyfan, yn gweithredu ar sail flynyddol, gan ddarparu cyllid i brosiectau ar sail tair blynedd o wanwyn 2019 tan 2021.

1.3 Nod y gwerthusiad oedd asesu a wnaeth y prosiectau a ariannwyd gan ENRaW, a gyflawnwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2023, gyflawni nodau ac amcanion y cynllun. Roedd disgwyl i'r gwerthusiad adolygu effeithiolrwydd y cynllun grant fel mecanwaith ar gyfer cyflawni yn erbyn polisïau, strategaethau, a gofynion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Roedd disgwyl i'r gwerthusiad hefyd ymchwilio i'r canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a gyflawnwyd drwy'r dull cydweithredol.

1.4 Bwriadwyd i'r gwerthusiad adolygu:

- y ffordd y cafodd y cynllun grant ei weinyddu a'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y prosesau ymgeisio, y gofynion monitro a'r ffordd y cafodd y grant ei reoli gyda'r nod o ganfod yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn y gellid ei wella yn y dyfodol
- effaith uniongyrchol y grantiau ac a gyflawnodd y grantiau a ddyfarnwyd eu nodau a'u hamcanion gwreiddiol, gan gynnwys cyflawni'r targedau a'r canlyniadau a nodwyd yn y ceisiadau a'r cynlluniau cyflawni
- manteision a chyflawniadau ehangach ac annisgwyl, gan gynnwys unrhyw fanteision lluosog ehangach yn ychwanegol at y manteision uniongyrchol a ddisgwyliwyd.

1.5 Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Hydref 2021 a mis Hydref 2023. Hyd yma, mae wedi cynnwys paratoi adroddiad Damcaniaeth Newid a Fframwaith Gwerthuso (heb ei gyhoeddi, Ionawr 2022) ac Adroddiad Interim (Mawrth 2023)[1] a

[1] Bryer, N; a Bebb, H; (2023). *Gwerthusiad o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW): Adroddiad Interim* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 222/2023.

oedd yn ystyried sut y cafodd y cynllun grant ei weinyddu a'i gyflawni ac sy'n cyflwyno canfyddiadau cynnar ar effaith y cynllun.

1.6 Mae'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn hefyd yn ystyried effaith a chyflawniadau'r cynllun yn fanylach ac fe'i cyflwynir mewn saith pennod.

- Pennod un: cyflwyniad i'r adroddiad.
- Pennod dau: amlinelliad o fethodoleg y cam terfynol.
- Pennod tri: trosolwg o gynllun grant ENRaW.
- Pennod pedwar: datblygiadau polisi allweddol ers paratoi'r adroddiad interim.
- Pennod pump: adolygiad o gyflawniadau grant ENRaW, gan gynnwys y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion trawsbynciol.
- Pennod chwech: effeithiau'r grant a chynaliadwyedd y gweithgareddau a ariannwyd.
- Pennod saith: ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer y dyfodol.

1.7 Ceir gwybodaeth ychwanegol yn yr atodiadau.

- Mae Atodiad A yn cynnwys y canllawiau trafod a fabwysiadwyd ar gyfer cam terfynol y gwaith maes.
- Mae Atodiad B yn cynnwys yr arolwg a ddosbarthwyd i brosiectau a ariannwyd yn ystod cam olaf y gwaith maes.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal y gwerthusiad.

**Dull**

2.2 Roedd y gweithgareddau gwerthuso a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Awst 2023 yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- cyfarfod cychwynnol ar gyfer y cam olaf gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a pharatoi cynllun gwerthuso wedi'i fireinio ar gyfer y cam terfynol
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennau polisi a dogfennau strategol diweddar ac adolygiad o ddata monitro cynlluniau ENRaW. Roedd hyn hefyd yn cynnwys adolygu dogfennau ar lefel prosiect megis adroddiadau prosiect ar ddiwedd y cyfnod cyllido neu'r adroddiadau prosiect diweddaraf ar gyfer y prosiectau hynny a ddewiswyd i gyfrannu at y gwaith maes ansoddol (23 o blith cyfanswm o 59 o brosiectau a ariannwyd). Roedd yr adolygiad desg hefyd yn ystyried pob un o'r adroddiadau gwerthuso annibynnol (pump) a oedd ar gael i'r tîm yn ogystal â'r dystiolaeth a gynigiwyd ar ffurf ffilm diwedd prosiect a baratowyd gan chweched prosiect[2]
- paratoi canllaw trafod ansoddol (a nodir yn Atodiad A) a chyfweld â dau o swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â rheoli cynllun ENRaW, yr oedd un ohonynt yn swyddog sy'n gweithio i Daliadau Gwledig Cymru
- paratoi a dosbarthu arolwg dwyieithog ar-lein i bob prosiect a ariannwyd gan ENRaW (a nodir yn Atodiad B). Cynhaliwyd yr arolwg gan ddefnyddio meddalwedd arolwg SNAP a gafodd ei lenwi ymlaen llaw â gwybodaeth sylfaenol er mwyn lleihau nifer y cwestiynau a ofynnwyd i'r ymatebwyr. Roedd cronfa ddata o'r holl brosiectau a ariannwyd (59) ar gael i'r tîm ymchwil. Fe wnaeth ymarfer dad-ddyblygu i ddileu cysylltiadau dyblyg a oedd yn gyfrifol am fwy nag un prosiect leihau hyn i sampl o 52 o gyfeiriadau e-bost unigol. Gwahoddwyd y prosiectau a ariannwyd i gwblhau'r arolwg yn gynnar ym mis Mai 2023 ac anfonwyd tair neges awtomataidd at y rhai na wnaethant ymateb drwy feddalwedd SNAP hyd at

[2] DCC - Enraw - Final - Vimeo 1080

fis Mehefin 2023. Yn ogystal â hynny, cysylltwyd â phob prosiect nad oedd wedi ymateb, a hynny drwy neges e-bost bersonol a anfonwyd gan aelod o dîm ymchwil OB3. Mewn achosion lle y cafwyd gafael ar fanylion cyswllt newydd ar gyfer prosiectau nad oeddent wedi ymateb (yn sgil y cyswllt personol neu drwy'r gwaith ansoddol, gweler isod), fe'u gwahoddwyd i gwblhau'r arolwg ar gyfer eu prosiect. Daeth cyfanswm o 30 o ymatebion i'r arolwg i law, a oedd, rhyngddynt, yn cwmpasu 34 o'r prosiectau a ariannwyd. Mae hon yn gyfradd ymateb o 58 y cant o'r holl brosiectau a ariannwyd

- paratoi canllawiau trafod ar gyfer cyfweld â chynrychiolwyr prosiectau a ariannwyd, gan gynnwys arweinwyr prosiectau, sefydliadau partner a gwirfoddolwyr neu aelodau o’r gymuned (a nodir yn Atodiad A)
- cysylltu â chynrychiolwyr arweinwyr prosiectau o’r astudiaethau achos a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad interim ac ail-gyfweld â chynrychiolwyr o bob un o’r wyth prosiect a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos, drwy Teams neu wyneb yn wyneb
- cysylltu â’r holl brosiectau a ariannwyd a oedd yn weddill ac nad oeddent wedi cyfrannu at y gwaith maes ansoddol yn ystod y cyfnod interim (cyfanswm o 22 o brosiectau, gyda 12 ohonynt wedi'u hariannu yn ystod Cyfnod 1 a 10 yn ystod Cyfnod 3) a chwblhau cyfweliadau ansoddol manwl (drwy Teams neu wyneb yn wyneb) gydag arweinydd y prosiect ar gyfer 15 o’r rhain (7 ohonynt wedi'u hariannu yn ystod Cyfnod 1, ac 8 yn ystod Cyfnod 3). Cafodd un arweinydd prosiect ei gyfweld ynglŷn â dau brosiect a ariannwyd, gan ei fod wedi sicrhau cyllid yn ystod Cyfnod 1 a Chyfnod 3, gyda gweithgareddau Cyfnod 3 yn barhad o’r prosiect a ariannwyd yn ystod Cyfnod 1
- cynnal rhagor o waith maes gyda phump o'r prosiectau ENRaW hyn. Roedd hyn yn cynnwys cyfweld â sefydliadau partner, buddiolwyr, neu gynrychiolwyr cymunedau yn ogystal â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru (lle y bo modd) a fu’n ymwneud â’r prosiectau hyn.

2.3 At ei gilydd, cafwyd tystiolaeth ansoddol gan gyfanswm o 23 o brosiectau yn ystod cam olaf y gwaith maes. Roedd wyth o'r rhain yn ailgyfweliadau a 15 yn gyfweliadau newydd.

**Proffil yr ymatebwyr i'r arolwg**

2.4 Cwblhaodd 29 o'r ymatebwyr yr arolwg yn Saesneg, a chwblhaodd un ohonynt yr arolwg yn Gymraeg. Mae Tabl 2.1 yn nodi ym mha gyfnod cyllido ENRaW y cafodd pob prosiect a gymerodd ran yn yr arolwg ei gyllido. Ceir rhagor o fanylion am bob un o'r cyfnodau cyllido hyn ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn. O blith y rhai a ymatebodd i'r arolwg, roedd 21 wedi'u cyllido yng Nghyfnod 1, roedd dau wedi'u cyllido yng Nghyfnod 2 ac 11 wedi'u cyllido yng Nghyfnod 3. O blith y rhain, roedd tri phrosiect wedi'u cyllido yng Nghyfnodau 1 a 3 ac un prosiect wedi'i gyllido yng Nghyfnodau 1 a 2.

2.5 Hefyd yn Nhabl 2.1, dangosir bod pob prosiect a gymerodd ran yn yr arolwg heblaw un wedi dweud bod eu prosiect ENRaW wedi'i gwblhau (17) neu'n agos at gael ei gwblhau (12). Dywedodd yr un prosiect a oedd yn weddill ei fod yn dal i fynd rhagddo.

**Tabl 2.1: Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg**

| Cyfnod cyllido | Nifer yr ymatebion | Nifer y rhai a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd fod y prosiect wedi'i gwblhau |
|---|---:|---:|
| Cyfnod 1 | 21 | 17 |
| Cyfnod 2 | 2 | 0 |
| Cyfnod 3 | 11 | 1 |
| Cyfanswm | 30 | 17[3] |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein Ymchwil OB3 (30 ymateb, yn cynrychioli 34 o'r prosiectau a ariannwyd)

**Proffil y prosiectau a gyfwelwyd**

2.6 Cyfrannodd cyfanswm o 40 o unigolion at y gwaith maes ansoddol ar draws y 23 o brosiectau. O blith y rhain:

- roedd 25 yn staff cyflawni a gyflogwyd gan y 23 sefydliad arweiniol
- roedd 13 yn gynrychiolwyr sefydliadau partner, megis awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, ysgolion lleol, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned, a fu'n ymwneud â phump o'r prosiectau a ddewiswyd.

[3] Roedd un prosiect a gymerodd ran yn yr arolwg wedi derbyn cyllid yn ystod Cyfnodau 1 a 3.

- roedd dau yn swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a oedd wedi bod yn gysylltiedig â dau o'r prosiectau a ddewiswyd.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.7 Mae angen ystyried y materion a ganlyn mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad terfynol hwn.

- Roedd cyfradd yr ymateb i'r arolwg (n=30) ychydig yn uwch na'r gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg interim (gan fod yr arolwg wedi'i gyfeirio at brosiectau a ariannwyd yn unig, ac nid ymgeiswyr aflwyddiannus lle y disgwylir cyfradd ymateb is) ac mae'n cynrychioli 58 y cant o'r holl brosiectau a ariannwyd. Yn ogystal â'r 30 o ymatebion a ddaeth i law, ymatebodd un prosiect Cyfnod 1 i ddweud nad oedd ganddo ddim i'w ychwanegu ers cyfrannu at y gwerthusiad interim gan fod eu prosiect wedi dod i ben beth amser yn ôl a gwrthododd ail gwblhau'r arolwg ar y sail ei fod yn cyfrannu at gyfweliad gwerthuso ansoddol.
- Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng barn yr ymatebwyr i'r arolwg a barn y rhai a gyfwelwyd, gan fod 43 y cant o'r rhai a gyfwelwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad terfynol (10 o blith y 23 o brosiectau a gyfwelwyd) hefyd wedi cwblhau arolwg.
- Dim ond data monitro ar gyfer prosiectau Cyfnod 1 ENRaW y gallai Llywodraeth Cymru eu darparu, gan nad oedd allbynnau prosiectau Cyfnodau 2 a 3 wedi'u cadarnhau adeg drafftio'r adroddiad hwn. O ganlyniad, ni all yr adroddiad gwerthuso hwn adrodd ar yr holl allbynnau a gyflawnwyd ar draws y cynllun, sy'n golygu bod ein casgliadau ar berfformiad y cynllun wedi'u cyfyngu i ddata prosiectau Cyfnod 1.
- Roedd nifer yr adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect annibynnol a welwyd fel rhan o'r gwerthusiad lefel cynllun hwn yn gyfyngedig (chwe phrosiect) o ystyried bod 38 o brosiectau wedi'u cwblhau adeg drafftio ein hadroddiad a bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt baratoi diwedd adroddiad gwerthuso diwedd prosiect. Yn gyffredinol, roedd y gwerthusiadau lefel prosiect a adolygwyd o ansawdd da, yn seiliedig ar fethodolegau cadarn a ategwyd gan Ddamcaniaethau Newid a dulliau cymysg. Roedd yr holl werthusiadau yn seiliedig ar dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan staff cyflawni, sefydliadau partner a buddiolwyr. Roeddent

hefyd yn ystyried perfformiad y prosiect yn erbyn y targedau a ariannwyd a'r hyn a oedd i'w gyfrif am unrhyw berfformiad cryf neu wan. Er ein bod wedi gallu defnyddio enghreifftiau penodol o werthusiadau ar lefel prosiect yn yr adroddiad hwn, mae’r ffaith bod y nifer yn gyfyngedig wedi cyfyngu ar y dystiolaeth yr oeddem yn gallu dibynnu arni i seilio ein casgliadau a’n hargymhellion ar gyfer y dyfodol arnynt.

## 3. Trosolwg o grant ENRaW

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg byr o'r cynllun grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW), yr hyn y mae wedi'i gyllido, a chanfyddiadau allweddol y gwerthusiad interim.

**Cyflwyniad**

3.2 Cynllun grant amgylchedd sengl a sefydlwyd ym mis Ebrill 2018 oedd ENRaW. Disgwyliwyd iddo gefnogi prosiectau i wneud gwelliannau mewn ardaloedd preswyl ac o'u hamgylch ac i greu manteision i bobl, busnesau a'u cymunedau.

3.3 Fe'i sefydlwyd pan gafodd tri chynllun grant eu cyfuno, sef Grant Craidd yr Amgylchedd, Grant Refeniw Sengl Awdurdodau Lleol, a chyfran o'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd yn flaenorol o dan y Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd.[4]

3.4 Diben ENRaW oedd cyllido prosiectau peilot a phrosiectau arddangos a oedd yn hyrwyddo cydweithredu a chydweithio er mwyn:

- datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy
- gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig
- datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

3.5 Roedd disgwyl i brosiectau a ariannwyd drwy ENRaW gyflawni canlyniadau mewn pedwar maes allweddol, sef canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, fel y nodir yn Ffigur 3.1.

[4] Parhaodd cyllid cyfalaf o dan y Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd i gyfrannu at gefnogi prosiectau sy'n denu buddsoddiad ychwanegol i Gymru gan gynnwys prosiectau EULIFE Cymru a phrosiectau ar raddfa fwy yng Nghymru a gyflwynwyd i Gronfa Treftadaeth y Loteri.

**Ffigur 3.1: Canlyniadau disgwyliedig ENRaW**

**Manteision cymdeithasol**

- Gwella mynediad i fannau gwyrdd lleol a gwella eu hansawdd
- Gwella iechyd a llesiant yn y gymuned
- Cynnwys grwpiau cymunedol lleol, gwirfoddolwyr, a chyfranogiad traws-sector
- Cynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol ac ymddygiad cynaliadwy yn y gymuned

**Manteision amgylcheddol**

- Creu coetiroedd a gwrychoedd newydd ac ati, neu gynnal y rhai sydd eisoes yn bodoli
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
- Gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol / ecosystem
- Camau penodol i leihau allyriadau carbon

**Manteision economaidd**

- Creu incwm neu elfennau o gynhyrchu refeniw
- Denu buddsoddiad o ffynonellau eraill (heb gynnwys arian cyfatebol)
- Creu neu ddiogelu swyddi presennol
- Cefnogi cymwysterau a/neu sgiliau newydd i'r rhai sy'n cymryd rhan neu i fod o fudd yn y dyfodol

**Manteision diwylliannol**

- Cynyddu rôl y gymuned o ran cyfrifoldebau a rennir ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy yn y dyfodol
- Cynnal gweithgareddau a digwyddiadau hamdden mewn cymunedau lleol a chymunedau ehangach
- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws cymunedau drwy hyfforddiant neu ddull ymgysylltu arall
- Mynd i'r afael â materion lleol megis atgyweiriadau, gwaith adfer ac ati er mwyn diogelu treftadaeth

3.6 Neilltuwyd cyllideb gyfalaf o £33.325 miliwn a chyllideb refeniw o £26.096 miliwn dros gyfnod o bedair blynedd yn cwmpasu 2019/20 a 2022/23 a gweinyddwyd tri chyfnod cyllido cystadleuol gan Lywodraeth Cymru i ddyfarnu cyllid.

3.7 Cafodd y cynllun gyllid gan y Rhaglen Datblygu Gwledig hanner ffordd drwy’r rhaglen yn 2019, er mwyn cynyddu i'r eithaf yr adnoddau a oedd ar gael, ond ariannwyd y cyfnod cyntaf gan gronfeydd Llywodraeth Cymru yn unig.

3.8 Gweinyddwyd y cyfnod cyllido cyntaf gan Gangen Rheoli a Chyflawni Rhaglenni Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2018 gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru yn unig a dechreuodd y prosiectau yng ngwanwyn 2019.

3.9 Darparwyd tri math o gyllid grant yn ystod Cyfnod 1:

- cyllid refeniw i gefnogi datblygu trefniadau cydweithio/cydweithredu strategol, traws-sector newydd (hyd at £40,000 dros gyfnod o 12 mis ar y mwyaf)
- cyfalaf ar gyfer seilwaith ar raddfa fach sy'n canolbwyntio ar seilwaith amgylcheddol a gwyrdd (sy’n darparu hyd at uchafswm o £128,000, sef 80 y cant o gyfanswm costau’r prosiect o £160,000 dros dair blynedd)
- cyfuniad o gyllid refeniw a chyfalaf i gefnogi prosiectau peilot a phrosiectau arddangos ar y raddfa gywir (costau prosiect cyfartalog o £750,000-£1 filiwn dros dair blynedd).

3.10 Nododd y canllawiau y dylai’r grant gefnogi:

- creu trefniadau cydweithredol newydd ar gyfer cyflawni gweithgarwch, seilwaith amgylcheddol, neu brosiectau
- prosiectau ar raddfa a all ddwyn ynghyd nifer o weithgareddau ar raddfa lai neu weithgareddau a arweinir yn lleol ar draws ardal neu ranbarth mewn ffordd strategol
- datblygu ymhellach brosiectau ar y cyd, prosiectau cydweithredol, neu bartneriaethau, gan gynnwys rhai'n ymwneud â phartneriaid newydd y tu allan i’r sector amgylchedd traddodiadol (e.e., sefydliadau iechyd, twristiaeth, busnesau/sector preifat ayb.)
- prosiectau a fyddai’n cyflawni manteision lluosog yn cwmpasu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol
- prosiectau a oedd yn gweithredu prosesau/dulliau cyflawni neu arferion newydd (e.e., cryfhau'r ffocws ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy neu'r Ddyletswydd Adran 6 Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau newydd)
- datblygu a chyflwyno cynhyrchion newydd.

3.11 Roedd cronfeydd Cyfnodau 2 a 3 yn cael eu gweithredu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig o dan fesur 16.2. Roedd dau gam i'r broses ac roedd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno datganiad o ddiddordeb ac yna ail gais llawn. Roedd y cyllid ar draws Cyfnodau 2 a 3 wedi'i gyfyngu i brosiectau mawr a oedd yn cael eu cyllido drwy gyfuniad o gyllid refeniw a chyllid cyfalaf, i fodloni gofynion is-fesur 16.2 y Rhaglen Datblygu Gwledig. Sicrhawyd bod cyllid o rhwng £500,000 a £10 miliwn ar gael i brosiectau llwyddiannus[5].

3.12 Caeodd Cyfnod 2 i geisiadau ym mis Tachwedd 2019 ac aseswyd y Datganiadau o Ddiddordeb ym mis Rhagfyr 2019. Caeodd Cyfnod 3 ym mis Mawrth 2020. Y bwriad oedd y byddai'r Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu hasesu ym mis Ebrill 2020, ond cafodd hyn ei ohirio tan fis Mehefin/Gorffennaf 2020 oherwydd effaith y pandemig COVID-19.

3.13 Roedd modd defnyddio cyllid ENRaW o Gyfnodau 2 a 3 i gefnogi:

- prosiectau peilot[6] a datblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
- prosiectau a oedd yn dangos bod o leiaf dri endid ynghlwm â nhw, a dylai un o'r rheini fod yn BBaCh
- prosiectau a oedd yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau traws-sector gan gynnwys y sectorau iechyd, twristiaeth, y sector preifat, ac addysg
- darparu gweithgareddau fel:
    - gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
    - mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
    - datblygu a gwella mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy, a
    - gwella cydnerthedd ecosystemau
    - cyfleoedd i gefnogi presgripsiynu gwyrdd (cymdeithasol), atebion sy'n seiliedig ar natur, cysylltiadau clir rhwng adnoddau naturiol a llesiant, gwirfoddoli, hyfforddiant ac addysg, a newid ymddygiad.

[5] Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020: Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) Nodiadau Cyfarwyddyd
[6] Wedi'u diffinio fel prosiectau prawf a allai fod yn rhan o broses ddatblygu fawr heb fod yn gyfyngedig i unrhyw sector penodol

3.14 Roedd y canllawiau'n[7] nodi na ellid defnyddio cyllid i gefnogi ymchwil annibynnol ond bod gweithgareddau cymwys yn cynnwys arddangos technegau newydd, costau rhedeg y prosiect (e.e. costau cyflogau); mapio a dadansoddi bylchau; costau gweithgareddau prosiectau a hyrwyddo.

3.15 Roedd costau anghymwys yn cynnwys prynu tir sy'n fwy na 10 y cant o gyfanswm gwerth y prosiect, prynu cerbydau, gwaith a wnaed cyn dyddiad dechrau'r prosiect a chostau cynnal a chadw ar gyfer adeiladau, peiriannau neu gyfarpar.

**Prosiectau a ariannwyd**

3.16 Cynhaliwyd cyfanswm o 59 o brosiectau ENRaW ar draws y tri chyfnod cyllido, fel y nodir yn Nhabl 3.1.

**Tabl 3.1: Prosiectau ENRaW yn ôl cyfnod cyllido**

| Cyfnod | Nifer y prosiectau a aeth yn eu blaenau |
|---|---:|
| 1 | 36 |
| 2 | 5 |
| 3 | 18 |
| Cyfanswm | 59 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Medi 2023)

**Y cyllid a'r gwariant yng Nghyfnod 1**

3.17 Roedd y cyllid a ddyfarnwyd i'r 36 o brosiectau a ariannwyd yng Nghyfnod 1 fel a ganlyn:

- dyrannwyd £1,087,575 o gyllid grant i 19 o brosiectau bach, blwyddyn o hyd, ac roedd symiau grantiau unigol yn amrywio o £22,634 i £128,000. Cafodd pump o'r prosiectau hyn gyllid cyfalaf a chafodd 14 gyllid refeniw yn unig. Mewn dau achos, estynnwyd y gyllideb i 2020/21 ac yn achos tri o'r prosiectau hyn, estynnwyd y gyllideb i 2021/22.
- Dyrannwyd £13,454,633 o gyllid grant i 17 o brosiectau mawr yng Nghyfnod 1 ac roedd symiau grant unigol yn amrywio o £149,587 i £2,413,740. O blith

[7] Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020: Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) Nodiadau Cyfarwyddyd

y rhain, cafodd 10 gyfuniad o gyllid cyfalaf a refeniw, a chafodd saith gyllid refeniw yn unig.

3.18 Darparwyd data gwariant hefyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2023 ar gyfer prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnod 1. Fel y dangosir yn Nhabl 3.2, roedd 14 o brosiectau bach Cyfnod 1 wedi hawlio 89 y cant o'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt. Roedd tri phrosiect bach yn cyfrif am ychydig dros hanner y tanwariant cyffredinol. Roedd gan gyfanswm o 12 o blith yr 14 prosiect danwariant o fwy na £1,000 yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd iddynt.

**Tabl 3.2: Gwariant prosiectau bach Cyfnod 1**

| | Data ar gyfer prosiectau bach Cyfnod 1 |
|---|---:|
| Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru | £1,087,575 |
| Cyfanswm a hawliwyd, erbyn mis Medi 2023 | £966,576 |
| Cyfanswm a hawliwyd, fel canran o'r cyllid a ddyfarnwyd | 89% |
| Tanwariant | £120,999 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Medi 2023)

3.19 Fel y dangosir yn Nhabl 3.3, roedd 12 o blith yr 17 o brosiectau mawr wedi'u cwblhau ac wedi hawlio 91 y cant o'r cyllid grant a ddyfarnwyd, sy'n golygu nad oedd 9 y cant o'u dyraniad £8.4 miliwn wedi'i wario. Mae gan y prosiectau mawr a ariannwyd yng Nghyfnod 1 ac sy'n dal i fynd rhagddynt dros chwarter eu cyllid ar ôl i'w hawlio o hyd.

**Tabl 3.3: Gwariant prosiectau mawr Cyfnod 1**

| | Data ar gyfer 12 o brosiectau mawr Cyfnod 1 a gwblhawyd | Data ar gyfer 5 o brosiectau mawr Cyfnod 1 sy'n dal i fynd rhagddynt |
|---|---|---|
| Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru | £8,373,147 | £5,081,486 |
| Cyfanswm a hawliwyd, erbyn mis Medi 2023 | £7,611,842 | £3,724,447 |
| Cyfanswm a hawliwyd, fel canran o'r cyllid a ddyfarnwyd | 91% | 73% |
| Tanwariant / Ar ôl i'w hawlio | £761,305 | £1,357,039 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Medi 2023)

*Prosiectau Cyfnodau 2 a 3*

3.20 Roedd disgwyl i bob un o'r 23 o brosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 gael eu cwblhau erbyn mis Mehefin 2023. Dyfarnwyd estyniad i 11 o brosiectau tan fis Medi 2023 i'w galluogi i gyflawni eu hamcanion a gwario eu dyraniad ariannol llawn. Adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd y 12 prosiect arall wedi'u cwblhau ac wedi cyflwyno'u hawliadau terfynol i Lywodraeth Cymru.

**Tabl 3.4: Statws prosiectau Cyfnodau 2 a 3**

| | Cwblhawyd | Yn dal i fynd rhagddynt | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Prosiectau Cyfnod 2 | 2 | 3 | 5 |
| Prosiectau Cyfnod 3 | 10 | 8 | 18 |
| Cyfanswm prosiectau Cyfnodau 2 a 3 | 12 | 11 | 23 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Medi 2023)

3.21 Fel y dangosir yn Nhabl 3.5, dyrannwyd £31.5 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Datblygu Gwledig i Gyfnodau 2 a 3 cynllun ENRaW. Dyrannwyd cyllid grant o £29.6 miliwn i'r 23 o brosiectau a aeth yn eu blaenau. Roedd gwerth y grantiau unigol a ddyfarnwyd i'r 23 prosiect yn amrywio o £388,330 i £6,190,085, gyda chyfartaledd cymedrig o £1,285,782. Ar draws Cyfnodau 2 a 3, roedd £24.2 miliwn wedi'i hawlio erbyn mis Medi 2023, sef 82 y cant o'r grant a

gymeradwywyd, ac roedd £5.3 miliwn yn dal heb ei hawlio. Roedd £2.1 miliwn o'r swm hwn nas hawliwyd i'w priodol i'r 12 prosiect a gwblhawyd ac felly ni fydd y swm hwn yn cael ei hawlio, ond disgwylir y bydd cyfran o'r £3.3 miliwn sy'n weddill, sydd eto i'w hawlio gan y prosiectau sy'n dal i fynd rhagddynt, yn cael ei wario.

**Tabl 3.5: Cyllideb a gwariant prosiectau Cyfnodau 2 a 3**

| | Prosiectau Cyfnod 2 | Prosiectau Cyfnod 3 | Prosiectau Cyfnodau 2 a 3 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Datblygu Gwledig | £15,000,000 | £16,500,000 | £31,500,000 |
| Cyllideb a ddyrannwyd | £14,834,595 | £16,868,412 | £31,703,007 |
| Grant prosiectau a gymeradwywyd | £14,401,889 | £15,171,105 | £29,572,994 |
| Cyfanswm a hawliwyd, erbyn mis Medi 2023 | £9,118,791 | £10,942,705 | £20,061,496 |
| Cyfanswm yr hawliadau sydd ar y gweill, ym mis Medi 2023 | £2,413,613 | £1,763,401 | £4,177,014 |
| Cyfanswm a hawliwyd hyd yma, fel % o'r grant a gymeradwywyd | 80% | 84% | 82% |
| Cyfanswm y grant heb ei hawlio | £2,869,484 | £2,464,999 | £5,334,483 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Medi 2023)

3.22 I grynhoi, dyfarnwyd £44,115,202 o arian Llywodraeth Cymru (a chronfeydd y Rhaglen Datblygu Gwledig yn achos Cyfnodau 2 a 3) i brosiectau ENRaW dros y tri chyfnod ariannu, ac ym mis Medi 2023 roedd 83 y cant wedi'i hawlio (gan gynnwys hawliadau ar y gweill) fel y dangosir yn Nhabl 3.6.

**Tabl 3.6: Gwariant ENRaW o gymharu â'r cyllid a ddyfarnwyd**

| | Pob prosiect ENRaW (59) |
|---|---|
| Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru (a'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer Cyfnodau 2 a 3). | £44,115,202 |
| Cyfanswm a hawliwyd, erbyn mis Medi 2023 | £36,541,375 |
| Cyfanswm a hawliwyd, fel canran o'r cyllid a ddyfarnwyd | 83% |
| Tanwariant | £7,573,826 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Medi 2023)

**Canfyddiadau allweddol y gwerthusiad interim**

3.23 Fe wnaeth y gwerthusiad interim, a gyhoeddwyd yn 2023, gynnig nifer o ganfyddiadau allweddol mewn perthynas â gweinyddu a chyflawni’r cynllun.

- Roedd ENRaW wedi cael ei hyrwyddo’n effeithiol, gydag egni ag agwedd bositif gan staff Llywodraeth Cymru.
- Bu galw mawr am gyllid, yn bennaf oherwydd bod y cynllun wedi’i gynllunio i ysgwyddo 100 y cant o gostau prosiectau dros gyfnod tymor canolig tair blynedd, ac roedd hwn yn gynnig deniadol i bartneriaethau.
- Rhoddodd y gwaith o brosesu nifer mawr o geisiadau am gyllid gryn bwysau ar adnoddau staff Llywodraeth Cymru
- Canfuwyd bod trefniadau ymgeisio, asesu a gweinyddu grant Cyfnod 1 yn rhesymol a phriodol, ac un o gryfderau amlwg y cyfnod cyllido hwn oedd y ffaith y gallai'r ymgeisydd ddelio'n uniongyrchol ag un o swyddogion Llywodraeth Cymru.
- Roedd trosglwyddo'r cynllun i fecanweithiau'r Rhaglen Datblygu Gwledig a'r angen i fodloni gofynion cyllido'r rhaglen honno wedi amharu ar y broses o weinyddu'r cynllun yn ddidrafferth; digwyddodd y newidiadau hyn cyn y broses ymgeisio am grant ar gyfer Cyfnodau 2 a 3 ac roeddent yn cyd-daro â'r pandemig COVID-19; canfuwyd bod y newid yn y broses weinyddol wedi achosi cryn straen i brosiectau ac wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i gyflawni canlyniadau llwyddiannus, yn bennaf oherwydd iddynt golli ewyllys da y staff, y gymuned a phartneriaid tuag at eu prosiect.

3.24 At hynny, cynigiodd y gwerthusiad interim nifer o ganfyddiadau allweddol yn ymwneud â chyfatebiaeth y prosiectau a ariannwyd â nodau ac amcanion y cynllun.

- Roedd y prosiectau o ansawdd da ac yn cyflawni gwaith amgylcheddol a chymunedol gwerth chweil.
- Roedd y prosiectau'n cynnal gweithgareddau a oedd yn cyd-fynd â Meysydd Ffocws ac Amcanion Trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig, yn ogystal â themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, ond ychydig iawn o dystiolaeth a oedd ar gael i ddangos sut yr oeddent yn mynd ati i brif ffrydio rhywedd .
- Roedd y prosiectau'n mabwysiadu dulliau da iawn, a oedd yn aml yn greadigol, o ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol.
- Roedd ffocws ENRaW ar gydweithio yn annog ac yn cefnogi swm sylweddol o waith traws-sector a fyddai'n annhebygol o fod wedi'i gyflawni fel arall.
- Roedd tystiolaeth dda bod ENRaW wedi cefnogi'r broses o sefydlu a datblygu partneriaethau newydd yn ogystal â galluogi eraill i ehangu a chryfhau, yn ddaearyddol ac o ran yr ystod o bartneriaid dan sylw.

## 4. Cyd-destun polisi wedi'i ddiweddaru

4.1 Canfu'r gwerthusiad interim fod ENRaW wedi adlewyrchu polisi a strategaethau Llywodraeth Cymru yn fanwl a'i fod wedi bod yn gyfle gwych i gefnogi prosiectau traws-bolisi sy'n cwmpasu'r amgylchedd, cymunedau, yr economi, ac iechyd a llesiant ledled Cymru yn gyflym ac ar raddfa fawr.

4.2 Mae'r bennod hon yn rhoi diweddariad byr ar ddatblygiadau polisi perthnasol ers i'r adroddiad gwerthuso interim gael ei baratoi ac mae'n myfyrio ar ganfyddiadau gwerthusiad cam olaf cynllun tebyg, y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS).

**Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

4.3 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru amlinelliad o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig sy'n debygol o ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau cydweithredol, er y bydd y ffocws ar y gymuned ffermio. Bwriad yr SFS yw darparu cymorth ar dair lefel: elfen gyffredinol sydd ar gael i bob ffermwr, taliad lefel uwch am fwy o gamau gweithredu; a thaliadau ychwanegol am gamau cydweithredol.

4.4 Mae'r cynnig yn nodi y bydd cymorth ar gael i ffermwyr i gyflawni pedwar amcan allweddol.

- Cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy.
- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.
- Cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu.
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, gan hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd ac ymgysylltu[8].

4.5 Mae'r cynllun yn cydnabod bod yn rhaid i'r amcanion hyn gael eu cyflawni gyda'i gilydd ac mae'n bwriadu gwneud hynny drwy ddefnyddio dull 'rhannu tir' sy'n golygu bod canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn cael eu cyflawni drwy fabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy.

4.6 Disgwylir y bydd y taliadau ychwanegol ar gyfer camau cydweithredol ar gael mewn ffordd gydgysylltiedig i nifer o ffermwyr neu reolwyr tir ar raddfa'r dirwedd, y

[8] Llywodraeth Cymru (2022), Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Cynigion Bras ar gyfer 2025, tud. 9

dalgylch neu ar raddfa genedlaethol er mwyn sicrhau mwy o fanteision na chyfanswm rhannau unigol y cynllun. Mae enghreifftiau o weithredoedd cydweithredol o’r fath yn cynnwys creu cynefinoedd rhyng-gysylltiedig, datblygu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, a rhannu gwybodaeth ac arloesedd.[9]

4.7 Mae nifer o gamau gweithredu arfaethedig wedi’u nodi yn yr SFS sy’n darparu cyfleoedd ar gyfer gweithredoedd cydweithredol gan gynnwys:

- lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon (gan gynnwys adfer mawnogydd lled-naturiol a rheoli amaeth-goedwigaeth a choetir a chreu rhai newydd)
- diogelu a gwella ecosystem y fferm (gan gynnwys diogelu pridd rhag erydu a dirywio a gwarchod bridiau brodorol)
- rheoli cynefinoedd a rhywogaethau (gan gynnwys cynnal a chreu cynefinoedd, bod o fudd i gynefinoedd ar dir wedi’i wella a safleoedd dynodedig, lleihau’r risg o lygredd gwasgaredig a dulliau naturiol o reoli llifogydd)
- sicrhau lles pobl, anifeiliaid, a lle (gan gynnwys cynnal a chadw'r amgylchedd hanesyddol, treftadaeth a harddwch a galluogi pobl i ymwneud â’r amgylchedd naturiol a mynd iddo)[10].

4.8 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn helaeth ar ei chynigion ac ym mis Gorffennaf 2023 nododd ei hymateb i’r adborth cychwynnol[11]. Roedd yr adborth yn awgrymu bod ffermwyr yn gyffredinol yn gefnogol i egwyddorion y cynllun ond y byddent yn croesawu mwy o hyblygrwydd i ddewis y camau gweithredu sydd fwyaf addas ar gyfer eu tir a'u dull ffermio. Disgwylir yn awr y bydd yr ymgysylltu â ffermwyr a’r diwydiant ehangach yn parhau ac y bydd y cynllun, y rheolau, a’r cyfraddau talu terfynol yn cael eu cyhoeddi yn 2024, yn barod i’w rhoi ar waith o 2025 ymlaen.

**Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang COP 15**

4.9 Arweiniodd Cynhadledd Fioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP15) a gynhaliwyd yng Nghanada ym mis Rhagfyr 2022 at gytundeb i arwain camau

[9] Ibid. tud.15
[10] Ibid. tud. 9-56
[11] Cynigion Bras Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Ymateb cyd-ddylunio [HTML] | LLYW.CYMRU

gweithredu byd-eang ar fyd natur hyd at 2030[12]. Mae Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal yn nodi mesurau i atal a gwrthdroi colledion ym myd natur, gan gynnwys rhoi trefniadau ar waith i ddiogelu 30 y cant o'r blaned a 30 y cant o ecosystemau sy'n dirywio erbyn 2030.

4.10 Mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn cynnwys pedwar nod byd-eang cyffredinol a 23 targed. Mae'r pedwar nod yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer bioamrywiaeth erbyn 2050.

- Cynyddu'n sylweddol arwynebedd ecosystemau naturiol drwy gynnal, gwella, neu adfer uniondeb, cysylltedd a chydnerthedd pob ecosystem
- Sicrhau bod cyfraniadau natur i bobl yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnal a'u gwella, ac adfer y cyfraniadau hynny sy'n prinhau ar hyn o bryd
- Rhannu manteision ariannol ac anariannol defnyddio adnoddau genetig
- Sicrhau bod gan bawb (yn arbennig gwledydd sy'n datblygu) ddulliau digonol i roi adnoddau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar waith.

4.11 Mae'r targedau byd-eang ar gyfer 2030 yn cynnwys:

- gwarchod a rheoli o leiaf 30 y cant o diroedd y byd, dyfroedd mewndirol, ardaloedd arfordirol, a chefnforoedd yn effeithiol, gyda phwyslais ar feysydd o bwysigrwydd arbennig ar gyfer bioamrywiaeth a gweithrediad a gwasanaethau'r ecosystem. Cyfeiriwyd at hyn yn anffurfiol fel y fargen '30 wrth 30'
- haneru gwastraff bwyd byd-eang a lleihau gorddefnydd a chynhyrchu gwastraff yn sylweddol
- haneru maethynnau gormodol a'r risg gyffredinol a achosir gan blaladdwyr a chemegau hynod beryglus
- dirwyn cymorthdaliadau sy'n niweidio bioamrywiaeth i ben yn raddol, neu eu diwygio, ar gyfradd o $500 biliwn y flwyddyn o leiaf, ac ar yr un pryd cynyddu cymhellion cadarnhaol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth
- annog o leiaf $200 biliwn y flwyddyn mewn cyllid domestig a rhyngwladol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus a phreifat

[12] COP15: Nations Adopt Four Goals, 23 Targets for 2030 In Landmark UN Biodiversity Agreement | Convention on Biological Diversity (cbd.int)

- cynyddu llif ariannol rhyngwladol o wledydd datblygedig i wledydd sy’n datblygu o leiaf $20 biliwn y flwyddyn erbyn 2025, ac o leiaf $30 biliwn y flwyddyn erbyn 2030
- ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau trawswladol a sefydliadau ariannol fonitro, asesu a datgelu effaith eu gweithrediadau, eu cadwyni cyflenwi a'u portffolios ar fioamrywiaeth.

**Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth**

4.12 Gan ragweld y cytundeb COP15, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr allweddol i gynnal Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn ystod haf 2022. Cafodd y grŵp y dasg o ddatblygu camau gweithredu y gallai Cymru eu cymryd i gefnogi adferiad natur, ac i gyrraedd y nod o ddiogelu 30 y cant o dir, dŵr croyw a môr ar gyfer natur erbyn 2030. Mae'r nod hwn yn un o'r targedau sy'n rhan o Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang COP15 a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2022.

4.13 Mewn datganiad ysgrifenedig ar yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth[13] (Hydref 2022) cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd Julie James AS y camau gweithredu ar y cyd y gallai Cymru eu cymryd i gefnogi adferiad byd natur. Cynigiwyd cyfanswm o wyth argymhelliad[14].

- Trawsnewid y gyfres o safleoedd gwarchodedig er mwyn i’r gyfres fod yn well, yn fwy, a chael ei chysylltu’n fwy effeithiol.
- Creu fframwaith i gydnabod Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur a Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal (OECMs) sy’n cyflawni canlyniadau bioamrywiaeth.
- Rhyddhau potensial tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) i gyflawni mwy ar gyfer natur a 30 wrth 30.
- Parhau i ddiwygio gwaith rheoli a chynllunio tir a morol (gan gynnwys gofodol) i gyflawni mwy ar gyfer safleoedd gwarchodedig a thir / morweddau yn ehangach.

[13] Datganiad Ysgrifenedig: Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth (3 Hydref 2022) | LLYW.CYMRU
[14] Plymio dwfn bioamrywiaeth: argymhellion [HTML] | LLYW.CYMRU

- Adeiladu sylfaen gref ar gyfer cyflawni yn y dyfodol drwy ddatblygu capasiti, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau.
- Rhyddhau cyllid cyhoeddus a phreifat er mwyn cyflawni ar gyfer natur yn gyflymach ac ar raddfa fwy.
- Datblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed 30x30 a llywio'r broses o flaenoriaethu camau gweithredu.
- Rhoi Adfer Natur wrth wraidd polisi a strategaeth mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

**Ymyriadau tebyg eraill**

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

4.14 Bwriadwyd i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SMS), a ariannwyd drwy is-fesur 16.5 y Rhaglen Datblygu Gwledig, gefnogi ymyriadau ar raddfa'r dirwedd a fyddai'n creu manteision i reolwyr tir, busnesau a chymunedau. Darparodd y cynllun gymorth ariannol i 50 o brosiectau i wella bioamrywiaeth, gwella seilwaith gwyrdd, cynnal gwell rheolaeth ar dir a dŵr, a hwyluso addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd ar raddfa'r dirwedd.

## 5. Cynnydd a chyflawniadau

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried cyflawniadau grant ENRaW ac unrhyw newidiadau i weinyddiaeth y cynllun ers y gwerthusiad interim. Mae'n cyfeirio at ddata monitro'r cynllun yn ogystal ag adborth o waith maes y gwerthusiad terfynol a gasglwyd drwy'r arolwg a'r cyfweliadau ansoddol. Yna mae'n adrodd ar y cyflawniadau ar draws meysydd ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig a'r amcanion trawsbynciol. Yn olaf, mae'n ystyried i ba raddau y mae'r prosiectau a ariannwyd wedi cyflawni'r amcanion yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Cyflawni amcanion ehangach ENRaW**

5.2 Yn gyffredinol, roedd y prosiectau a gyfwelwyd o'r farn eu bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at dri amcan cyffredinol ENRaW[15] gan fod amcanion eu prosiectau'n cyd-fynd yn dda iawn â rhai'r cynllun. Darparwyd enghreifftiau ar gyfer pob un o'r tri amcan.

- Amcan 1 (datblygu, adfywio, ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy): er enghraifft, nododd un prosiect ei fod wedi gwella ansawdd safle parcdir cymunedol 140 erw ac wedi ehangu mynediad i'r safle hwn.
- Amcan 2 (gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig): er enghraifft, roedd un prosiect o'r farn ei fod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol drwy ymdrin â phroblemau'n ymwneud â sbwriel a fandaliaeth mewn un ardal, a oedd wedi arwain at fwy o ymgysylltiad cymunedol a mwynhad o'r gofod. Nododd prosiect arall ei fod wedi gwneud gwaith gwella ar hyd llwybrau camlesi ac adnoddau natur, a gyfrannodd at wella ansawdd yr amgylchedd lleol.
- Amcan 3 (datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac atebion sy'n seiliedig ar natur): er enghraifft, roedd un prosiect o'r farn ei fod wedi gwneud cyfraniad cryf at yr amcan hwn gan ei fod wedi sefydlu partneriaeth o sefydliadau sy'n ymwneud â rhywogaethau natur er mwyn gwarchod yn well y rhywogaethau sydd dan fygythiad mewn tirweddau strategol allweddol ledled Cymru. Roedd prosiect arall o'r farn ei fod wedi helpu i

[15] Datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy; gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig; a datblygu rhwydweithiau ecoleg cydnerth ac atebion sy'n seiliedig ar natur

gyflawni'r amcan hwn drwy brofi dulliau newydd o reoli lledaeniad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn well.

5.3 Roedd prosiectau tymor byr, bach iawn a oedd ond wedi cynnwys cam datblygu neu astudiaeth ddichonoldeb yn meddwl eu bod wedi gwneud llai o gyfraniad at amcanion ENRaW ond eto'n hyderus y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni yn yr hirdymor pe bai'r prosiect llawn yn mynd yn ei flaen.

**Cyflawni targedau, nodau ac amcanion y prosiect**

5.4 Roedd yr holl ymatebwyr i'r arolwg heblaw un o'r farn bod eu prosiect wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion i raddau helaeth (20 o blith 30) neu i ryw raddau (9 o blith 30). Ni chafwyd ateb gan yr ymatebydd arall a oedd yn weddill. Roedd yr adborth gan y prosiectau a gyfwelwyd yn atgyfnerthu canfyddiadau'r arolwg hwn.

5.5 Pwysleisiodd y prosiectau a gyfwelwyd eu bod wedi cyflawni eu nodau o ran datblygu partneriaeth a chydweithio. Roeddent hefyd yn optimistaidd ynghylch i ba raddau yr oeddent wedi gwella cymunedau a chynyddu perchnogaeth o asedau lleol.

5.6 Eto, prosiectau a oedd wedi cael arian datblygu yn unig oedd fwyaf tebygol o feddwl nad oeddent wedi cyflawni eu nodau a’u hamcanion yn llawn:

> Roedd un prosiect a oedd wedi cael cyllid yng Nghyfnod 1 wedi bwriadu defnyddio'r cyllid i gefnogi cam datblygu i wneud cais am gymorth grant dilynol ond nid oedd yn ymwybodol bod cyfnod cyllido ENRaW ar agor i geisiadau. O’r herwydd, collwyd cyfle a chaewyd y prosiect yn gynnar, ar ôl hawlio dim ond ychydig dros hanner ei gyllid grant Cyfnod 1, a chwalodd y bartneriaeth.

5.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod eu prosiect wedi cyflawni, neu'n debygol o gyflawni, eu DPA. Dywedodd dros hanner y prosiectau (17 o blith 30) eu bod wedi cyflawni pob un o'u DPA neu wedi rhagori arnynt, tra bod chwarter arall (wyth) yn credu eu bod wedi cyflawni bron pob un o'u DPA. Credai pedwar ymatebydd i'r arolwg mai dim ond yn rhannol yr oeddent wedi cyflawni eu DPA, ac ni chafwyd ateb gan un.

5.8 Roedd gan y prosiectau a gyfwelwyd farn gymysg debyg am eu llwyddiant o ran cyflawni eu DPA gwreiddiol. Dywedodd chwe phrosiect a gyfwelwyd eu bod wedi cyflawni llai na’r disgwyl ar gyfer rhai o’u DPA e.e., ymgysylltu â llai o bobl, cynnal

llai o ddigwyddiadau ymgysylltu â’r gymuned, darparu llai o weithgareddau hyfforddi neu blannu llai o goed neu wrychoedd na’r bwriad, yn bennaf oherwydd cyfnod cyllido byrrach. Yn yr achosion hyn, ni chyflawnwyd DPA penodol oherwydd ffactorau megis partner allweddol y prosiect ddim yn ymgysylltu â'r prosiect neu'n tynnu'n ôl, cais am fynediad i dir yn cael ei wrthod, neu'r ffaith bod y DPA wedi bod yn rhy uchelgeisiol o'r cychwyn cyntaf. Er enghraifft, nododd un prosiect ei fod wedi creu neu adfer 420 o randiroedd erbyn diwedd cyfnod y prosiect o gymharu â tharged cychwynnol o 800 a bod y tanberfformiad hwn i'w briodoli i gyfnod cyflawni llai, anawsterau o ran cael mynediad i dir awdurdod lleol a thir preifat a tharged a oedd yn rhy uchelgeisiol. Roedd prosiect arall, a oedd yn cael ei gyflwyno ar draws pedair cymuned wahanol, wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion mewn dwy ardal ond wedi'i chael yn anodd cyflawni ar draws y ddwy ardal arall oherwydd tensiynau a charfanau cymunedol lleol presennol.

5.9 Dywedodd pum prosiect a gyfwelwyd eu bod wedi rhagori gryn dipyn ar rai o'u DPA gwreiddiol e.e., roedd un prosiect wedi rhagori ar nifer y gwirfoddolwyr; roedd un arall wedi ymgysylltu â 1,700 o bobl leol, a oedd yn sylweddol uwch na'r disgwyl, dywedodd un arall fod y galw am ei raglen teithiau tywys wedi bod yn uwch na'r disgwyl ac roedd un arall wedi gweithio gyda thros 50 o sefydliadau partner, a oedd yn llawer uwch na'r disgwyliad gwreiddiol. Fodd bynnag, nid oedd y prosiectau hyn wedi gallu adrodd ar y cyflawniadau ychwanegol hyn drwy borth ar-lein WEFO, gan nad yw'r platfform yn caniatáu i ddefnyddwyr gyflwyno allbynnau sy'n uwch na'u targed.

**Galluogwyr allweddol i gyflawni prosiectau'n llwyddiannus**

5.10 Roedd y prif ffactorau y credwyd eu bod yn gyfrifol am sicrhau llwyddiant prosiectau ENRaW dros y flwyddyn a oedd yn weddill yn cynnwys y canlynol (cyfeiriwyd at lawer o'r rhain hefyd yn ystod y gwerthusiad interim):

- tîm ymroddedig a brwdfrydig o staff, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol
- partneriaeth gref a chydweithio, yn enwedig lle roedd profiad blaenorol o weithio mewn partneriaeth ac ymddiriedaeth y gellid manteisio arno
- gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth effeithiol, gan gynnwys defnydd cymysg o gyfryngau cymdeithasol a dulliau mwy traddodiadol megis posteri a thaflenni
- mabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu a datblygu cymunedol

- defnyddio contractwyr medrus a dibynadwy
- hyblygrwydd y gronfa i addasu dulliau gweithredu ac ailbroffilio cyllidebau.

**Heriau a rhwystrau allweddol i gyflawni prosiectau'n llwyddiannus**

5.11 Roedd y prif rwystrau a wynebwyd gan brosiectau ENRaW i gyflawni eu nodau a'u hamcanion, a adroddwyd yn ystod y cam gwerthuso terfynol, yn debyg i'r rhai a nodwyd yn y gwerthusiad interim ac yn cynnwys:

- effaith y pandemig COVID-19 a chyfyngiadau a oedd yn eu hatal rhag ymgysylltu â phobl
- problemau'n ymwneud â gweinyddu grantiau ENRaW megis gofynion tendro cymhleth, anawsterau'n gysylltiedig â gwneud hawliadau ac oedi cyn derbyn taliadau
- y ffaith nad oedd swyddog achos ymroddedig i helpu i ddatrys unrhyw broblemau
- cyfnodau cyflawni tymor byr (a waethygwyd yn sgil oedi cyn i brosiectau ddechrau) a oedd wedi'i gwneud yn anodd recriwtio a chadw staff, cyflawni'r gweithgareddau a gynlluniwyd ganddynt, yn ogystal ag ymgorffori cynaliadwyedd ar ôl i'r cyllid ddod i ben
- tywydd garw a oedd wedi effeithio ar weithgareddau a gwaith cyfalaf
- cynnydd ym mhrisiau deunyddiau a chyflenwyr, a phrinder contractwyr a chyflenwyr yn effeithio ar waith cyfalaf yn arbennig
- partneriaid prosiectau'n tynnu'n ôl neu'n ymgysylltu i raddau llai na'r disgwyl
- yr awydd i ymgysylltu ymhlith rhai carfannau (e.e., busnesau, ffermwyr, neu ysgolion) yn llai na'r disgwyl
- dibyniaeth ar sefydliadau partner i gyflawni rhai elfennau o brosiectau a'r partneriaid hyn yn wynebu problemau megis diffyg capasiti a throsiant staff.

**Allbynnau'r cynllun hyd yma**

5.12 Mae allbynnau terfynol prosiectau Cyfnod 1 i'w gweld yn Nhabl 5.1. Caiff y diffiniadau o'r allbynnau a'u cyfyngiadau yn ogystal â pherfformiad yn erbyn y targedau eu trafod isod.

5.13 Nid oedd yn bosibl cael gafael ar dargedau ac allbynnau cyfunol tebyg ar gyfer prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Er bod prosiectau wedi adrodd ar eu DPA bob chwarter i WEFO, mae angen i RPW wirio eu hallbynnau drwy ymweliad personol cyn y gellir eu cyhoeddi.

5.14 Nodir isod rai sylwadau am gyflawniadau a data monitro Cyfnod 1:

*Mannau gwyrdd*

5.15 Adroddodd prosiectau Cyfnod 1 ENRaW fod 7,369 o fannau gwyrdd unigol ac 19 o ardaloedd coridor gwyrdd/glas wedi'u gwella hyd yma, gan ragori ar y ddau darged a osodwyd ar gyfer y dangosyddion hyn. Mae mannau gwyrdd yn cynnwys gwelliannau o ran mynediad i safleoedd, gwelliannau i dir ysgolion, gwell arwyddion, llwybrau cerdded a llwybrau beicio, coetiroedd, clirio llystyfiant, a safleoedd bywyd gwyllt lleol yn ogystal â gweithgareddau megis casglu sbwriel a glanhau cymunedau. Gwelliannau i'r coridorau gwyrdd/glas yw'r rhai a gwblhawyd ochr yn ochr â gwelliannau i goridorau arfordirol ac afonydd ac maent yn cynnwys gwelliannau i lwybrau troed, adfer twyni tywod, plannu glaswellt, atgyweirio pontydd sydd wedi'u difrodi, gwella arwyddion a gwybodaeth ddehongli a gwell mynediad. Yn ddealladwy, mae maint yr allbynnau yn amrywio o un man gwyrdd neu goridor gwyrdd/glas i’r llall ac maent yn cynnwys sawl hectar neu sawl cilomedr o lwybrau a gwelliannau llawer llai ar safleoedd eraill gan ei gwneud yn anodd cydgrynhoi cyflawniadau ystyrlon.

5.16 Rhagorodd prosiectau Cyfnod 1 ENRaW ar eu targed ar gyfer creu neu adfer dolydd. Cafwyd diffiniad cyson o'r dangosydd hwn ac adroddwyd yn gyson yn ei erbyn, yn yr ystyr bod rhai prosiectau Cyfnod 1 wedi adrodd ar allbwn o un safle waeth beth fo maint y ddôl a grëwyd neu a adferwyd (dros 100 hectar mewn rhai achosion), tra bod eraill wedi adrodd ar nifer fwy o safleoedd unigol, megis nifer y gwelyau plannu uwch a grëwyd, er bod yr ardaloedd hyn yn llai o ran maint. Fodd bynnag, byddai'n werth diffinio'r math hwn o ddangosydd yn ôl yr ardal a gwmpesir mewn rhaglenni yn y dyfodol gan y byddai hyn yn darparu allbwn mwy ystyrlon.

5.17 Gwlyptiroedd a grëwyd: cyrhaeddwyd y targed a osodwyd gan brosiectau Cyfnod 1 ar gyfer y dangosydd hwn. Heblaw am un prosiect a oedd yn gyfrifol am dri o'r chwe allbwn hyn drwy adfer tri phwll, adroddodd pob prosiect Cyfnod 1 arall un allbwn yn erbyn y dangosydd hwn. Nid yw maint y gwlyptir a grëwyd yn cael ei adlewyrchu yn y data a adroddwyd a gallai hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

5.18 Rhywogaethau targed a warchodwyd: heblaw am un prosiect a oedd yn cyfrif am 29 o'r 44 allbwn a adroddwyd ar gyfer y dangosydd hwn ac sydd o bosibl wedi gorddatgan y cyflawniadau, adroddodd pob prosiect arall o Gyfnod 1 ar un allbwn gan awgrymu rhywfaint o gysondeb wrth ddehongli'r dangosydd hwn.

5.19 Pobl yr ymgysylltwyd â nhw: cafodd yr allbwn hwn ei ddiffinio'n wahanol gan brosiectau Cyfnod 1. Adroddodd y rhan fwyaf ar fuddiolwyr unigol (boed yn breswylwyr lleol, plant ysgol, ffermwyr, BBaCh[16] etc). Adroddodd eraill ar nifer y grwpiau a fu'n ymwneud â'r prosiect h.y., roedd ysgol neu ddigwyddiad yn cael ei gyfrif fel 'un', ac yn yr achosion hyn roedd cyfanswm y buddiolwyr a gymerodd ran yn y prosiect wedi'u tangofnodi. Ambell waith, defnyddiodd rhai prosiectau ddiffiniadau eraill e.e. cynnydd yn y defnydd gan y gymuned. O ystyried bod y rhan fwyaf o brosiectau yn adrodd yn erbyn y targed hwn yn unol â'r bwriad, mae'n wir i ddweud bod prosiectau Cyfnod 1 ENRaW wedi ymgysylltu ag o leiaf 99,149 o bobl, sydd deirgwaith yn fwy na'r targed gwreiddiol.

5.20 Gwirfoddoli: ni chafodd y diffiniad a fabwysiadwyd yn y cynllun (nifer yr oriau gwirfoddoli) ar gyfer y dangosydd hwn ei gymhwyso'n gyson ar draws y prosiectau a ariannwyd ac felly mae'n anodd rhoi barn ar berfformiad ENRaW yn erbyn y dangosydd hwn. Adroddodd rhai prosiectau ar nifer yr oriau gwirfoddoli neu ddiwrnodau gwirfoddoli a sicrhawyd gan y prosiect, tra bod eraill yn adrodd ar nifer yr unigolion a oedd yn gwirfoddoli. Nid yw'r allbwn o 31,542 a adroddir yn Nhabl 5.1 yn gywir, gan ei fod yn seiliedig ar fetrigau gwahanol.

*Presgripsiynu cymdeithasol a llesiant*

5.21 Ceir problemau gyda'r data cyfanredol ar gyfer y ddau ddangosydd hyn. Adroddodd prosiectau Cyfnod 1 ENRaW fod 192 o bobl wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol, sy'n llawer uwch na'r targed o 104 a osodwyd gan y prosiectau hyn. Fe wnaeth prosiectau Cyfnod 1 gyflawni tua hanner eu targedau llesiant, sef 1,579 yn erbyn targed o 3,014 a osodwyd gan y prosiectau.

5.22 Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yn union yw'r data neu'r mesuriad yr adroddir arno yn erbyn y targedau hyn ac mae'n ymddangos mewn rhai achosion ei fod yn cynnwys cyfranogwyr unigol a gymerodd ran mewn gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol. Byddai prosiectau a oedd yn adrodd ar nifer y cyfranogwyr sy'n

[16] Busnesau Bach a Chanolig

dweud bod eu llesiant wedi gwella drwy offer fel Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin a'r Outcomes Star yn cael eu nodi fel allbynnau priodol yn erbyn y dangosydd hwn.

*Plannu coed a gwrychoedd*

5.23 Adroddodd tuag wyth prosiect Cyfnod 1 ar allbynnau plannu coed, a phlanwydd cyfanswm o 19,175 o goed. Mae hyn yn erbyn targed o 7,166 ond nid oedd nifer o brosiectau a adroddodd ar allbynnau o'r fath ers hynny wedi eu cynnwys yn benodol fel rhan o'u cais gwreiddiol. Ym mhob achos ac eithrio un, mae prosiectau wedi adrodd ar union nifer y coed a blannwyd gan gyflwyno data cyson a defnyddiol.

5.24 Adroddodd wyth o brosiectau Cyfnod 1 ar allbynnau plannu gwrychoedd. Adroddodd rhai o'r rhain ar y metrau llinol a blannwyd, adroddodd eraill ar nifer y glasbrennau a blannwyd, adroddodd eraill ar nifer y safleoedd lle y gwnaed gwaith ac eraill ar nifer y diwrnodau a dreuliwyd yn plannu gwrychoedd. Felly mae'n amhosibl dehongli'n gywir gyfanswm allbynnau cyfanredol prosiectau Cyfnod 1 hyd yma yn erbyn y dangosydd hwn.

*Bwyd cymunedol a thyfu*

5.25 Adroddodd tri phrosiect Cyfnod 1 ar 29 o allbynnau bwyd a thyfu cymunedol, a rhagorwyd ar y targed a osodwyd (sef 24). Roedd y rhain yn cynnwys safleoedd rhandir newydd a chreu lleiniau rhandir yn ogystal â pherllannau a sefydlu ceginau cymunedol.

**Tabl 5.1: Allbynnau terfynol Cyfnod 1 a gyflawnwyd yn erbyn y targedau**

| Dangosyddion | Targed[17] | Allbynnau a nodwyd | % a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| **Mannau gwyrdd** | | | |
| Nifer y coridorau gwyrdd/glas wedi'u gwella | 17 | 19 | 112% |
| Nifer y mannau gwyrdd wedi'u gwella | 636 | 7,369 | 1,159% |
| Nifer y dolydd a grëwyd neu a adferwyd | 100 | 124 | 121% |
| Nifer y gwlyptiroedd a grëwyd | 6 | 6 | 100% |
| Rhywogaethau targed a warchodwyd | 20 | 44 | 220% |
| Pobl yr ymgysylltwyd â nhw | 32,357[18] | 99,149 | 306% |
| Gwirfoddoli | 8,572[19] | 31,542 | 368% |
| **Presgripsiynu cymdeithasol a llesiant** | | | |
| Cyfranogwyr presgripsiynu cymdeithasol | 104 | 192 | 185% |
| Llesiant wedi gwella | 3,014 | 1,579 | 52% |
| **Coed a gwrychoedd** | | | |
| Coed a blannwyd | 7,166 | 19,175 | 268% |
| Gwrychoedd wedi'u creu neu eu cynnal a'u cadw | 706 | 2,037 | 289% |
| **Prosiectau bwyd a thyfu cymunedol** | | | |
| Nifer y prosiectau a ddarparodd weithgareddau bwyd a thyfu yn y gymuned | 24 | 29 | 121% |

Ffynhonnell: Cronfa ddata Llywodraeth Cymru fel ym mis Medi 2023

[17] Wrth benderfynu ar y targed a osodwyd ar gyfer pob dangosydd, lle na osodwyd targed penodol ond bod disgwyl i'r prosiect gyflawni o leiaf un allbwn yn erbyn y dangosydd, rhagdybir targed o '1'.

[18] Roedd y targed a bennwyd ar gyfer pob prosiect yn amrywio o ddim targedau allbwn i dros 10,000 o gyfranogwyr. Lle na phennwyd unrhyw rif ar gyfer allbwn ar gyfer prosiectau oherwydd diffyg unrhyw ddata gwaelodlin, rhagdybiwyd targed o '1' fel arwydd bod y prosiect yn bwriadu cyflawni allbynnau ar gyfer y dangosydd hwn. Mewn sawl achos, mae'r targed a osodwyd ar gyfer prosiect yr un fath â'r allbwn a adroddwyd, sy'n awgrymu bod allbynnau wedi'u pennu'n ôl-weithredol yn yr achosion hyn.

[19] Roedd y targed a bennwyd ar gyfer pob prosiect yn amrywio o ddim targedau allbwn i dros 19,000 o gyfranogwyr. Lle na phennwyd unrhyw rif ar gyfer allbwn ar gyfer prosiectau oherwydd diffyg unrhyw ddata gwaelodlin, rhagdybiwyd targed o '1' fel arwydd bod y prosiect yn bwriadu cyflawni allbynnau ar gyfer y dangosydd hwn. Mewn sawl achos, mae'r targed a osodwyd ar gyfer prosiect yr un fath â'r allbwn a adroddwyd, sy'n awgrymu bod allbynnau wedi'u pennu'n ôl-weithredol yn yr achosion hyn.

**Newidiadau yng ngweinyddiaeth y cynllun**

5.26 Mae'r adran hon yn ystyried yn gryno unrhyw adborth ychwanegol a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad terfynol am y trefniadau gweinyddu grantiau a oedd ar waith ar draws cynllun ENRaW. Roedd y gwerthusiad interim[20] yn canolbwyntio'n fanwl ar y pwnc hwn felly dim ond adborth newydd y bydd yr adran hon yn ei gynnwys.

5.27 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod RPW wedi cryfhau ei drefniadau monitro mewn perthynas â phrosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 dros y flwyddyn gyflawni a oedd yn weddill. Mae swyddog RPW penodedig wedi ymgymryd â'r rôl hon ac wedi canolbwyntio ar y prosiectau hynny sydd wedi cael trafferthion yn ymwneud â chyflawni a gwariant. Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol gyda phrosiectau yr ystyriwyd eu bod mewn mwy o berygl o danberfformio a thanwario. Roedd pum prosiect a gyfwelwyd ac a oedd yn dal i fynd rhagddynt adeg y gwaith maes yn cydnabod bod y ffordd y gweinyddwyd ENRaW wedi gwella o ganlyniad i benodi rheolwr cyfrifon penodedig yn RPW i drafod cynnydd a materion yn ymwneud â chyllid ers dechrau 2023, a bod y trefniant hwn gryn dipyn yn well na gorfod delio â system negeseua RPW ar-lein:

'mae wedi bod yn nefoedd. Mae [enw'r swyddog] wedi 'bwrw ati'. Mae wedi ein helpu ni i wneud cynnydd.'

5.28 Roedd yn golygu nad oedd yn rhaid i brosiectau ymdrin â gwahanol swyddogion ar gyfer pob ymholiad gan arwain at wneud penderfyniadau'n gyflymach dros yr ychydig fisoedd a oedd yn weddill o'r cyfnod cyflawni. Nododd y prosiectau hyn fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn fwy hyblyg yn ystod y misoedd diwethaf o ran cyllid prosiectau, ac yn fwy ymatebol i geisiadau i drosglwyddo arian mewn ymdrech i sicrhau bod prosiectau'n gwario'r cyllidebau a ddyrannwyd iddynt.

5.29 Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, roedd teimlad cryf bod hyn wedi dod yn hwyr yn y dydd ac roedd y prosiectau'n parhau i ddadlau nad oedd ENRaW wedi bod yn ffrwd gyllido briodol i gefnogi prosiectau cydweithredol cymhleth, a oedd yn aml yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith gwahanol ac ystod eang o bartneriaid cyflawni. Parhaodd y prosiectau a ariannwyd i roi enghreifftiau manwl o broblemau'n ymwneud â chaffael a hawliadau a brofwyd dros flwyddyn olaf y cyfnod cyflawni ac roedd llawer o nerfusrwydd y gallent fethu â bodloni'r gofynion archwilio terfynol a

[20] Gwerthusiad o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant: adroddiad interim (crynodeb)| LLYW.CYMRU

ddisgwyliwyd ohonynt e.e., roedd cais hwyr gan Lywodraeth Cymru am dystiolaeth ffotograffig o'r holl wariant cyfalaf yn amhosibl i un prosiect ei fodloni gan y byddai'n ofynnol iddo dynnu llun dros 1,500 o arwyddbyst unigol a osodwyd yn ystod y prosiect.

5.30 Nid oedd gan swyddogion Llywodraeth Cymru ddealltwriaeth dda o gyflawniadau a chanlyniadau prosiectau ENRaW gan fod eu cysylltiad â phrosiectau Cyfnodau 2 a 3 yn canolbwyntio ar reoli contractau a materion yn ymwneud â gwariant. Ychydig iawn o gysylltiad a fu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a phrosiectau Cyfnodau 2 a 3 a oedd wedi cael eu cyflawni'n gymharol ddidrafferth, ac o fewn y terfynau amser.

**Ffactorau a effeithiodd ar gyflawni prosiectau**

5.31 Nododd y gwerthusiad interim fod tri phrif ffactor wedi effeithio ar gyflawni'r prosiectau hyd at fis Mehefin 2022. Yn benodol, effaith y pandemig COVID-19; trosglwyddo trefniadau gweinyddol y cynllun o Gangen Rheoli a Chyflawni Rhaglenni Llywodraeth Cymru i RPW, a ffactorau lleol ar lefel prosiectau unigol. Canfu'r gwerthusiad terfynol fod y tri ffactor hyn yn dal i gyfrif am lawer o'r problemau cyflawni a brofwyd gan brosiectau ENRaW a oedd yn golygu bod yn rhaid i rai prosiectau fireinio eu huchelgeisiau a lleihau eu cynlluniau gwreiddiol.

**Cyflawni arloesedd drwy gynhyrchion, arferion, partneriaethau, prosesau a thechnolegau newydd**

5.32 Canfu'r gwerthusiad interim dystiolaeth eang fod ENRaW wedi cyllido dulliau arloesol, arferion newydd, a phartneriaethau newydd. Fel y gwerthusiad interim, nododd y prosiectau a gyfwelwyd ystod eang o gynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau arloesol yr oeddent wedi'u mabwysiadu yn ystod y prosiect. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd roedd y canlynol:

- cynhyrchion newydd, megis gosod toeau gwyrdd ar gysgodfannau bysiau; ymchwilio i ddefnyddio gwastraff pren gan gerfiwr lleol i greu llwyau a phowlenni; a sefydlu hwb bwyd ar-lein newydd (gan ddefnyddio platfform Open Food Network) i'w gwneud yn haws i gynhyrchwyr bwyd werthu i bobl leol[21]. Gall defnyddwyr archebu drwy'r wefan a chasglu eu bwyd o Hwb lleol

[21] Hwb Bwyd Dyfi - Open Food Network

- arferion newydd, a oedd fel arfer yn golygu newid ymddygiad pobl megis gosod biniau barbeciw ar draethau i atal sbwriel neu i atal pobl rhag claddu barbeciws yn y tywod; a defnyddio diwrnodau gwyddoniaeth dinasyddion i addysgu pobl am yr amgylchedd lleol a sut i ofalu amdano. Soniodd y prosiectau hefyd am arferion newydd megis defnyddio deunyddiau naturiol ar gyfer gwaith adeiladu megis gwlân ar gyfer inswleiddio; ac mewn un achos ymchwilio i sut y gallai awdurdod lleol addasu ei arferion rheoli lleiniau glas. Adroddodd prosiect arall ei fod wedi defnyddio dyfeisiau cyfrif newydd er mwyn cyfrif nifer yr ymwelwyr a chasglu data gwell ar y defnydd o lwybrau. Rhoddodd un prosiect arfer arloesol ar brawf i reoli lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Dyma'r prosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru i ddefnyddio defaid i bori Jac y Neidiwr er mwyn rheoli ei ledaeniad. Dysgodd y prosiect y bydd bridiau defaid mwy traddodiadol, yn hytrach na bridiau masnachol, yn pori ar Jac y Neidiwr er mwyn rheoli ei ledaeniad.
- prosesau newydd, megis creu hwb adnoddau ar wefan i sefydliadau partner ei ddefnyddio pan fydd angen adnoddau ymgyrchu arnynt megis i gynnal ymgyrch sbwriel; y defnydd o systemau archebu ar-lein fel Eventbrite ar gyfer sesiynau gwirfoddoli er mwyn rheoli'r niferoedd yn well; a sefydlu safleoedd compostio cymunedol i breswylwyr ddod â'u gwastraff bwyd er mwyn ei droi'n gompost i dyfwyr lleol
- technoleg newydd, gan gynnwys defnyddio gwair wedi'i dorri fel biomas i greu ynni; mabwysiadu peiriannau newydd ar gyfer tyfwyr bwyd; defnyddio peiriannau torri lawnt robotig; a datblygu ap meddalwedd i alluogi preswylwyr i adnabod bywyd gwyllt ar hyd y gamlas. Mae un prosiect hefyd wedi addasu porth yr Open Food Network yn offeryn dwyieithog[22] i'w ddefnyddio gan ei aelodau ledled Cymru.

**Cyflawni amcanion Meysydd Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig**


5.33 Canfu'r gwerthusiad terfynol fod ychydig dros hanner y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg (16) yn credu eu bod wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad at o leiaf un o wyth amcan Meysydd Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig. Dywedodd traean o'r rhai a holwyd (naw) nad oeddent wedi gwneud unrhyw gyfraniad at unrhyw un o

[22] Tudalen Prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn • Open Food Network

wyth maes ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig ac nid oedd ychydig o dan un rhan o bump (pump) yn gwybod a oeddent wedi gwneud unrhyw gyfraniad at unrhyw un o'r meysydd ffocws.

5.34 Fel y dangosir yn Ffigur 5.1, y ddau faes ffocws y cyfeiriwyd atynt amlaf gan y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg fel rhai yr oeddent yn credu eu bod wedi gwneud y cyfraniad mwyaf atynt oedd hwyluso arallgyfeirio, a chreu mentrau a swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig, ac yna feithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig. Ychydig iawn a oedd yn credu eu bod wedi gwneud unrhyw gyfraniad at y meysydd ffocws o ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon neu leihau allyriadau ocsid nitrus a methan sy'n deillio o amaethyddiaeth. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried cylch gorchwyl prosiectau ENRaW, a oedd yn canolbwyntio ar y rhyngweithio rhwng pobl a natur, yn hytrach nag ar ddatblygiadau technegol yn y meysydd amaethyddol a choedwigaeth.

**Ffigur 5.1: Y cyfraniad a wnaed gan y prosiectau a ariannwyd at feysydd ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, 2023 (30 o ymatebion)

5.35 Y prif enghreifftiau a ddarparwyd gan y prosiectau a ariannwyd i ddangos sut yr oeddent wedi cyfrannu at rai o'r meysydd ffocws hyn oedd:

- hwyluso arallgyfeirio, a chreu mentrau a swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig: roedd un prosiect wedi cyflwyno llwybrau newydd i gyflogaeth yn y sector awyr agored i bobl leol gan gynnwys gweithio gyda ffermwyr ifanc i amrywio eu sgiliau; roedd un arall wedi darparu hyfforddiant mewn

amaethecoleg i gynyddu sgiliau ffermio; roedd un wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cynhyrchu bwyd, roedd un wedi cyflwyno llwybrau mynediad newydd a oedd wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr; dywedodd un arall ei fod wedi cyflogi pobl leol fel contractwyr a oedd wedi bod o fudd i'r economi leol a dywedodd un arall fod y prosiect wedi creu swydd prentisiaeth mewn cynllun ailddefnyddio dodrefn a oedd yn parhau ar ôl i gyllid y prosiect ddod i ben. Dywedodd un prosiect a gafodd ei gyfweld fod y prosiect wedi helpu i greu cyfanswm o 11 o swyddi newydd a dywedodd un arall ei fod wedi creu 13 o swyddi newydd fel rhan o'r prosiect.

- meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig: roedd un prosiect wedi datblygu hybiau bwyd a pherllannau cymunedol; roedd un arall wedi sefydlu rhandiroedd cymunedol; roedd un arall wedi sefydlu dosbarthiadau ffitrwydd newydd mewn mannau gwyrdd; tra bod pedwerydd wedi datblygu cyfleusterau canolfan ymwelwyr
- hwyluso cyflenwad o ffynonellau ynni adnewyddadwy a'r defnydd ohonynt: adroddodd dau brosiect eu bod wedi gosod paneli solar ffotofoltäig (PV). Roedd un o'r prosiectau hyn hefyd wedi mabwysiadu nwy gwyrdd ac wedi gosod system adfer gwres mewn canolfan chwaraeon dŵr
- meithrin atafaelu carbon mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth: adroddodd pum prosiect eu bod wedi plannu coed y rhagwelwyd y byddant yn helpu i atafaelu carbon pan fyddant yn eu llawn dwf. Dywedodd un o'r rhain hefyd ei fod wedi rheoli dolydd ac roedd y llall wedi gwneud gwaith ar adfer dalgylch. Roedd un prosiect yn mabwysiadu dulliau amaethecoleg i sicrhau gwell strwythur pridd, a fydd yn helpu i ddal carbon
- cynyddu effeithlonrwydd y defnydd o ddŵr ym maes amaethyddiaeth: adroddodd un prosiect fod cynghorydd fferm wedi addysgu ffermwyr am eu defnydd o ddŵr o ran faint yr oedd ei angen arnynt a sut i'w reoli'n well. Ers hynny roedd y ffermwyr wedi cyflwyno methodolegau rheoli llifogydd yn naturiol er mwyn cadw dŵr a chynyddu eu gallu i wrthsefyll sychder.


5.36 Dywedodd un prosiect y dylai gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â meysydd ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig gan ENRaW helpu i lywio'r SFS. Roedd y

prosiect wedi comisiynu astudiaeth i helpu i ddangos effeithiolrwydd atal tanau gwyllt, a sut y gellid integreiddio hyn i'r SFS.

**Cyflawni'r themâu a'r amcanion trawsbynciol**

5.37 Mae Ffigur 5.2 yn dangos y cyfraniad yr oedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu eu bod wedi'i wneud tuag at dri amcan trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig a thair thema drawsbynciol Llywodraeth Cymru. Yn fras, roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn meddwl eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr amcanion a'r themâu'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd ond roedd ganddynt farn lai optimistaidd am eu cyfraniad at arloesi a datrysiadau arloesol ar gyfer ardaloedd gwledig.

**Ffigur 5.2: Cyfraniad at yr amcanion a'r themâu trawsbynciol**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, 2023 (30 o ymatebion)

5.38 O ran tri amcan trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig (sef Arloesedd, yr Amgylchedd, ac Addasu a lliniaru newid hinsawdd) roedd cam olaf y gwaith maes yn ategu llawer o'r dystiolaeth a gasglwyd yn y gwerthusiad interim gan y canfuwyd bod y prosiectau a ariannwyd:

- wedi bod yn arloesol o ran y ffordd yr oeddent yn gweithio. Mae enghreifftiau o gynhyrchion a dulliau gweithredu arloesol eisoes wedi'u disgrifio yn y bennod hon
- ag ystyriaethau amgylcheddol wrth eu gwraidd, yn yr ystyr eu bod wedi diogelu a gwella amgylcheddau naturiol megis mannau gwyrdd, dolydd, coetiroedd, a llwybrau afonydd er budd bywyd gwyllt, natur a chymunedau

lleol. Mae enghreifftiau o sut y bu i brosiectau helpu i ddiogelu'r amgylchedd wedi'u disgrifio'n fanwl ym mhennod saith yr adroddiad hwn ac maent yn amrywio o gymryd camau i gasglu a diogelu hadau rhywogaethau prin a chyffredin i drosglwyddo gwlyptir o berchnogaeth breifat i berchnogaeth y gymuned er mwyn sicrhau bod yr ardal yn parhau i gael ei diogelu

- wedi cymryd camau cadarnhaol helaeth a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, boed hynny drwy godi ymwybyddiaeth ac addysgu cymunedau lleol, newid ymddygiad preswylwyr, ffermwyr a thirfeddianwyr lleol, a chynyddu gwytnwch cynefinoedd a rhywogaethau drwy blannu coed, adfer dalgylchoedd, cynnal gweithgareddau'n ymwneud â pheillwyr dolydd, a mabwysiadu dulliau rheoli glaswelltir newydd. Mae rhai prosiectau wedi plannu nifer sylweddol o goed newydd a fydd yn helpu i atafaelu carbon a darparu brigdwf cysgodol i leihau tymheredd tra bod eraill wedi cymryd camau i leihau gwastraff neu'r defnydd o ddŵr, gan gynnwys cyflwyno dulliau amaethecolegol ar gyfer tyfu bwyd. Mae prosiectau wedi defnyddio gwirfoddolwyr yn rheolaidd i helpu i gyflawni newidiadau cadarnhaol, megis yn achos un prosiect sy'n dibynnu ar rwydwaith o Warchodwyr Coed gwirfoddol i helpu i ddyfrio coed yn ystod cyfnodau o dywydd sych.

5.39 O ran themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru (sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi) canfu gwaith maes y gwerthusiad terfynol fod y prosiectau a ariannwyd:

- wedi sicrhau bod eu gweithgareddau ar gael i bawb. Roedd ymgysylltu â chymunedau ymylol yn nodwedd gref iawn o ddulliau gweithredu'r prosiectau a gyfwelwyd. Pwysleisiodd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg a'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi gweithio gyda thrawstoriad amrywiol o bobl, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai heb gynrychiolaeth ddigonol i'w hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Adroddodd un prosiect ei fod wedi gweithio gydag elusennau fel The Wallich i gefnogi pobl ddigartref a Chyngor Ffoaduriaid Cymru i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Roedd prosiect arall a gyfwelwyd wedi cynnwys grwpiau difreintiedig megis ffoaduriaid, pobl ddigartref, a'r rhai â dibyniaeth ar alcohol yn ei brosiect tyfu planhigion, ac wedi cynnal barbeciw i ddathlu ac i ddod â phobl ynghyd. Roedd un arall wedi gweithio gyda throseddwyr ifanc a phobl ag awtistiaeth. Yn debyg i'r gwaith maes interim,

ychydig iawn o dystiolaeth a oedd ar gael i ddangos sut yr oedd prosiectau wedi ymgorffori prif ffrydio rhywedd yn eu gwaith heblaw am un prosiect a adroddodd ei fod wedi hyrwyddo cyfleoedd adeiladu cynaliadwy i fenywod.

- wedi rhoi datblygu cynaliadwy wrth eu gwraidd ac yn meddu ar amcanion cyffredinol a oedd yn cyd-fynd â'r nod hwn. Darparwyd enghreifftiau amrywiol gan y prosiectau a gyfwelwyd ac a gymerodd ran yn yr arolwg, gan gynnwys y rhai a oedd wedi datblygu capasiti cymunedol i reoli coetiroedd lleol yn barhaus yn ogystal â'r rhai a oedd wedi ymgysylltu â gwirfoddolwyr a'u hyfforddi i gynnal gweithgareddau'r prosiect wedi hynny. Darparwyd enghreifftiau penodol eraill megis y prosiect a fuddsoddodd mewn offer wedi'u pwerau gan fatri yn hytrach na rhai petrol traddodiadol mewn ymgais i fod yn gynaliadwy
- wedi adrodd eu bod, o ran trechu tlodi, wedi gwella mannau gwyrdd lleol, a oedd yn rhad ac am ddim i'w defnyddio, ar gyfer aelodau eu cymuned. Er enghraifft, soniodd un prosiect a gymerodd ran yn yr arolwg ei fod wedi gwneud i 'ardal o amddifadedd edrych a theimlo'n fwy diogel a glanach' a dywedodd un arall ei fod wedi darparu mynediad i 'lecyn gwyrdd lleol, yr oedd modd i bawb ei gyrraedd drwy gerdded neu feicio'. Hefyd, dywedodd prosiectau'n aml eu bod wedi ymgysylltu â gwirfoddolwyr, a thrwy gynnig achrediad i'r garfan hon, wedi helpu unigolion i fod yn fwy parod i gael gwaith a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol. Roedd eraill wedi bod yn ymwneud â phrosiectau tyfu bwyd a oedd yn werthfawr i gymunedau o amddifadedd, ac roedd un prosiect wedi canolbwyntio ar gyflwyno cynllun ailddefnyddio dodrefn er budd y rhai ar incwm isel. Cyfeiriodd sawl prosiect hefyd at ei waith ym maes iechyd a llesiant, fel ffordd o drechu tlodi ac allgau cymdeithasol. Pwysleisiodd y prosiectau bwysigrwydd darparu gweithgareddau yn rhad ac am ddim ac roedd un prosiect wedi sefydlu storfa logiau i helpu i drechu tlodi tanwydd, gan fod y prosiect yn gallu cael gafael ar gyflenwad o goed yn rhad ac am ddim.


5.40 O ran prosiectau datblygu bach iawn a ariannwyd yn ystod Cyfnod 1, nad oedd unrhyw elfen gyflawni'n gysylltiedig â nhw, bu'n anodd iddynt ddangos sut yr oeddent wedi cyflawni'r themâu a'r amcanion trawsbynciol hyn er y gobeithiwyd y byddent yn cael eu cyflawni yn y dyfodol.

### Y defnydd o'r Gymraeg

5.41 Canfu'r gwerthusiad interim fod prosiectau wedi mabwysiadu dwyieithrwydd yn gyson ar draws eu deunyddiau cyfathrebu, gweithgaredd hyrwyddo a'u harwyddion. Canfu’r gwerthusiad interim hefyd nifer o enghreifftiau o arfer da o ran defnyddio’r Gymraeg a chefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith.

5.42 Yn ystod gwaith maes y gwerthusiad terfynol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg o’r farn bod eu prosiect wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at gefnogi’r defnydd o’r Gymraeg. Fel y dangosir yn Ffigur 5.3, roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr i’r arolwg o’r farn bod eu prosiect wedi gwneud cyfraniad mawr (pedwar) neu rywfaint o gyfraniad (19) at gefnogi’r defnydd o’r Gymraeg, er nad oedd lleiafrif (pump) yn meddwl eu bod wedi gwneud unrhyw gyfraniad o'r fath.

**Ffigur 5.3: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau at gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, 2023 (30 o ymatebion)

5.43 Roedd y ffyrdd yr oedd prosiectau wedi cefnogi’r defnydd o’r Gymraeg yn debyg i’r rhai a nodwyd yn ystod y gwerthusiad interim. Roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd yn aml yn adrodd eu bod wedi cynhyrchu:

- cyhoeddiadau, deunyddiau marchnata a negeseuon hyrwyddo dwyieithog, gan gynnwys negeseuon dwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol
- arwyddion a phaneli dehongli dwyieithog e.e. arwyddion dwyieithog ar finiau sbwriel ar y stryd; a'r defnydd o enwau dwyieithog am rywogaethau a lleoedd

- unrhyw adnoddau dysgu neu addysgol yn y ddwy iaith.

5.44 Cyfeiriodd pedwar prosiect a gyfwelwyd at enghreifftiau o arfer da o ran defnyddio’r Gymraeg, gan gynnwys:

- hwyluso digwyddiadau Cymraeg. Roedd un prosiect wedi trefnu i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr baru fel rhan o weithgaredd casglu sbwriel, er mwyn galluogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg; ac roedd prosiect arall wedi cyflwyno cwrs garddio Cymraeg
- roedd un prosiect yn cofio iddo wedi gwneud defnydd cyson o dermau Cymraeg am rywogaethau a phlanhigion, er mwyn gwella ymwybyddiaeth cyfranogwyr a gwirfoddolwyr
- dywedodd un prosiect ei fod wedi datblygu llwyfan dwyieithog ar-lein (drwy lwyfan Open Food Network) ar gyfer prynu a gwerthu cynnyrch lleol.

5.45 Dywedodd un prosiect a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd ei fod wedi cynnal dosbarthiadau Cymraeg am ddim i oedolion a oedd yn breswylwyr lleol ar eu safle:

> Darparodd un prosiect gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau gweithio yn yr awyr agored drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyrhaeddodd y sefydliad restr fer Cymdeithas Chwaraeon Cymru ar gyfer y wobr Defnydd Gorau o'r Gymraeg yn 2023 ac enillodd y wobr Defnydd Gorau o’r Gymraeg yng Ngwobrau Elusennau Cymru ychydig flynyddoedd ynghynt.

## 6. Y manteision a'r canlyniadau a gyflawnwyd

6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y manteision a'r canlyniadau a ddeilliodd o brosiectau ENRaW. Mae hefyd yn nodi'r adborth a gasglwyd ar y gwerth am arian a gyflawnwyd a chanfyddiadau'r prosiectau a ariannwyd o'r hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb cymorth ENRaW. Yn olaf, mae'n ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad ynghylch cynaliadwyedd prosiectau a phartneriaethau ar ôl i gyllid ENRaW ddod i ben.

**Gweithio mewn partneriaeth**

6.2 Roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn credu'n gryf eu bod yn gallu cyflawni llawer mwy drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill na phe baent yn gweithio ar eu pen eu hunain. Roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn meddwl eu bod yn cyflawni ystod ehangach o ganlyniadau drwy weithio mewn partneriaeth nag y byddent wedi'i wneud ar eu pen eu hunain. Ar draws y prosiectau hynny lle roedd ymdeimlad cryf o weithio mewn partneriaeth, ystyriwyd bod y cydweithio yn hanfodol i lwyddiant y prosiect. Dywedodd y prosiectau hyn y cyfwelwyd â nhw ei bod wedi bod yn bwysig i bartneriaid rannu arbenigedd a phrofiad, yn ogystal â darparu ffordd o ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau. Mewn rhai achosion, ehangwyd aelodaeth y bartneriaeth dros amser e.e., roedd un prosiect bellach yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu llwybrau cerdded o orsafoedd trenau, ac roedd un arall wedi ymestyn ei bartneriaeth i gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o brosiect dilynol.

6.3 Adeg y gwaith maes terfynol, roedd barn hefyd bod cyflawniadau'r prosiectau yn fwy amlwg i breswylwyr a chymunedau lleol ac o ganlyniad, gwelodd y prosiectau a gyfwelwyd eu bod yn aml yn cael adborth cadarnhaol gan y gymuned am welliannau i fannau lleol, er enghraifft bod mannau lleol yn fwy dymunol a bod pobl yn mwynhau eu defnyddio'n amlach.

6.4 O blith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg:

- roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (14) yn credu bod cyllid ENRaW wedi eu helpu i sefydlu partneriaeth newydd
- roedd pedair rhan o bump (12) yn credu bod ENRaW wedi eu helpu i ehangu nifer yr aelodau o fewn partneriaeth a oedd yn bodoli eisoes


- roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (14) yn credu bod ENRaW wedi eu helpu i ehangu ystod yr aelodau o fewn partneriaeth a oedd yn bodoli eisoes
- roedd bron i ddwy ran o dair yn credu bod ENRaW wedi eu helpu i gryfhau partneriaeth a oedd yn bodoli eisoes.

6.5 Nid oedd un rhan o ddeg (tri) yn credu bod cyllid ENRaW wedi eu helpu i gyflawni unrhyw un o'r newidiadau uchod.

**Cyflawni canlyniadau traws-sector**

6.6 Roedd y mwyafrif llethol o brosiectau a gyfwelwyd yn credu eu bod yn cyflawni canlyniadau a oedd yn cwmpasu sawl maes polisi gwahanol, boed hynny o ran canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac iechyd. Yr eithriad i hyn oedd tri phrosiect datblygiadol eu natur, yn yr ystyr eu bod yn brosiectau bach, tymor byr, Cyfnod 1 gyda'r gorchwyl o gyflawni gweithgareddau penodol iawn megis llunio adroddiad dichonoldeb neu gynllun busnes. Pan ofynnwyd iddynt am y manteision a ddeilliodd o'r prosiectau, roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o amlygu manteision cymunedol, cymdeithasol ac amgylcheddol eu gweithredoedd ac yn llai tebygol o nodi manteision diwylliannol ac economaidd, fel y dangosir yn Ffigur 6.1. Roedd yr adborth a gasglwyd drwy'r gwaith maes ansoddol yn ystod y cam olaf yn cefnogi hyn.

**Ffigur 6.1: Manteision yn deillio o brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg**





Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, 2023 (30 o ymatebion)

**Manteision cymunedol a chymdeithasol**

6.7 Fel y nodir uchod yn Ffigur 6.1, roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu eu bod wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd at y manteision

cymdeithasol a chymunedol a restrir yn Ffigur 6.2. Roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn eu bod wedi gwneud y cyfraniad mwyaf at gynyddu ymgysylltiad â'r gymuned, ac yna at gynyddu cyfleoedd i gysylltu â natur. Ymhlith y mathau eraill o fanteision a gyflawnwyd, adroddodd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi cynyddu gwydnwch cymunedol, balchder cymunedol ac ymgysylltiad â grwpiau gwarchodedig penodol megis pobl anabl, y rhai o gymunedau LHDTC+ a chymunedau lleiafrifoedd ethnig.

**Ffigur 6.2: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg at fanteision cymdeithasol a chymunedol**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, 2023 (30 o ymatebion)

6.8 Adroddodd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg fod y rhan fwyaf o fanteision cymdeithasol a chymunedol yn debygol o gael eu cynnal yn llawn neu i ryw raddau ar ôl i gyllid ENRaW ddod i ben. Mae’n ymddangos mai canlyniadau sy’n ymwneud â gwelliannau a wnaed (megis gwell mynediad i fannau gwyrdd lleol, gwell cyfleusterau, a chyfleoedd i gysylltu â byd natur) sydd fwyaf tebygol o gael eu cynnal yn barhaus a chanlyniadau sy’n dibynnu ar adnoddau a chapasiti parhaus, fel y rhai sy'n ymwneud â chyfleoedd gwirfoddoli ac addysgol, sydd leiaf tebygol o gael eu cynnal yn y dyfodol.

6.9 Rhoddodd y prosiectau a gyfwelwyd nifer o enghreifftiau o’r manteision cymdeithasol a chymunedol a gyflawnwyd, gan gynnwys:

- cymunedau a phreswylwyr lleol yn gallu cael mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd gwell a'u mwynhau o ganlyniad i'w hymyriad, a oedd yn ei dro yn arwain at well llesiant corfforol a meddyliol. Nododd un prosiect o'r fath ei fod wedi gwella ansawdd parciau lleol a mynediad iddynt, a'u bod bellach yn cael eu defnyddio at ystod ehangach o ddibenion megis digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau celfyddydol. Yn yr un modd, nododd prosiect arall ei fod wedi gwneud gwelliannau i barciau lleol, gan gynnwys gwelliannau i lwybrau a oedd bellach yn cael eu defnyddio'n amlach. Roedd trydydd prosiect wedi gwella hygyrchedd mannau gwyrdd lleol drwy gyflwyno llwybrau a gatiau hygyrch, a oedd yn eu tro wedi ehangu'r teithiau cerdded cylchol a oedd ar gael yn yr ardal. Adroddodd prosiect arall ei fod wedi clirio tir a lleihau tipio anghyfreithlon ar fannau gwyrdd lleol a dywedodd pumed prosiect bod gan ei ymyriad y potensial i leihau'r achosion o danau gwyllt mewn mannau gwyrdd lleol

**Gwella mynediad i fannau gwyrdd a gwella'r wybodaeth amdanynt**

Defnyddiodd un prosiect gyllid ENRaW i sefydlu trac a llwybr newydd milltir o hyd mewn parc gwledig i ddarparu ar gyfer beicwyr, cerddwyr a chadeiriau gwthio, yn ogystal â'r rhai sy'n marchogaeth a'r rhai â phroblemau symudedd. Yn ogystal â hynny, gosodwyd paneli dehongli newydd i hysbysu defnyddwyr am yr ecoleg leol yn ogystal ag arwyddion newydd a meinciau seilwaith i ymwelwyr. Nododd gwerthusiad annibynnol ei bod yn ymddangos bod 'mwy o ymwelwyr yn defnyddio'r rhan hon o'r parc' er na chasglwyd data monitro i ddangos y cynnydd hwn. Adroddodd y gwerthusiad hefyd ar yr adborth cadarnhaol yr oedd staff y parc gwledig wedi'i gael am y gwelliannau. Canfu ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd gan y gwerthuswr annibynnol (drwy arolwg o'r safle) fod defnyddwyr wedi adrodd ar gynnydd yn eu dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol ar ôl i'r paneli dehongli gael eu cyflwyno (er bod sampl yr arolwg yn fach). Mae'r gwaith cynnal a chadw parhaus ar y trac newydd yn cael ei wneud gan yr awdurdod lleol, gan sicrhau cynaliadwyedd y prosiect hwn yn y tymor hwy.

- gwneud rhai gwelliannau o leiaf i gyfleusterau cymunedol, boed hynny drwy gyflwyno safleoedd tyfu cymunedol, mannau amaethecolegol neu berllannau a rhandiroedd. Dywedodd eraill eu bod wedi gwella llwybrau a

llwybrau cerdded mewn cymunedau, a bod penderfyniadau ynghylch pa welliannau i'w gwneud wedi'u cyd-ddylunio â chynrychiolwyr y gymuned a gwirfoddolwyr y prosiectau

- cyflwyno gweithgareddau a oedd yn rhoi cyfleoedd ymarferol i gymunedau a gwirfoddolwyr gysylltu â byd natur, boed hynny drwy waith cynnal a chadw tiroedd, plannu coed, tyfu bwyd, neu ddigwyddiadau fel teithiau tywys a sgyrsiau gan arbenigwyr. Roedd hefyd yn wir bod prosiectau a oedd wedi cymryd camau i wella ansawdd a mynediad i fannau gwyrdd lleol yn dadlau eu bod wedi'i gwneud yn haws i bobl leol gysylltu â byd natur
- ystod eang o fanteision i iechyd a llesiant cyfranogwyr a gwirfoddolwyr a oedd wedi ymgysylltu â'r prosiectau, fel yr adroddwyd yn flaenorol yn y gwerthusiad interim, gan gynnwys gwell iechyd corfforol, teimlo'n llai ynysig, gwell iechyd meddwl a gwell deiet a mynediad i gynnyrch ffres. Roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn tueddu i ddadlau bod y rhain wedi'u cyflawni fel sgil-gynnyrch eu hymyriad h.y., roedd gwelliannau i fannau gwyrdd lleol yn golygu y gallai trigolion wneud mwy o ddefnydd o'u hardaloedd lleol, gan arwain at well iechyd o ganlyniad i fod allan yn yr awyr agored a gwneud ymarfer corff. Hefyd, dywedodd y prosiectau a gyfwelwyd yn rheolaidd bod mwy o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal yn y mannau gwyrdd gwell hyn, a thrwy hynny helpu i fynd i'r afael â materion fel unigrwydd ac ynysigrwydd. Dim ond un prosiect a gyfwelwyd a oedd wedi asesu'n ffurfiol y cynnydd a wnaed gan eu gwirfoddolwyr mewn perthynas â'u hiechyd a'u llesiant. Gwnaeth hynny drwy ddefnyddio arolwg Llesiant Meddyliol Caeredin Warwick (WEMWBS) a ddangosodd newid cadarnhaol ymhlith y gwirfoddolwyr

**Mannau gwyrdd yn cael eu defnyddio i wella iechyd a llesiant**

Sefydlodd un prosiect fenter gydweithredol newydd gydag ymddiriedolaeth iechyd i ddatblygu cyfleusterau eco-therapi yn un o'i hysbytai er mwyn gwella iechyd a llesiant cleifion, staff ac aelodau o'r gymuned. Roedd y prosiect yn cynnwys datblygu ardaloedd bywyd gwyllt ac adeiladu tŷ crwn ar ardal ddiffaith a oedd wedi tyfu'n wyllt ar safle ysbyty, drwy gael mewnbwn gan wirfoddolwyr y gymuned leol, cleifion, a grwpiau difreintiedig. Arweiniodd hyn at ragor o weithgareddau megis cyrsiau gwaith coed gwyrdd, ac adeiladu meinciau a biniau gwyrdd.

Awgryma'r adborth gan yr ymddiriedolaeth iechyd fod y safle wedi'i 'drawsnewid yn llwyr' a bod 'adborth gan gleifion, perthnasau a'r gymuned wedi bod yn wych', yn enwedig gan fod y safle mor hawdd ei gyrraedd o'r ysbyty ei hun. Dengys yr adborth a gasglwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol fod y safle wedi arwain at fanteision iechyd cadarnhaol i gleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu parhau â'i gwaith gyda'r partner arweiniol i ymchwilio i gyfleoedd presgripsiynu gwyrdd a phresgripsiynu cymdeithasol yn y dyfodol.

**Monitro gwelliannau i iechyd a llesiant yn effeithiol**

Nododd un adroddiad gwerthuso terfynol un prosiect fod llesiant gwirfoddolwyr yn cael ei fesur drwy holiaduron a oedd yn ymgorffori elfennau o arolwg Llesiant Meddyliol Caeredin Warwick (WEMWBS). Dangosodd dadansoddiad cychwynnol o'r data fod sgorau cymedrig WEMWBS ar draws yr holl holiaduron wedi cynyddu dros amser. Digwyddodd y cynnydd mwyaf rhwng y llinell sylfaen a’r man canol, a gwelwyd cynnydd cadarnhaol llai wedi hynny.

- tystiolaeth dda eu bod wedi cynyddu eu hymgysylltiad â'r gymuned ac roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn weddol hyderus y byddai'r ymgysylltu hwn yn parhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Er enghraifft, nododd un prosiect fod dros 60 o grwpiau cymunedol wedi ymgysylltu â’u prosiect ENRaW a dywedodd un arall ei fod wedi ymgysylltu â thros 7,000 o bobl. Dywedodd un arall fod ei brosiect tyfu bwyd cymunedol yn cael ei reoli gan grwpiau cymunedol lleol gan gynnwys grŵp o ffoaduriaid o Syria. Dywedodd eraill eu bod wedi cynyddu nifer y grwpiau cymunedol ac arwyr sbwriel i gymryd cyfrifoldeb am fannau gwyrdd lleol y gwnaed gwelliannau iddynt, ar ôl i'r prosiect ddod i ben

**Lefelau amrywiol o ymgysylltu â'r gymuned o fewn prosiect, a ffactorau sydd i gyfrif am hyn**

Roedd lefel yr ymgysylltu â'r gymuned yn amrywio o un gymuned i'r llall o fewn un prosiect, y bwriadwyd ei ddarparu mewn pedair cymuned wahanol ledled Cymru. Cynhaliwyd y prosiect yn effeithiol mewn dwy gymuned ond cafodd anhawster i gael ei draed dano yn y ddwy arall. Nododd gwerthusiad interim annibynnol o'r prosiect fod y broses gyflawni yn fwy heriol a chymhleth mewn dwy gymuned oherwydd diffyg cydlyniant cymunedol a chystadleuaeth rhwng gwahanol ystadau tai o fewn yr ardaloedd a ddewiswyd, a llesteiriodd y cynnydd. Mewn un ardal o'r fath, nododd y gwerthusiad interim fod cynnydd wedi'i lesteirio gan y grŵp llywio lleol 'nad oedd yn ymateb rhyw lawer i ohebiaeth gan y swyddog prosiect' a bod angen dysgu gwersi i 'atal unigolion rhag tra-arglwyddiaethu ar y broses o wneud penderfyniadau'.

Mae gweithgareddau'r prosiect yn debygol o gael eu cynnal yn y ddwy ardal ble y'i cyflawnwyd yn effeithiol, ac mae un sefydliad partner yn y broses o sicrhau cyllid i gadw rôl y swyddog prosiect. Yn yr ardal hon mae'r prosiect wedi datblygu storfa logiau gymunedol i helpu pobl leol i wresogi eu cartrefi, mae wedi adeiladu canolfan sgiliau mewn adeilad tŷ crwn, wedi adeiladu cwt potiau a thwnnel polythen, ac wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a gwirfoddoli i bobl leol.

- darparu cyfleoedd gwirfoddoli i breswylwyr a grwpiau lleol drwy eu gweithgareddau ENRaW, ac yn aml roedd carfannau difreintiedig a charfannau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn. Adroddodd y prosiectau'n rheolaidd eu bod wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol presennol ac elusennau i ddod o hyd i wirfoddolwyr. Er enghraifft, dywedodd un prosiect ei fod wedi defnyddio gwirfoddolwyr ag anghenion arbennig drwy sefydliad elusennol. Darparodd y prosiect ENRaW hyfforddiant i'r grwpiau hyn gan roi cyfarpar a gwybodaeth iddynt allu parhau â'u gwaith cynnal a chadw amgylcheddol. Roedd y mewnbwn sylweddol gan wirfoddolwyr i'w gyfrif am lwyddiant rhai prosiectau e.e., mewn un achos dywedwyd bod gwirfoddolwyr lleol wedi plannu 80 y cant o'r planhigion a dadleuodd aelod o'r prosiect a gyfwelwyd y byddai'r

gymuned leol yn fwy tebygol o gynnal a chadw'r safleoedd a bod yn fwy ymwybodol o'r effaith gadarnhaol ar eu hamgylchedd, ar ôl bod yn rhan o'u sefydlu. Nododd prosiect arall ei fod wedi recriwtio a hyfforddi 10 hyrwyddwr bioddiogelwch gwirfoddol i weithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol, gan ddefnyddio cyfarpar a ddarparwyd gan y prosiect, i rannu eu gwybodaeth am fioddiogelwch. Mewn un ardal, mae byddin dinasyddion bioddiogelwch o breswylwyr lleol o ardal ddinesig o amddifadedd wedi gweithio gyda'u hyrwyddwr i ddod yn fwy ymwybodol o faterion yn ymwneud â bioddiogelwch

**Defnyddio gwirfoddolwyr – gwella perchnogaeth a sicrhau gwell gwerth am arian**

Nododd un adroddiad gwerthuso prosiect fod 2,076 o wirfoddolwyr wedi'u recriwtio i helpu i dyfu a phlannu cyfanswm o 50,000 o goed ar draws y ddinas, sy'n llawer uwch na'r targed cychwynnol o 50 o bobl. Roedd y prosiect ond yn defnyddio contractwyr yn ôl yr angen, er mwyn creu mwy o ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol o'r coed. Mae'r adroddiad gwerthuso yn nodi bod ystod eang o bobl wedi gweithio fel gwirfoddolwyr ar y prosiect. Daw'r adroddiad i'r casgliad fod defnyddio gwirfoddolwyr wedi darparu arbedion sylweddol o ran gwerth am arian, yr amcangyfrifwyd ei fod rhwng £8,000 a £15,600.

Uchelgais hirdymor y bartneriaeth oedd cynyddu'r gorchudd coed ar draws y ddinas o 18.9 y cant i 25 y cant erbyn 2030, a chanfu'r gwerthusiad fod y prosiect wedi cyflawni gwasgariad daearyddol rhagorol ar draws pob ward, ar ôl ymgysylltu'n effeithiol â thirfeddianwyr a rheolwyr nad oeddent o fewn yr awdurdod lleol. Daeth y gwerthusiad hefyd i'r casgliad bod y coed a blannwyd yn dal mewn cyflwr da adeg yr ymweliadau safle, gyda dim ond ambell un wedi cael ei difrodi neu'n dioddef o glefydau.

- mwy o gyfleoedd addysgol. Ffordd gyffredin i brosiectau gynyddu cyfleoedd addysgol yn eu hardal oedd gweithio gydag ysgolion, a nododd sawl prosiect a gyfwelwyd ei fod wedi darparu gweithgareddau allgymorth, trefnu sgyrsiau i blant ysgol neu baratoi a dosbarthu adnoddau i ysgolion. Roedd galw mawr am adnoddau addysgol e.e. adroddodd un prosiect ei fod wedi derbyn 400 o geisiadau yn ystod diwrnod cyntaf hyrwyddo pecynnau

addysgol ar ddraenogod er enghraifft. Dywedodd y prosiectau'n aml hefyd eu bod wedi hwyluso cyswllt rhwng ysgolion ac unrhyw fannau gwyrdd y gwnaed gwelliannau iddynt, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o natur ac amgylcheddau lleol. Roedd prosiectau eraill wedi canolbwyntio ar hyfforddi gwirfoddolwyr i ddefnyddio cyfarpar yn briodol e.e., tra bod un prosiect wedi hyfforddi 20 o bobl gan roi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt nodi a monitro gweithgareddau afancod yn eu hardal leol.

**Ymgysylltu ag ysgolion**

Mae adborth a gasglwyd gan athrawon a disgyblion a fu'n ymwneud ag un prosiect ENRaW yn helpu i ddangos manteision cymdeithasol a chymunedol cymryd rhan. Cefnogodd y prosiect ysgol i sefydlu gardd gynaliadwy ar ei safle. Meddai un athro:

'Bu'r prosiect o gymorth mawr i ni gyda'n prosiect ystafell ddosbarth awyr agored. Fe wnaethom benderfynu creu gardd gynaliadwy y gallwn ofalu amdani a'i chynaeafu ein hunain ar ardal segur. Mae hefyd yn ardal awyr agored ar gyfer ein hystafell ddosbarth. Fe wnaeth y prosiect ein helpu i'w sefydlu. Roedden ni eisiau gwella bioamrywiaeth yn yr ardd felly mae gennym wrych brodorol hardd y gwnaeth y prosiect ein helpu i'w blannu – roedden nhw bob amser yn cynnwys y plant'.

Nododd un disgybl a gymerodd ran fod yr ardd gynaliadwy 'yn well na bod yn y dosbarth drwy'r amser. Mae'n lle braf i fyfyrwyr fod. Rydym eisiau parhau â'r ardd gynaliadwy bob blwyddyn felly byddwn yn plannu a chynaeafu ein ffrwythau a'n llysiau ein hunain ac yn ei ddefnyddio amser cinio. Bydd yn parhau o flwyddyn i flwyddyn'.

Mae gan yr ysgol gynlluniau i gynnal ac adeiladu eu gardd ymhellach. Dywedodd un athrawes mai'r 'cam nesaf yw cysylltu'r ardd gyda'r gymuned - fel bod yr ardd yn darparu ar gyfer yr ysgol, a'r ysgol yn darparu ar gyfer yr ardd. Ategwyd hyn gan ddisgybl a gymerodd ran a nododd 'Mae gennym dri chwch gwenyn yma ac maen nhw'n gwbl gynhyrchiol. Byddwn yn gwerthu'r mêl yn fuan. Mae'r gwenyn yn gallu ffynnu yn eu cynefin naturiol. Mae gennym welyau plannu uwch a chwt i werthu cynnyrch a mêl. Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r mêl yn ein gwersi technoleg bwyd.'

**Sgiliau crefftau yn seiliedig ar natur**

Cymerodd un cyfranogwr ran mewn sesiynau cerfio llwyau pren a gynhaliwyd gan un prosiect ENRaW. Roedd hi wedi ymddeol yn ddiweddar ac wedi symud i fyw i’r ardal yn ystod y pandemig COVID-19, felly roedd hi'n awyddus i ddod i adnabod ei chymuned a gwneud ffrindiau newydd. Dechreuodd gymryd rhan yn y prosiect gan fod y syniad o ddysgu rhywbeth newydd yn apelio ati ac roedd ganddi ddiddordeb mewn cerfio pren erioed. Cynhaliwyd y sesiynau fel sesiynau awyr agored dros gyfnod o chwe wythnos mewn parc lleol. Dysgodd y cyfranogwr am wahanol fathau o bren a sgiliau cerfio pren. Mwynhaodd y profiad a chymerodd gysur o 'wybod bod gennyf y lle hwnnw i fynd iddo ar brynhawn dydd Gwener, a doedd dim rhaid i mi siarad am unrhyw beth os nad oeddwn i eisiau'. Mae'n gobeithio parhau i gerfio llwyau pren fel hobi, er nad yw wedi buddsoddi yn y cyfarpar eto.

**Ffocws ar ymchwil**

Roedd ymchwil yn elfen bwysig mewn dau o'r prosiectau a gyfrannodd at y gwerthusiad terfynol ac un prosiect yr oedd adroddiad gwerthuso terfynol ar gael ar ei gyfer.

Mewn un achos cyflwynwyd papur academaidd i'r International Digital Preservation Convergence i ledaenu canfyddiadau'r ymchwil am lif gwybodaeth o fewn rhwydweithiau bwyd lleol.

Mewn prosiect arall, mae 64 o rywogaethau glaswelltir wedi’u casglu a’u hychwanegu at Fanc Hadau Cenedlaethol Cymru, er mwyn sicrhau cadwraeth cynefinoedd Cymru.


Yn y trydydd prosiect, cynhaliwyd gwaith ymchwil i nodi pa fathau o goed treftadaeth a blannwyd yn flaenorol yn yr ardal, er mwyn gwarchod diwylliant lleol.

**Manteision amgylcheddol**

6.10 Er bod 27 (o blith 30) o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu eu bod wedi cyflawni o leiaf rai manteision amgylcheddol, roedd natur a graddfa'r manteision hyn yn amrywio o un prosiect i'r llall. Fel y dangosir yn Ffigur 6.3, y budd amgylcheddol mwyaf cyffredin a nodwyd gan y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg oedd y rhai a oedd yn ymwneud â mwy o fioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd, gyda 23 a 22 o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn eu bod wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn yn y drefn honno. Roedd llai o brosiectau'n meddwl eu bod wedi gwneud cyfraniad mawr at fanteision amgylcheddol eraill yr holwyd amdanynt, ond roedd y nifer a gafodd o leiaf rywfaint o effaith ar ganlyniadau megis lleihau allyriadau carbon a lleihau sbwriel yn nodedig. Nid oedd yr un o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn eu bod wedi cael effaith fawr ar leihau llygredd aer a sŵn, ond roedd saith yn meddwl eu bod wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad at hyn.

6.11 Ymhlith y manteision amgylcheddol 'eraill' a nodwyd gan y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg roedd: gwell ymwybyddiaeth ac addysg ymhlith aelodau'r gymuned, gan gynnwys pobl ifanc, o faterion amgylcheddol (cyfeiriwyd at hyn gan bum ymatebydd i'r arolwg); gwell dealltwriaeth a chynllunio amgylcheddol strategol (dau ymateb); ansawdd dŵr gwell (un ymateb); creu cynefinoedd newydd (un ymateb); rheoli pridd yn well (un ymateb); a llai o wastraff (un ymateb).

**Ffigur 6.3: Y cyfraniad a wnaeth y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg at fanteision amgylcheddol**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, 2023 (30 o ymatebion)

6.12 Roedd mwyafrif helaeth y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd wedi cyflawni manteision amgylcheddol yn hyderus y byddent yn cael eu cynnal yn llawn neu'n rhannol. Dywedodd dau brosiect y byddai mantais amgylcheddol benodol (llai o achosion o ollwng sbwriel a chamau i helpu i leihau allyriadau carbon) yn annhebygol o barhau ar ôl i'r cyllid dod i ben. Roedd y prosiectau'n fwyaf hyderus y byddai'r manteision yn ymwneud â llai o effaith negyddol gan bobl ar lystyfiant a llai o lygredd aer a sŵn yn cael eu cynnal yn llawn tra bod yr holl brosiectau a adroddodd am gynnydd mewn bioamrywiaeth (23) ac adfer mwy o gynefinoedd (22) yn credu y byddai'r manteision hyn yn cael eu cynnal yn llawn neu'n rhannol.

6.13 Yn y rhan fwyaf o brosiectau, roedd y gwelliannau amgylcheddol a gyflawnwyd yn tueddu i ganolbwyntio ar ddau neu dri newid allweddol. Nid oedd yr un o'r prosiectau a gyfwelwyd wedi cyflawni'r holl newidiadau amgylcheddol a nodir yn Ffigur 6.3. Roedd enghreifftiau o'r manteision amgylcheddol a gasglwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad terfynol yn cynnwys:

- cynyddu bioamrywiaeth: roedd prosiectau a oedd wedi cyflwyno planhigion amrywiol a brodorol, gan gynnwys y rhai a oedd wedi plannu perllannau newydd a chreu mannau tyfu newydd, a oedd wedi denu peillwyr, yn meddwl y byddent yn helpu i gynyddu bioamrywiaeth yn eu cymunedau. Roedd un prosiect o'r fath wedi cymryd llain fawr o dir segur a oedd wedi'i orchuddio â mieri yn flaenorol ac wedi trawsnewid yr ardal yn dirwedd werdd yn cynnwys pwll, mannau tyfu bwyd a dolydd gwyllt. Dywedodd un prosiect hefyd ei fod yn cofnodi lefelau bioamrywiaeth ar ei randiroedd ac yn ei berllannau er mwyn dangos y newid a wnaed
- adfer mwy o gynefinoedd: roedd prosiectau a oedd wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith plannu newydd ac wedi trawsnewid neu greu mannau gwyrdd newydd yn hyderus bod eu gwaith wedi helpu i adfer cynefinoedd. Dywedodd un prosiect o'r fath ei fod wedi creu llawer o gynefinoedd newydd ar draws tirwedd ddinesig, drwy blannu coed newydd a phlanhigion eraill. Roedd prosiect arall wedi creu dros 200 o flychau cynefinoedd newydd yn ogystal â hau dros 40kg o hadau blodau gwyllt mewn ymdrech i adfer cynefinoedd

**Trawsnewid mannau segur**

Fe wnaeth un prosiect gyflawni dau brosiect seilwaith gwyrdd mawr mewn trefi cyfagos lle yr oedd amddifadedd i greu coridor gwyrdd a glas rhwng y ddau safle. Trawsnewidiodd hen ddymp poteli yn bysgodfa gymunedol a phrynwyd 30 erw o wlyptir i sicrhau ei gadwraeth yn y dyfodol. Plannodd y prosiect filoedd o goed i gynyddu'r brigdwf o fewn ardal a oedd ag un o'r brigdyfiannau lleiaf yng Nghymru yn flaenorol. Hefyd, cyflwynodd ddolydd blodau gwyllt, mannau tyfu cymunedol ac atebion draenio cynaliadwy ar draws yr ardal. Fel rhan o'i welliannau i'r gwlyptir, creodd y prosiect fannau gwylio er mwyn i bobl allu gwylio bywyd gwyllt heb darfu arno. Bydd effaith gronnol gweithgareddau'r prosiect yn cefnogi ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ac mae wedi trawsnewid ardaloedd trefol diffaith yn gyfleusterau seilwaith gwyrdd deniadol a defnyddiol ar gyfer cymunedau lleol.

- plannu mwy o goed neu wrychoedd: roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau a gyfwelwyd wedi plannu coed neu wrychoedd, boed hynny ar raddfa fach neu fawr e.e., roedd un prosiect wedi plannu bron i 4,000 o goed; ac roedd

yn hyderus y byddai ei waith yn arwain at fanteision amgylcheddol megis gwell coridorau bywyd gwyllt. Rhagwelwyd y byddai'r coed a blannwyd mewn un prosiect yn cryfhau glannau afonydd. Fodd bynnag, bydd effaith plannu o'r fath ar atafaelu carbon yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth, oherwydd i brosiectau blannu coed ifanc bach

- gwell amddiffyniad rhag Rhywogaethau Estron Goresgynnol: roedd tri phrosiect wedi gwneud gwaith penodol yn ymwneud â Rhywogaethau Estron Goresgynnol. Cyflwynodd un prosiect dystiolaeth dda ei fod wedi mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol ac mae adroddiad gwerthuso terfynol y prosiect yn nodi bod y prosiect wedi cynnal arolwg o 60 hectar ac wedi trin 1,700 o safleoedd ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol megis Canclwm Japan, Jac y Neidiwr, ac Efwr Enfawr. At hynny, datblygodd y prosiect adnoddau hyfforddi a darparodd hyfforddiant i'r cyhoedd i wella eu dealltwriaeth o rywogaethau goresgynnol, sut i'w hadnabod a pha gamau i'w cymryd. Roedd prosiect arall wedi canolbwyntio ar Rywogaethau Estron Goresgynnol, ac roedd y sawl a gyfwelwyd yn meddwl bod y prosiect wedi dysgu gwersi o weithgareddau peilot i ddileu a rheoli lledaeniad y rhywogaethau hyn, a fyddai yn ei dro yn helpu i wella bioamrywiaeth a chynefinoedd
- llai o achosion o daflu sbwriel, tipio anghyfreithlon neu losgi bwriadol: roedd tri o'r prosiectau a gyfwelwyd wedi canolbwyntio ar leihau sbwriel, tipio anghyfreithlon a materion yn ymwneud â llosgi bwriadol. Yn yr achosion hyn, roedd y prosiectau o'r farn bod eu gwaith wedi helpu i wella ansawdd amgylcheddau lleol a bod ganddynt y potensial i leihau tanau gwyllt, a thrwy hynny leihau unrhyw effaith negyddol ar yr amgylchedd
- lleihau allyriadau carbon: roedd un prosiect wedi cymryd camau uniongyrchol drwy ddatblygu a hyrwyddo teithio llesol, y credwyd ei fod yn helpu i leihau allyriadau carbon, er nad oedd unrhyw ddata monitro penodol wedi'u casglu i gefnogi hyn.

**Cynaliadwyedd safleoedd tyfu bwyd cymunedol newydd**


Dywedodd adroddiad gwerthuso terfynol un o'r prosiectau ei fod wedi sefydlu nifer o safleoedd tyfu bwyd cymunedol newydd fel rhan o'r prosiect, gan roi twneli polythen, systemau casglu dŵr ac offer i'r

cymunedau.. Nid oedd staff y prosiect yn gallu treulio cymaint o amser ag a ragwelwyd yn sefydlu'r safleoedd newydd hyn ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr i'w rheoli, oherwydd yr angen i dreulio mwy o amser na'r disgwyl ar dasgau gweinyddol cynllun ENRaW. O ganlyniad, nid yw'r prosiect yn gadael y gwaddol a ddisgwyliwyd o ran safleoedd tyfu yn cael eu rheoli'n dda gan wirfoddolwyr cymunedol.

**Manteision diwylliannol**

6.14 Roedd pedair rhan o bump o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg (24 o blith 30) yn credu eu bod wedi creu manteision diwylliannol, gyda mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, mwy o wybodaeth am ymddygiad cynaliadwy a mwy o gyfrifoldeb cymunedol am gynaliadwyedd hirdymor yn cael eu crybwyll amlaf. Roedd ychydig yn llai na hanner (14) y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg wedi bod yn ymwneud â phrosiectau a oedd wedi arwain at wella neu adfer asedau treftadaeth. Roedd y brif fantais 'arall' a nodwyd gan y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn ymwneud â'r Gymraeg (ac mae'r manteision hyn eisoes wedi'u trafod ym mhennod 5 o'r adroddiad hwn).

**Ffigur 6.4: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg at fanteision diwylliannol**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, 2023 (30 o ymatebion)

6.15 Roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn optimistaidd ar y cyfan ynghylch y posibilrwydd y byddai'r ystod o fanteision diwylliannol yn parhau, i ryw raddau o leiaf, ar ôl i'r cyllid ddod i ben, ond dylid bod yn ofalus iawn o ystyried y nifer bach o ymatebion ar gyfer opsiynau penodol. Digwyddiadau a gweithgareddau o fewn y gymuned oedd y fantais ddiwylliannol a oedd leiaf tebygol o barhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben, sy'n awgrymu bod angen cyllid ac adnoddau parhaus er mwyn sicrhau parhad y fantais hon.

6.16 Mae'r adborth o brosiectau a gafodd eu cyfweld yn ystod y gwerthusiad terfynol yn awgrymu eu bod yn creu manteision diwylliannol i'w cymunedau fel mater o drefn. Roedd enghreifftiau o’r manteision diwylliannol a grëwyd yn cynnwys:

- mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau megis ystod eang o ddigwyddiadau cymunedol, gweithgareddau sy'n cynnwys ysgolion, a gweithgareddau sy'n ymgysylltu â grwpiau cymunedol sy'n bodoli eisoes
- mwy o wybodaeth gymunedol am ymddygiad cynaliadwy: cyflawnwyd hyn gan brosiectau yn bennaf drwy weithgareddau addysgol a chodi ymwybyddiaeth ac roedd hyn yn ganlyniad pwysig i'r prosiectau hynny a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â sbwriel, tipio anghyfreithlon a llosgi bwriadol. Dywedodd un prosiect fod ei weithdai atgyweirio wedi helpu i wella gwybodaeth am ymddygiad cynaliadwy tra bod un arall yn credu bod ei weithgareddau wedi lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y gymuned
- mwy o gyfrifoldeb yn y gymuned am gynaliadwyedd hirdymor. Aeth un prosiect ati i greu dolydd o flodau gwyllt a glaswellt blodeuog, sy’n cynnig cynefinoedd gwell i beillwyr fel gwenyn a gloÿnnod byw. Mae’r prosiect wedi rhannu arferion gorau o ran rheoli peillwyr ac wedi cael ymrwymiad awdurdodau lleol a chymunedau lleol i barhau i reoli eu tir mewn ffordd gynaliadwy. Un o ffactorau llwyddiant allweddol y dull hwn oedd ymgysylltu â’r gymuned i ddeall ofnau preswylwyr am fannau gwyrdd ‘anniben’ a’u helpu i ddeall y rhesymeg y tu ôl i’r dull gweithredu
- dim ond llond llaw o'r prosiectau a gyfwelwyd (pump) a nododd fwy o berchnogaeth gymunedol o asedau a gweithgareddau treftadaeth, yn ogystal â gwella neu adfer asedau treftadaeth. Yn yr achosion hyn, roedd prosiectau wedi atgyweirio neu adfer asedau treftadaeth lleol. Er enghraifft,

adroddodd un prosiect ei fod wedi plannu mathau o goed ffrwythau etifeddol i warchod diwylliant lleol ac wedi cynnal cwrs adnabod Coed Hynafol i ddysgu pobl am bwysigrwydd a threftadaeth hen goed yn y ddinas. Roedd prosiect arall wedi darparu gwybodaeth am hanes chwedlau Cymreig ac afancod yn ystod sgyrsiau'r prosiect.


**Cwrs ysgrifennu creadigol a natur**

Roedd un cyfranogwr a gyfwelwyd wedi mynychu cwrs ysgrifennu creadigol 10 wythnos a gynhaliwyd gan un prosiect ENRaW. Roedd wedi mynychu cwrs ysgrifennu creadigol tebyg a hwyluswyd gan yr un tiwtor yn y gorffennol, ar ôl cael ei atgyfeirio gan Mind wedi iddo golli ei bartner, ac roedd wedi dod i wybod am y cwrs a ariannwyd gan ENRaW drwy'r tiwtor hwn. Roedd o'r farn bod y cwrs yn ardderchog, gan ychwanegu bod astudio ac ysgrifennu barddoniaeth wedi bod yn fuddiol i'w iechyd meddwl a'i lesiant. Roedd ffocws y cwrs ar natur hefyd wedi ei helpu i werthfawrogi'r amgylchedd naturiol o'i gwmpas, a'i ddefnyddio fel ysgogiad ar gyfer ei waith ysgrifennu. Mae hefyd wedi elwa o gwrdd â chyfranogwyr eraill ar y cwrs hwn ac mae wedi trefnu sawl taith gyda nhw i ddilyn cyrsiau ysgrifennu creadigol eraill, gan gynnwys cyrsiau preswyl ledled y DU.

**Manteision economaidd**

6.17 Fel y dywedwyd yn gynharach, roedd tri chwarter (21) y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn eu bod wedi creu manteision economaidd, ond roedd y cyfrannau a nododd eu bod wedi gwneud cyfraniad 'mawr' at y manteision hyn yn is o gymharu â manteision cymdeithasol ac amgylcheddol. Y manteision economaidd a nodwyd amlaf oedd caffael sgiliau a chymwysterau newydd, ac yna cynyddu nifer yr ymwelwyr â'u hardal leol a denu buddsoddiad o ffynonellau eraill, fel y dangosir yn Ffigur 6.5. Roedd y mathau eraill o fanteision economaidd a nodwyd gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn cynnwys cynnydd yn y gwariant gan ymwelwyr/defnyddwyr (tri); datblygu cadwyni cyflenwi lleol (dau), cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â threfi a safleoedd (un), a llai o alw am wasanaethau eraill megis gwasanaethau iechyd (un).

**Ffigur 6.5: Y cyfraniad a wnaed gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg at fanteision economaidd**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, 2023 (30 o ymatebion)

6.18 Credwyd bod y manteision economaidd a oedd fwyaf tebygol o barhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn ymwneud â nifer yr ymwelwyr a buddsoddiad o ffynonellau eraill, ond yn gyffredinol roedd y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg yn llai hyderus ynghylch cynnal y manteision economaidd o gymharu â mathau eraill o fanteision. Cymharol ychydig oedd yn hyderus ynghylch eu gallu i gynnal y swyddi a gafodd eu diogelu neu eu creu o ganlyniad i'r prosiect, sy'n awgrymu mai swyddi a ariannwyd gan brosiectau oedd y rhain yn bennaf.

6.19 Er bod yr adborth gan y prosiectau a gyfwelwyd yn ategu barn y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o ran bod y manteision economaidd o bosibl llai amlwg na'r manteision eraill, serch hynny darparwyd enghreifftiau da o sut yr oedd gweithgareddau'r prosiect wedi creu manteision economaidd cadarnhaol. Dywedodd y prosiectau a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad terfynol eu bod wedi:

- uwchsgilio pobl leol. Ar y cyfan, roedd prosiectau'n darparu cyfleoedd uwchsgilio anffurfiol yn yr awyr agored ac ar y tir i bobl leol a gwirfoddolwyr er bod dau brosiect wedi nodi eu bod wedi darparu hyfforddiant achredig, gan gynnwys cyfleoedd prentisiaeth mewn un achos. Yn achos un o'r prosiectau hyn, adroddwyd bod y prosiect wedi cefnogi 27 o bobl i gael

achrediad drwy Agored Cymru. Darparodd y prosiectau a gyfwelwyd enghreifftiau anecdotaidd o wirfoddolwyr yn cael gwaith ar ôl iddynt gymryd rhan yn y prosiect, er nad yw'r data hyn wedi'u casglu mewn ffordd sy'n caniatáu i'r data gael ei gydgrynhoi ar draws cynllun ENRaW. Mewn un achos, roedd mynychu cwrs crefftau ym myd natur wedi helpu un cyfranogwr i symud ymlaen i gyflogaeth

**Uwchsgilio ar gyfer gwaith**

Defnyddiodd un prosiect ENRaW ran o'i gyllid i recriwtio pedwar ceidwad dan hyfforddiant i'w galluogi i ddatblygu'r sgiliau gwyrdd, ac ennill y cymwysterau angenrheidiol i helpu i gael swydd yn y maes hwn. Pan ymunodd yr hyfforddeion â'r prosiect, nid oedd ganddynt ddim, neu fawr ddim, profiad o reoli cefn gwlad. Cawsant brofiad o dorri llwyni, naddu pren a gwaith llif gadwyn a llwyddodd dau o'r hyfforddeion i gwblhau cwrs HNC. Mae tri o'r hyfforddeion wedi cael cynnig gwahanol swyddi mewn gwasanaethau cefn gwlad ac wedi derbyn y swyddi hynny.

- cyflogi pobl o'u cymunedau lleol drwy gyllid grant ENRaW ac mewn rhai achosion, roedd nifer y bobl a gyflogwyd yn sylweddol e.e., dywedodd un prosiect ei fod wedi cefnogi 11 o swyddi newydd o ganlyniad uniongyrchol i gyllid y prosiect. Dywedodd tri o'r prosiectau a gyfwelwyd (a oedd wedi dod i ben adeg y cyfweliad) eu bod wedi gallu cadw'r rhan fwyaf o staff y prosiect ers i'r cyllid ddod i ben
- defnyddio contractwyr lleol i ymgymryd â gweithgareddau megis gwaith arolwg amgylcheddol, mynd i'r afael â Rhywogaethau Estron Goresgynnol, a gwaith meddyg coed, yn ogystal â phrynu cymaint o gyfarpar â phosibl yn lleol fel bod y cyllid grant yn cael ei gadw'n lleol cymaint â phosibl
- cefnogi neu helpu i sefydlu busnesau a mentrau cymdeithasol (e.e., menter gymdeithasol coetir gweithredol). Roedd un prosiect wedi sefydlu platfform ar-lein i gynhyrchwyr lleol werthu eu nwyddau yn ogystal â sefydlu menter gymunedol newydd, a thrwy hynny sicrhau manteision economaidd da
- gwneud lleoedd yn ardaloedd mwy dymunol i fyw ynddynt neu i ymweld â nhw, yn bennaf oherwydd gwelliannau i'r dirwedd werdd. Dywedodd y prosiectau eu bod wedi gwneud lleoedd yn fwy dymunol i ymweld â nhw o

ganlyniad i weithgareddau megis digwyddiadau cymunedol, marchnadoedd lleol, a gweithgareddau cerdded. Mewn un achos, dywedodd darparwr llety lleol fod y gwaith prosiect wedi bod o fudd i'w fusnes. Derbyniwyd hefyd y byddai manteision economaidd pellach yn cael eu cyflawni yn y dyfodol, wrth i gynhyrchio ac atyniadau'r prosiect ddod yn fwy hysbys.

**Cymorth llesiant ym myd natur i fusnesau**

Aeth un prosiect ENRaW ati i ddarparu cymorth llesiant ym myd natur i weithwyr mewn busnesau lleol. Bwriadwyd darparu'r cymorth drwy sesiynau grŵp staff a chynhaliodd y prosiect ddigwyddiadau rhwydweithio busnes i hyrwyddo a recriwtio darpar gyflogwyr. Fodd bynnag, roedd yr ymateb yn siomedig a dim ond dau fusnes a gymerodd ran. Roedd busnesau'n gyndyn o ryddhau staff i fynychu sesiynau yn ystod oriau gwaith (yn rhannol oherwydd pwysau uniongyrchol eraill megis delio ag effaith barhaus y pandemig a chostau gweithredu uwch), a chredai cynrychiolwyr y prosiect y byddai dull mwy unigolyddol o gefnogi gweithwyr gyda'u hanghenion wedi bod yn fwy priodol o bosibl.

**Gwerth am arian**

6.20 Nid yw'n bosibl darparu asesiad trwyadl o werth am arian ENRaW ar y cam hwn o'r gwerthusiad, gan fod diffyg data monitro ar gyfer prosiectau Cyfnodau 2 a 3 yn golygu na allwn roi unrhyw sylwadau ar allbynnau a chyflawniadau cyffredinol y cynllun. Er ei bod yn bosibl cynnig barn ar y gwerth am arian a gyflawnwyd gan brosiectau Cyfnod 1, mae'n bwysig ystyried mai dim ond traean o'r holl gyllid a gymeradwywyd drwy'r cynllun y mae prosiectau Cyfnod 1 yn ei gynrychioli.

6.21 Mae'n werth myfyrio ar yr adborth a gasglwyd oddi wrth y prosiectau a gyfwelwyd ynghylch i ba raddau y maent wedi sicrhau gwerth am arian neu beidio. Roedd adborth y prosiectau a gyfwelwyd yn disgrifio'n bennaf sut yr oedd eu gweithgareddau a'r gwariant cysylltiedig wedi cael eu cyflawni yn unol â'r cynllun i raddau helaeth, er bod rhai arbedion cost wedi'u gwneud oherwydd oedi (yn enwedig o ganlyniad i effaith uniongyrchol y pandemig COVID-19 gan arwain at benodi llai o staff).

6.22 Soniodd traean o’r prosiectau a gyfwelwyd am danwariant ar ddiwedd eu prosiect. Cyfnodau cyflawni byrrach oedd y prif reswm am hyn gyda phrosiectau’n dweud nad oeddent wedi gallu gwario cymaint o'r cyllid ag y byddent wedi'i ddymuno: 'gallem fod wedi sicrhau mwy o werth am arian pe baem wedi cael mwy o amser i gyflawni a gwireddu pethau.' Roedd angen tymor plannu arall ar un prosiect er mwyn cyflawni'r prosiect yn llawn. Roedd prosiect arall ond wedi gwario 55 y cant o’i wariant arfaethedig, a phenderfynodd beidio â mynd ar drywydd rhai o’i allbynnau gwreiddiol gan nad oedd modd eu cyflawni mwyach. Soniodd prosiectau eraill am eu hanallu i wario’r holl gyllid cyfalaf, yn aml o ganlyniad i'r ffaith bod y cyfnod cyflawni ar gyfer eu prosiect wedi cael ei gwtogi: 'roedd tanwariant sylweddol o ran y cyfalaf. Mae'n drueni y bydd yn rhaid i ni roi'r arian hwn yn ôl.'

6.23 Lle roedd gan brosiectau rywfaint o danwariant, gwerthfawrogwyd y gallu i gario'r arian hwn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf neu'r hyblygrwydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i drosglwyddo cyllidebau, ond dywedwyd bod y broses hon 'ddim mor hawdd â chronfeydd y Loteri'.

6.24 Yn gyffredinol, roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn teimlo bod eu prosiectau wedi bod yn gosteffeithlon a disgrifiwyd sut y defnyddiwyd yr holl wariant ar eitemau, gweithgareddau neu gymorth cytundebol a oedd yn hanfodol i'r prosiect. Teimlai sawl prosiect, yn enwedig y rhai a oedd yn cael eu darparu gan elusennau neu sefydliadau'r trydydd sector, fod peidio â gwastraffu arian yn rhan o'u natur a'u bod bob amser yn ceisio bod yn 'glyfar' gyda'u cyllidebau, i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ymestyn mor bell â phosibl.

6.25 Disgrifiodd y prosiectau sut yr oeddent yn caffael gwasanaethau ac adnoddau allanol i sicrhau cefnogaeth gystadleuol o safon uchel. Roeddent hefyd yn teimlo nad oedd chwilio am ffyrdd rhatach o gyflawni eu prosiectau o reidrwydd yn arwain at unrhyw fanteision hirdymor, gan y byddai eitemau o ansawdd is yn golygu eu bod yn llai gwydn. Disgrifiodd un prosiect sut yr oedd wedi defnyddio gwirfoddolwyr yn hytrach na chontractwyr i blannu coed, gan arbed £10-15k. Nid oedd hyn yn ystyried y manteision iechyd meddwl a chymdeithasol a ddeilliodd o ddefnyddio gwirfoddolwyr, na'r gefnogaeth gynyddol yn sgil y dull hwn.

6.26 Amlygwyd manteision gwerth am arian tymor hwy neu ehangach a sicrhawyd o ganlyniad i gyllid ENRaW mewn sawl ffordd. Ar gyfer un prosiect bach a ariannwyd, roedd y cyllid ‘sbarduno’ wedi rhoi’r capasiti ychwanegol yr oedd ei angen arno i ddenu symiau mwy o arian ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol ac roedd hefyd wedi

helpu i ddatblygu gwaith traws-bartneriaid cryfach gyda sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol ledled Cymru.

6.27 Dywedodd prosiect arall ei fod wedi cynnal ymarfer enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI) ar brosiect tebyg i'r un a ariannwyd drwy ENRaW yn y gorffennol, a oedd wedi arwain at elw o 9:1 ar y gwariant. Roedd y prosiect yn rhagweld manteision sylweddol dros y tymor hwy na ellid eu mesur yn ariannol ar hyn o bryd ond a oedd yn debygol o arwain at arbedion cost i'r GIG drwy wella iechyd y gymuned leol a gallu'r prosiect i gael pobl yn ôl i'r gwaith yn gynt.

6.28 Disgrifiodd un prosiect mawr sut yr oedd cyllid ENRaW wedi caniatáu iddo fabwysiadu dull system gyfan o ymdrin â rhwydwaith bwyd lleol, a oedd yn caniatáu iddo ddarparu rhywbeth a oedd yn fwy na chyfanswm ei rannau. Disgrifiodd prosiect arall a gyfwelwyd sut yr oedd denu cyllid ENRaW wedi ei alluogi i weithio ar raddfa lawer mwy nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

**Yn absenoldeb y cyllid**

6.29 Roedd yr adborth a gasglwyd yn ystod gwaith maes y gwerthusiad terfynol yn ategu'r canfyddiadau a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad interim, a oedd yn awgrymu'n gryf na fyddai llawer o brosiectau wedi bodoli o gwbl yn absenoldeb cyllid ENRaW. Dywedodd hanner y rhai a holwyd yn ystod cam olaf y gwaith maes (15 o blith 30) na fyddai eu prosiect wedi mynd rhagddo o gwbl. Dywedodd 13 o ymatebwyr eraill y byddai'r prosiect wedi'i ohirio, ond y byddai rhywfaint neu'r cyfan ohono wedi cael ei roi ar waith yn y dyfodol Dywedodd un prosiect a gymerodd ran yn yr arolwg y byddai'r prosiect wedi mynd yn ei flaen beth bynnag o fewn amserlenni tebyg ac nid oedd yr un a oedd yn weddill yn gwybod.

6.30 O blith y prosiectau hynny a gymerodd ran yn yr arolwg a ddywedodd y byddai elfennau o'r gweithgareddau neu'r holl weithgareddau wedi mynd rhagddynt, nododd saith y byddent wedi gwneud cais am ffynonellau eraill o gyllid grant er mwyn cynnal y gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys ffynonellau fel Lleoedd Lleol i Natur, cyllid Rhwydwaith Natur Cronfa Treftadaeth y Loteri, a chyrff cyllido cenedlaethol. Nododd tri ymatebydd y byddent wedi defnyddio eu cyllid craidd mewnol i gyflawni prosiect llawer llai ac y byddent wedi cwtogi ar weithgareddau megis ymgysylltu â'r gymuned neu agweddau ar waith cyfalaf o ganlyniad.

6.31 Yn absenoldeb cyllid, dywedodd traean o'r prosiectau a gyfwelwyd na fyddai eu prosiectau wedi mynd rhagddynt o gwbl. Nododd y prosiectau na fyddai ffyrdd

newydd o weithio wedi cael eu cyflwyno, na fyddai'r symbyliad o weithio mewn partneriaeth wedi digwydd ac y byddai prosiectau presennol wedi chwalu.

6.32 Roedd prosiectau mwy a gyfwelwyd o’r farn na fyddai un partner wedi ymgymryd â'r gwaith ar ei ben ei hun, ac y byddai cyfle wedi’i golli i wneud pethau’n wahanol neu newid y ffordd y mae pethau’n cael eu gwneud. Roedd llawer o sefydliadau llai hefyd yn ddiolchgar bod cyllid ENRaW yn ariannu 100 y cant o'r gweithgareddau, gan nad oedd modd iddynt ddarparu llawer o arian cyfatebol.

6.33 Roedd traean arall o'r holl brosiectau a gyfwelwyd yn credu y byddai eu prosiectau wedi mynd rhagddynt, ond ar raddfa lawer llai. Er enghraifft, disgrifiodd prosiectau sut y byddai coed wedi cael eu plannu ond nid ar yr un raddfa. Dywedodd eraill na fyddai elfennau penodol o'u prosiectau byth wedi dwyn ffrwyth. Er enghraifft, ni fyddai gwlyptir wedi'i brynu, neu ni fyddai contractwyr wedi'u penodi. Dywedodd y prosiectau hefyd y byddent yn gyffredinol wedi bod yn fwy dibynnol ar weithgareddau wedi'u harwain gan y gymuned neu wirfoddolwyr.

6.34 Dywedodd pedwar prosiect a gyfwelwyd y byddent wedi bod yn ddibynnol ar ddod o hyd i gyllid o rywle arall, gyda chyllid y Loteri Genedlaethol yn cael ei nodi amlaf fel y ffynhonnell gyllido arall bosibl.

6.35 Teimlai un prosiect bach y byddai wedi cyflawni’r gwaith a ariannwyd gan ENRaW drwy gyllid o gyllidebau mewnol partneriaid. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, dadleuwyd y byddai'r gwaith cyn datblygu'r prosiect wedi cymryd llawer mwy o amser pe na bai rheolwr prosiect penodol wedi'i ariannu ar gael, a allai fod wedi golygu colli prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

**Cynaliadwyedd ar ôl i gyllid ENRaW ddod i ben**

6.36 Mae tystiolaeth dda o hyd o gam terfynol y gwaith maes bod prosiectau a phartneriaethau a ariannwyd yng Nghyfnod 1 ENRaW yn parhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben neu'n debygol o barhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn achos prosiectau sy'n dal i fynd rhagddynt. O blith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, dywedodd chwarter (saith) fod holl elfennau'r prosiect yn parhau, neu'n mynd i barhau, a dywedodd tri chwarter (22) fod elfennau o'r prosiect yn parhau, neu y byddant yn parhau. Nid oedd yr un prosiect a oedd yn weddill yn gwybod.

6.37 Pan ofynnwyd i'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg a fyddai eu partneriaeth ENRaW yn parhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben, a sut:

- dywedodd 11 ei fod yn parhau, neu y bydd yn parhau, gyda'r un aelodau

- dywedodd saith ei fod yn parhau, neu y bydd yn parhau, ond gyda llai o aelodau
- dywedodd pump ei fod yn parhau, neu y bydd yn parhau, ond gyda mwy o aelodau
- dywedodd tri nad yw eu partneriaeth yn bodoli mwyach, neu na fydd yn bodoli ar ôl i'r cyllid ddirwyn i ben, gan gynnwys un a ddywedodd fod chwaer brosiect wedi amsugno elfennau o brosiect ENRaW
- dywedodd pedwar fod ganddynt drefniadau eraill ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gwahanol bartneriaid yn cymryd cyfrifoldeb dros wahanol elfennau ac un prosiect nad oedd ganddo bartneriaeth benodol ond yn hytrach sawl partneriaeth yn gyfrifol am wahanol weithgareddau'r prosiect.

6.38 Cyfeiriodd y prosiectau a gyfwelwyd at ffrydiau gwaith neu weithgareddau penodol a oedd wedi'u cynllunio o'r cychwyn cyntaf mewn ffordd a oedd yn sicrhau cynaliadwyedd. Roeddent yn aml yn rhestru mathau o seilwaith a oedd yn cael eu cynnal am flynyddoedd lawer ar ôl i'r cyllid ddod i ben megis llwybrau troed, gosod dodrefn newydd a choed a ddylai oroesi a ffynnu. Byddai eitemau hyrwyddo y telir amdanynt drwy ENRaW megis byrddau gwybodaeth neu wefannau hefyd yn parhau i hyrwyddo safleoedd gwell.

6.39 Disgwyliwyd hefyd y byddai ffrydiau gwaith penodol yn parhau gyda chyllid ar raddfa fach gan bartneriaid eraill neu o ffynonellau eraill. Ymysg yr enghreifftiau roedd:

- gwirfoddolwyr lleol yn gweithio fel hyrwyddwyr bioamrywiaeth yn parhau i weithio ar y safle i reoli rhywogaethau estron goresgynnol
- e-feiciau a brynwyd drwy ENRaW bellach yn cael eu cynnal gyda pheth arian gan yr awdurdod lleol
- grŵp yn cynhyrchu incwm bach drwy werthu metel sgrap er mwyn parhau â'i weithgareddau
- sefydlu perthynas fasnachol gyda'r awdurdod lleol er mwyn i gynllun dodrefn cymunedol barhau.

6.40 Mae cyllid ENRaW hefyd wedi bod yn gatalydd ar gyfer sefydlu partneriaethau cadarn. Roedd nifer o'r prosiectau a gyfwelwyd yn awyddus i barhau â'r perthnasoedd da sydd wedi'u datblygu ac roeddent ar hyn o bryd yn ystyried

cyfleoedd i gydweithio ar geisiadau am gyllid. Roedd partneriaid allweddol o'r rhan fwyaf o brosiectau wedi ymrwymo i barhau i gydweithio, gyda llawer yn amlygu perthynas waith agosach neu well ymgysylltiad rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid o ganlyniad i hynny. Dim ond ambell brosiect a gyfwelwyd a ddywedodd nad oedd yn credu y byddai ei bartneriaeth yn parhau. Dywedodd un o'r rhain, partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, ei fod bellach wedi dychwelyd i raddau helaeth i weithio ar ei ben ei hun, yn bennaf oherwydd gofynion mecanweithiau cyllido fel Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Disgrifiodd y llall sut yr oedd cyllid ENRaW wedi 'tueddu i orfodi pobl i gydweithio lle nad oes mantais wirioneddol i hynny.'

6.41 Disgrifiodd llawer o'r prosiectau a gyfwelwyd sut y byddent yn parhau i fod yn ddibynnol iawn ar sicrhau rhagor o gyllid, gan awgrymu mai cyllid tymor hwy oedd yr unig ffordd o sicrhau cynaliadwyedd eu gweithgareddau. Roedd enghreifftiau o brosiectau'n cynnwys: rheoli afancod ble y byddai angen 20 mlynedd o gyllid a gweithgaredd newid ymddygiad a oedd angen 5-10 mlynedd o gyllid er mwyn ei ymwreiddio'n llawn: 'mae angen cyllid dros gyfnodau hwy arnon ni er mwyn creu newid gwirioneddol.' Fodd bynnag, roedd barn bod cyllid ENRaW wedi gweithredu fel catalydd effeithiol i'w galluogi i ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill mewn llawer o achosion.

6.42 Soniodd y prosiectau, er bod ENRaW wedi bod yn gronfa anhygoel a oedd wedi'u galluogi i gyflawni prosiectau 'arloesol', 'llawn dychymyg' a 'phwysig' a oedd wedi 'cyflawni gwaith gwych', byddai mwy o gefnogaeth a chydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma a'r cyllid tymor hwy sydd ei angen i barhau â'r gwaith. Teimlai'r prosiectau eu bod yn ceisio darparu atebion i broblemau cymhleth, traws-bolisi sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd, yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, ond a oedd hefyd angen dulliau gweithredu mwy hirdymor. Roedd awydd i sicrhau bod tîm polisi Llywodraeth Cymru yn ymweld â chynlluniau er mwyn gweld drostynt eu hunain y gwaith sy'n cael ei gyflawni, ac i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' yn ystod y broses gyllido yn ogystal â sicrhau bod y gyllideb yn cael ei gwario a bod DPA yn cael eu cyflawni. Roedd gobaith hefyd y byddai mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol gydag unrhyw gyllid a ddeuai'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru heb yr holl reoliadau a oedd yn gysylltiedig â chyllid yr UE.

**Newid i gyfleoedd masnachol**

Mae un prosiect wedi bod yn llwyddiannus o ran helpu i dreialu nifer o syniadau arloesol ond mae bellach yn edrych ar sut i newid i fodelau mwy masnachol.

Mae consortiwm y prosiect yn bwriadu adeiladu ar y momentwm a ddatblygwyd wrth gyflawni'r prosiect er mwyn cynnal ei rwydwaith bwyd lleol ymhellach. Mae elfennau o hyn eisoes ar y gweill, gyda chynigion cyllid i’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y dyfodol yn cael eu datblygu i gefnogi hwb bwyd.

Defnyddiwyd cyllid ENRaW i sefydlu cynllun compostio fel rhan o'r prosiect, gyda ffocws ar greu'r seilwaith ffisegol i ganiatáu i gompostio ddigwydd ymhell i'r dyfodol. Yn ystod y misoedd diwethaf, roedd y tîm wedi cynnig gwasanaeth casglu gwastraff bwyd i wyliau lleol. Mae hefyd yn chwilio am gyfleoedd partneriaeth gyda busnesau eraill sy'n cynhyrchu gwastraff bwyd. Y syniad yn y tymor hwy yw ei fod yn dod yn brosiect economi gylchol sy'n hunangyllido ac sy’n torri ar draws y system rheoli gwastraff gan greu compost i’w ddosbarthu’n lleol. Mae'r prosiect hefyd yn edrych ar gynlluniau peilot compostio cymunedol eraill ledled y DU sy'n fasnachol hyfyw, er mwyn dysgu gwersi allweddol.

Mae cynllun busnes wedi'i gomisiynu i ymchwilio i syniadau masnachol ar gyfer defnyddio rhedyn a gwlân defaid.

Mae'r prosiect hefyd yn ymchwilio i ffyrdd o ledaenu'r hyn a ddysgwyd yn ehangach er mwyn dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth yn y dyfodol.

Chwaraeodd gwirfoddolwyr ran bwysig yn y prosiect, ac o ran y dyfodol, mae'r prosiect yn bwriadu ymchwilio i'r cyfle i ddatblygu rhaglen cefnogi gwirfoddolwyr gyda hyfforddiant a sesiynau cynefino er mwyn rhoi cyfle i bartneriaid llai gynnig opsiynau gwirfoddoli mwy ffurfiol yn y dyfodol.

**Cyflawni cynaladwyedd yn sgil arian cychwynnol gan ENRaW**

Fe wnaeth prosiect a ariannwyd gan ENRaW ac a arweiniwyd gan awdurdod lleol ystyried cynaliadwyedd ar ôl i'r cyllid ddirwyn i ben o’r

cychwyn cyntaf. Drwy gydweithio’n agos ag ysgolion a chymunedau, mae’r adnoddau, a’u manteision cysylltiedig yn parhau i ffynnu, ac mae eu manteision yn dal i gael eu teimlo.

Mae gardd gymunedol mewn ysgol leol wedi cael ei datblygu ymhellach ers diwedd y prosiect. Mae'r berthynas waith agos yn parhau rhwng dau o'r sefydliadau partner a'r ysgolion, gyda chyngor yn cael ei roi ar sut i ehangu'r ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn tyfu mwy o fwyd, ac amrywiaeth ehangach o fwyd, nag erioed o'r blaen ac wedi ychwanegu twnnel polythen hefyd. Eleni, crëwyd dôl blodau gwyllt hefyd ar dir yr ysgol.

Roedd prosiect ENRaW yn enghraifft ragorol o arfer da y gellid ei dangos i gyllidwyr ac i'r awdurdod lleol o ran yr hyn y gellid ei gyflawni. Bellach ceir awydd i ddyblygu'r model ar draws ardaloedd eraill yn y dref.

Mae ENRaW wedi arwain at gyflwyno dull newydd o reoli cefn gwlad yn ardal yr awdurdod hwn. Fe wnaeth y canlyniadau rhagorol a gyflawnwyd gan y prosiect hwn gryn argraff, ac o ganlyniad sicrhawyd cyllid ar gyfer dwy swydd ceidwad newydd am 3 blynedd yng Ngwasanaethau Cefn Gwlad yr awdurdod lleol. Mae'r ddwy swydd hyn yn cyd-fynd yn agos â chanlyniadau prosiect ENRaW a byddant yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd yn y dyfodol i adeiladu ar ei lwyddiant.

**Sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol neu ffynonellau cyllid eraill**

6.43 O ran sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol neu ffynonellau eraill, casglwyd y canfyddiadau canlynol ar gyfer prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg[23]:

- dywedodd naw eu bod wedi sicrhau ffynonellau cyllid eraill gan lywodraeth Cymru wedi'u sicrhau
- dywedodd 11 eu bod wedi sicrhau ffynonellau cyllid y tu hwnt i'r llywodraeth
- dywedodd pedwar eu bod yn aros am ganlyniad cais am gyllid
- nid oedd saith wedi sicrhau unrhyw ffynonellau cyllid eraill ond roeddent yn bwriadu gwneud hynny

[23] Gallai'r ymatebwyr i'r arolwg ddewis mwy nag un ymateb.

- dywedodd dau y byddai eu gweithgareddau yn hunangynhaliol yn y dyfodol, yn rhannol neu'n llawn
- nid oedd gan un unrhyw fwriad i barhau â phartneriaeth y prosiect a chwilio am gyllid yn y dyfodol
- nid oedd chwech yn gwybod neu nid oeddent yn siŵr.

6.44 Nodwyd y prif ffynonellau cyllid y gwnaed cais amdanynt, neu a sicrhawyd, gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg fel:

- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (fel y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd [TWIG]) y cyfeiriwyd atynt gan 11 o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg
- Cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU y cyfeiriwyd ato gan chwech o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg
- Cronfa Rhwydweithiau Natur, sy'n gronfa ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri, y cyfeiriwyd ati gan chwech o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg
- cyllid gan elusennau, ymddiriedolaethau, a sefydliadau yn ogystal â sefydliadau dyngarol preifat, y cyfeiriwyd atynt gan naw prosiect a gymerodd ran yn yr arolwg.

6.45 Roedd y prosiectau a gyfwelwyd wedi sicrhau cyllid ychwanegol o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys y rhai y cyfeiriwyd atynt gan y prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg. Cyfeiriodd naw ymatebydd at arian y Loteri gan gynnwys cyllid drwy Gronfa Gweithredu Hinsawdd Cronfa Gymunedol y Loteri, Cronfa Rhwydweithiau Natur Cronfa Treftadaeth y Loteri a Chronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cronfa Treftadaeth y Loteri. Roedd pum prosiect a gyfwelwyd hefyd wedi sicrhau cyllid neu'n aros am ganlyniad cynigion i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin tra bod elfennau o brosiectau ENRaW hefyd bellach yn derbyn cyllid parhaus yn uniongyrchol gan eu hawdurdod lleol. Roedd tri phrosiect a gyfwelwyd wedi derbyn cyllid ar raddfa fach drwy’r trydydd sector, drwy sefydliadau fel Cadwyn Clwyd, Coed Cadw, y Gymdeithas Rhandiroedd a Trees for Cities, ac roedd un prosiect yn bwriadu gwneud cais i Sefydliad Esmee Fairbairn yn y dyfodol agos.

**Cyllid ENRaW yn gatalydd llwyddiannus ar gyfer cyllid ychwanegol**

Roedd y cyllid bach a ddarparwyd i un prosiect ENRaW yn ystod Cyfnod 1 wedi ei alluogi i wneud cais llwyddiannus am gyllid cam datblygu i Gronfa Treftadaeth y Loteri, cyn cael cyllid ar gyfer cam cyflawni llawn y prosiect eleni, sef cyfanswm o tua £4-5 miliwn. Mae'r prosiect yn teimlo bod ENRaW wedi galluogi partneriaid i sefydlu partneriaeth gref yn ystod y cyfnod cyllido graddfa fach hwnnw, sydd wedi parhau i fod yn ddefnyddiol o ran cael cyfraniadau ar ffurf arian cyfatebol. Er bod y prosiect yn cydnabod nad yw gweithio mewn partneriaeth bob amser yn hawdd, mae'r canlyniadau a ddeilliodd o'i waith hyd yma wedi bod yn werthfawr iawn.

**Gwersi a ddysgwyd**

6.46 Mae'r prif wersi a ddisgrifiwyd gan brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd yn ymwneud â gweinyddu a rheoli grantiau, gan gynnwys:

- problemau'n ymwneud ag ymgeisio am grant (dau o'r prosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg) gan gynnwys yr angen am brosesau ymgeisio symlach a chyflymach
- problemau'n ymwneud â gweinyddu'r grantiau (a godwyd gan chwe phrosiect a gymerodd ran yn yr arolwg) gan gynnwys yr angen am gyllid mwy hyblyg (tri ymateb) i ganiatáu i ddeiliaid grantiau symud arian ar draws gwahanol flynyddoedd cyllido a phenawdau cyllid; a'r angen am daliadau prydlon wrth wneud hawliadau
- gwella'r ffordd y mae cyllidwyr yn rheoli eu perthynas â chyllidwyr grant, gan gynnwys pwysigrwydd cael swyddog achos penodedig a chyfathrebu da rhwng y cyllidwr a derbynnydd y grant (tri phrosiect a gymerodd ran yn yr arolwg). Awgrymodd rhai deiliaid grantiau a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd eu bod wedi elwa o gael swyddog achos penodedig yn ddiweddar e.e., 'mae'r tîm yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn hynod gefnogol drwy gydol y prosiect, ac roedd hyn yn galonogol iawn wrth ymdrin â rhai problemau nas rhagwelwyd wrth gyflawni'r cynllun'

- yr angen am gyfnod cyllido mwy hirdymor (dau ymateb i’r arolwg), a oedd hefyd yn gysylltiedig â’r pwynt a wnaed bod gweithio mewn partneriaeth yn gofyn am fwy o amser paratoi i ddatblygu a chyflawni prosiect (tri ymateb i'r arolwg). Awgrymodd sawl prosiect a gyfwelwyd y byddai'n fuddiol cynnwys 'cyfnod datblygu' mewn unrhyw gynllun cyllido yn seiliedig ar bartneriaeth yn y dyfodol.

6.47 Roedd y sylwadau eraill a wnaed gan brosiectau’r arolwg yn ymwneud â gwir ymdeimlad o ddiolchgarwch am y cyfle a’r cyllid a ddarparwyd, ac ymdeimlad cryf ei fod wedi eu helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, fel y dangoswyd yn y dyfyniadau canlynol o'r arolwg:

- 'Diolch am eich cefnogaeth; mae wedi helpu i gyflawni rhywbeth gwirioneddol wych sy'n cael ei arwain gan y gymuned mewn cymuned boblog ac amrywiol'
- 'Mae grant ENRaW wedi trawsnewid ein prosiect a'r ffordd yr ydym yn gweithio fel sefydliad. Mae wedi caniatáu i ni wneud a chyflawni mwy nag y gallem fod wedi'i wneud ar ein pen ein hunain'.

## 7. Casgliadau ac argymhellion

7.1 Mae ein casgliadau yn tynnu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad interim a'r gwerthusiad terfynol. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw ddata monitro ar gyfer prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3, nad yw'n bosibl cynnig unrhyw farn ar berfformiad a chyflawniadau cyffredinol cynllun ENRaW.

7.2 Rydym yn dod i'r casgliad bod ENRaW:

- yn adlewyrchu polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru yn fanwl drwy gefnogi ystod eang o brosiectau traws-bolisi sy'n rhychwantu polisïau cymunedol a chymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ledled Cymru ar raddfa fawr ac yn gyflym
- wedi cael ei hyrwyddo'n effeithiol ac wedi bod yn gynllun cyllido poblogaidd gan ei fod yn cynnig ysgwyddo 100 y cant o gostau prosiectau dros gyfnod tymor canolig o dair blynedd
- wedi annog a chefnogi gwaith traws-sector sylweddol a fyddai wedi bod yn annhebygol o gael ei gyflawni fel arall
- wedi cefnogi'r broses o sefydlu a datblygu partneriaethau newydd yn effeithiol yn ogystal â galluogi eraill i ehangu a chryfhau, o safbwynt daearyddol yn ogystal ag o ran yr ystod o bartneriaid dan sylw.

7.3 Cefnogodd ENRaW brosiectau o ansawdd da a oedd yn cyd-fynd yn agos ag uchelgeisiau cymunedol a chymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y rhaglen. Mae tystiolaeth dda bod prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnod 1 wedi cyflawni'r hyn a fwriadwyd, er bod prosiectau Cyfnodau 2 a 3 wedi wynebu mwy o broblemau, oherwydd y cyfnod cyflawni byrrach na'r disgwyl, yr angen i ddatrys problemau'n ymwneud â gweinyddu'r grantiau ac effaith y pandemig COVID-19 ar gyflawni prosiectau. O ystyried y galw mawr cychwynnol am ENRaW, roedd yn siomedig mai dim ond 83 y cant o'r cyllid a ddyrannwyd iddynt y mae'r prosiectau wedi gallu ei wario (gan dderbyn bod nifer bach o brosiectau eto i gyflwyno eu hawliadau terfynol). Er bod swm sylweddol o £44 miliwn wedi'i fuddsoddi yng nghynllun ENRaW, nid oedd dros £7.5 miliwn ohono wedi'i wario adeg drafftio'r adroddiad hwn ym mis Medi 2023.

7.4 Oherwydd eu natur eang, mae'r prosiectau a ariannwyd wedi cyflawni ystod eang iawn o ganlyniadau sy'n cwmpasu gwahanol bolisïau a sectorau. Roedd natur a

maint y canlyniadau hyn yn amrywio o un prosiect i'r llall; ac yn adlewyrchu eu cwmpas a'u cyflawniadau hyn y gellir ei gyflawni. Llwyddiannau mwyaf ENRaW oedd creu manteision cymunedol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Arweiniodd y prosiectau at lai o fanteision diwylliannol ac economaidd, er bod y rheini'n dal i fod yn gadarnhaol . Manylir ar y canlyniadau hyn ym mhennod 6 yr adroddiad hwn a chânt eu dangos orau drwy astudiaethau achos unigol o ystyried eu natur unigryw. Canlyniadau'n ymwneud â gwelliannau a wnaed (e.e., gwella mynediad a chyfleusterau) sydd fwyaf tebygol o gael eu cynnal yn barhaus a chanlyniadau sy'n dibynnu ar adnoddau parhaus a chapasiti (megis cydlynu cyfleoedd gwirfoddoli ac addysgol) sydd leiaf tebygol o gael eu cynnal yn y dyfodol heb ffynhonnell arall o gyllid. Ni ddywedodd y prosiectau a oedd ond wedi cael grant bach ar gyfer cam datblygu drwy ENRaW (e.e., i ysgrifennu cynllun busnes neu astudiaeth ddichonoldeb) fod y prosiectau a ariannwyd wedi cyflawni unrhyw un o'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol, er mai'r gobaith oedd y byddai gweithgareddau a ariennir yn y dyfodol yn gwneud hynny.

7.5 Canfu gwaith maes y gwerthusiad terfynol dystiolaeth helaeth fod y prosiectau a ariannwyd wedi cynnal gweithgareddau yn unol ag Amcanion Trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig, yn ogystal â themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, yn aml mewn ffyrdd arloesol ac ystyrlon. Er bod y prosiectau wedi cyfrannu'n gadarnhaol at Feysydd Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig a oedd yn cyd-fynd yn agos â'u cylch gwaith (megis datblygu gwledig, swyddi, ac arallgyfeirio) roedd eu cyfraniad at uchelgeisiau Meysydd Ffocws mwy technegol eraill yn fwy cyfyngedig gan nad oedd prosiectau'n canolbwyntio ar arloesi neu ddatblygiadau yn y meysydd amaethyddol neu goedwigaeth. Roedd ymgysylltu â chymunedau ymylol yn nodwedd eithriadol o gryf o brosiectau ENRaW a chasglwyd tystiolaeth helaeth yn ystod y gwerthusiad eu bod yn gweithio gyda grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn debyg i'r gwerthusiad interim, canfu gwaith maes y gwerthusiad terfynol hefyd enghreifftiau rhagorol a chreadigol o brosiectau a ariannwyd yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth oedd i ddangos sut yr oedd prosiectau wedi croesawu prif ffrydio rhywedd yn eu gwaith, gan awgrymu bod hwn yn ddisgwyliad anodd i brosiectau cymunedol o'r natur hon. **Byddem yn argymell bod unrhyw gynllun cyllido yn y dyfodol yn rhoi mwy o arweiniad ac yn gosod disgwyliadau cliriach i brosiectau ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt o**

**ran cyflawni amcanion trawsbynciol yn ymwneud â phrif ffrydio rhywedd (Argymhelliad 1).**

7.6 Yn seiliedig ar ein canfyddiadau o'r gwerthusiad interim, mae Llywodraeth Cymru wedi cofnodi'r cyflawniadau yn erbyn set briodol o ddangosyddion y cynllun sy'n ddefnyddiol i ddangos yr allbynnau sy'n cael eu cyflawni ar lefel y cynllun. Roedd rhai o'r allbynnau a gyflawnwyd gan brosiectau Cyfnod 1 yn sylweddol e.e. ymgysylltu â bron i 100,000 o bobl a phlannu dros 19,000 o goed. Awgryma dadansoddiad o'r data hyn fod y cynllun wedi perfformio'n dda yn erbyn ei dargedau gwreiddiol a hyd yma, mae'r prosiectau wedi rhagori ar y targedau y gwnaethant eu gosod iddynt hwy eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dod i unrhyw gasgliadau am berfformiad prosiectau a ariannwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 o ystyried absenoldeb data monitro wedi'u dilysu drwy RPW. Mae adborth gan brosiectau a ariannwyd yn awgrymu eu bod wedi cyflawni eu DPA, ac felly, byddai'n werth casglu eu cyflawniadau ac adrodd arnynt ar ôl i'r allbynnau gael eu dilysu. **Rydym yn argymell bod yr allbynnau a gyflawnwyd gan brosiectau ENRaW yng Nghyfnodau 2 a 3 yn cael eu cofnodi a'u hadrodd, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu cyhoeddi mewn adroddiad diweddaru byr i ategu'r adroddiad gwerthuso terfynol hwn (Argymhelliad 2).**

7.7 Daeth ein gwerthusiad interim i'r casgliad nad yw'r dangosyddion a fabwysiadwyd ar gyfer ENRaW bob amser wedi'u diffinio'n glir na'u dehongli'n gyson, gan ei gwneud yn anodd cymharu cyflawniadau rhwng prosiectau. **Rydym felly'n argymell y dylai unrhyw gynllun tebyg yn y dyfodol fabwysiadu diffiniadau cliriach ar gyfer dangosyddion cyffredin er mwyn adrodd ar gyflawniadau yn fwy cywir (Argymhelliad 3).** Er enghraifft, byddem yn awgrymu bod unrhyw gynllun a gyflwynir yn y dyfodol yn adrodd ar faint (e.e., hectarau neu fetrau sgwâr) unrhyw ardaloedd a gaiff eu gwella yn y dyfodol yn hytrach na dim ond nifer y lleoedd a gaiff eu gwella.

7.8 Er y bu gwerth mewn cydgrynhoi cyflawniadau prosiectau mewn ffordd fesuradwy, nid yw asesiad o'u DPA ynddo'i hun yn gwneud cyfiawnder â'r gwaith rhagorol a wneir gan rai prosiectau. Mae eu taith yn aml yn cael eu mynegi orau drwy astudiaethau achos unigol ac adroddiadau gwerthuso ar lefel prosiect. Gwnaed hyn yn arbennig o dda gan un prosiect a gynhyrchodd ffilm fer[24] i ddangos ei

[24] DCC - Enraw - Final - Vimeo 1080

gyflawniadau a'r gwahaniaeth a wnaed. **Byddem yn argymell annog prosiectau a ariennir gan grant yn y dyfodol i ledaenu eu stori a'u cyflawniadau drwy gyfrwng ffilmiau bach (Argymhelliad 4). Byddem hefyd yn argymell o ran prosiectau ENRaW nad ydynt eto wedi bodloni'r gofyniad cyllido mewn perthynas â darparu adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect, y dylid eu hannog i wneud hynny (Argymhelliad 5).**

7.9 Er mwyn cynnig asesiad o werth am arian ENRaW, mae'n werth ystyried y pedwar maen prawf a fabwysiadwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i asesu'r gwerth am arian o wariant y llywodraeth: darbodusrwydd (gwario llai); effeithlonrwydd (gwario'n dda); effeithiolrwydd (gwario'n ddoeth) a thegwch (gwario'n deg)[25]. Rydym yn ystyried pob un o'r rhain yn eu tro.

- Darbodusrwydd: mae diffyg allbynnau a chyflawniadau cyffredinol y cynllun yn ei gwneud yn amhosibl cyfrifo'r gost fesul allbwn a gyflawnir a chynnig unrhyw farn ar y rhain. Wrth ystyried yr allbynnau a gyflawnwyd gan brosiectau Cyfnod 1 yn unig, mae'n ymddangos eu bod yn cynnig gwell gwerth am arian nag a ragwelwyd o ystyried y rhagorwyd ar y rhan fwyaf o'r targedau.
- Effeithlonrwydd: Fe wnaeth y prosiectau ddefnydd effeithlon o'u hadnoddau a mabwysiadu dull darbodus o gyflawni. Mae tystiolaeth helaeth hefyd bod prosiectau wedi defnyddio amser ac ymdrechion gwirfoddolwyr mewn ffordd effeithiol, i sicrhau llawer o werth ychwanegol i'r cyllid grant a ddarparwyd. Gallai ENRaW fod wedi sicrhau gwell gwerth am arian pe bai'r prosiectau a ariannwyd wedi cael cyfnod cyflawni cyflawn er mwyn defnyddio'r holl gyllid a ddyrannwyd iddynt a chyflawni eu hamcanion
- Effeithiolrwydd: canfu’r gwerthusiad fod cyllid ENRaW wedi bod yn hollbwysig i alluogi prosiectau a phartneriaethau i sefydlu a thyfu; a defnyddiwyd y cyllid yn unol â'r bwriad yn y mwyafrif o achosion. Yn absenoldeb y cyllid, ni fyddai llawer o brosiectau wedi bodoli o gwbl. Cyflawnodd y prosiectau a ariannwyd fwy drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill nag y byddent wedi ei wneud yn unigol, ac mae tystiolaeth dda bod y partneriaethau hyn yn parhau ar ôl i'r cyllid ddirwyn i ben.

---

[25] Successful commissioning toolkit Assessing value for money - Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)

- Tegwch: roedd y cyllid ar gyfer prosiectau ar gael mewn modd teg a chyfiawn. Canfu'r gwerthusiad interim, er bod trefniadau ymgeisio Cyfnod 1 yn rhesymol a phriodol; roedd deiliaid grant Cyfnodau 2 a 3 o'r farn bod y cais am grant a'r ochr weinyddol yn heriol iawn a chafodd hynny effaith negyddol ar eu gallu i gyflawni canlyniadau llwyddiannus. Canfu'r gwerthusiad terfynol mai un o brif gryfderau dull gweithredu'r prosiectau a ariannwyd oedd eu gallu i recriwtio a chefnogi cyfranogwyr o gefndiroedd demograffig ac economaidd-gymdeithasol amrywiol, a thrwy hynny wario eu hadnoddau ar lefel prosiect mewn modd teg.

**Cyllid yn y dyfodol**

7.10 Mae tystiolaeth dda y bydd partneriaethau, prosiectau a ffrydiau gwaith a ariannwyd gan ENRaW yn parhau ar ôl i'r cyllid ddirwyn i ben. Mewn llawer o achosion, mae hyn oherwydd bod partneriaethau wedi gallu sicrhau cyllid grant o ystod o ffynonellau eraill i gynnal eu gweithgareddau. Mae poblogrwydd Cronfa Gymunedol y Loteri a Chronfa Treftadaeth y Loteri fel ffynonellau cyllid yn nodedig ymhlith partneriaethau ENRaW, sy’n awgrymu eu bod wedi llwyddo i sicrhau bod eu huchelgeisiau lleol a rhanbarthol yn cyfateb i’r ffynonellau cyllid grant eraill hyn. Mae’r adborth hefyd yn awgrymu bod y ffynonellau cyllid eraill hyn yn aml yn cael eu hystyried yn ffynonellau cyllid mwy addas ar gyfer y partneriaethau dan sylw, ac efallai y bydd hyn yn rhywbeth yr hoffai Llywodraeth Cymru fyfyrio arno yn y dyfodol o ran y ffordd orau o ddarparu cyllid grant yn y dyfodol (gweler Argymhelliad 10).

7.11 Mae ysgogi gwaith partneriaeth traws-sector i gyflawni canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r ysgogiadau ariannol sydd ganddi i gefnogi'r agenda hon ar ôl i'r Rhaglen Datblygu Gwledig ddod i ben yn fwy cyfyngedig. Er bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ar gael i gefnogi prosiectau cydweithredol a phrosiectau partneriaeth, mae'n canolbwyntio ar y gymuned ffermio sy'n golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd partneriaethau ENRaW yn gymwys i gael cymorth. **Rydym felly'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â’r sector i ganfod maint y bwlch cyllido ar ôl i gyllid ENRaW ddod i ben ac ymchwilio i sut y dylai flaenoriaethu'r defnydd o lai o gyllid i gefnogi gwaith partneriaeth traws-sector (Argymhelliad 6).**

**Gweinyddu cyllid grant yn y dyfodol**

7.12 Fel y nodwyd yn ein gwerthusiad interim, canfuwyd bod trefniadau ymgeisio, asesu a gweinyddu grant Cyfnod 1 yn rhesymol a phriodol, ac un o gryfderau amlwg y cyfnod cyllido hwn oedd y ffaith y gallai'r ymgeisydd ddelio'n uniongyrchol ag un o swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y broses o drosglwyddo'r cynllun i fecanweithiau'r Rhaglen Datblygu Gwledig a'r angen i fodloni gofynion cyllido'r rhaglen honno wedi bod yn drafferthus ac yn niweidiol i'r broses o weinyddu'r cynllun yn ddidrafferth. Digwyddodd y newidiadau hyn cyn proses ymgeisio am grant Cyfnodau 2 a 3 ac roeddent yn cyd-daro â'r pandemig COVID-19; a chanfuwyd bod y newid yn y broses weinyddol yn achosi straen sylweddol i brosiectau ac yn effeithio'n negyddol ar eu gallu i sicrhau canlyniadau llwyddiannus, yn bennaf oherwydd iddynt golli ewyllys da staff, y gymuned a phartneriaid tuag at eu prosiect.

7.13 Dylai cynllun cyllido yn y dyfodol sy'n anelu at gefnogi prosiectau traws-bolisi, sy'n seiliedig ar bartneriaeth adlewyrchu cryfderau cynllun cyllid grant ENRaW yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd o'i weinyddu.

7.14 **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod cryfderau cynllun cyllid grant ENRaW pe bai’n darparu cyllid tebyg yn y dyfodol, ac adeiladu ar hynny, yn benodol (Argymhelliad 7):**

- **y broses ymgynghori a mewnbwn rhanddeiliaid i'r broses o'i chyd-ddylunio**
- **y dull hirdymor y bwriedir ei fabwysiadu i ddarparu cyllid dros gyfnod o dair blynedd**
- **cynnig cyllid refeniw yn ogystal â chyllid cyfalaf**
- **model cyllido sy'n seiliedig ar adennill costau llawn**
- **proses ymgeisio dau gam sy’n cynnwys (i) cam Datgan Diddordeb syml, byr a (ii) cam cais llawn**
- **ffocws ar bartneriaeth gynaliadwy a chydweithio ar draws meysydd polisi lluosog**
- **ffocws ar gyflawni ar raddfa ranbarthol a graddfa'r dirwedd.**

7.15 **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r gwersi canlynol a ddysgwyd er mwyn bod yn sail i unrhyw gynllun cyllid grant tebyg yn y dyfodol (Argymhelliad 8):**

- **dylid pennu'r amserlenni ar gyfer cymeradwyo ceisiadau a chadarnhau'r cyllid ymlaen llaw, a chadw atynt**
- **dylai fod modd i ymgeiswyr a deiliaid grantiau ddelio'n uniongyrchol â swyddog cyllido penodedig**
- **dylai prosesau adrodd a hawlio'r grant fod yn gymesur â lefel y cyllid a ddyfernir**
- **dylid symleiddio a byrhau amserlenni a phrosesau ar gyfer cymeradwyo gwariant y cynllun**
- **dylid rhoi mwy o hyblygrwydd i brosiectau a ariennir ymdopi â newidiadau yn eu cyllidebau**
- **dylid dylunio prosesau hawlio, monitro ac adrodd yn well er mwyn cydweddu â phrosiectau mawr, cymhleth a chydweithredol.**

7.16 **Rydym hefyd yn argymell y dylai unrhyw gynllun cyllid grant tebyg yn y dyfodol ar gyfer prosiectau partneriaeth gael ei ddylunio i (Argymhelliad 9):**

- **gynnwys cyfnod datblygu byr, tua thri i chwe mis, i alluogi partneriaethau i ddatblygu cynllun cyflawni cynhwysfawr, sefydlu eu trefniadau llywodraethu a sicrhau bod trefniadau cydweithio ac ymddiriedaeth yn bwrw gwreiddiau**
- **hwyluso prosiectau a ariennir i rannu profiadau ac arferion da ymysg ei gilydd.**

7.17 Lleihaodd y rhyngweithio rhwng prosiectau ENRaW a swyddogion Llywodraeth Cymru dros amser, ac er bod prosiectau sy'n dal i fynd rhagddynt yn gallu delio'n uniongyrchol â swyddog penodol yn ystod 2023, mae'r rhyngweithio hwn wedi canolbwyntio ar wariant ariannol a materion yn ymwneud â hawliadau. Yng ngoleuni hyn a'r argymhellion a nodir uchod, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried a ddylid mabwysiadu dull mwy addas o weithredu cynllun cyllido partneriaeth yn y dyfodol. Gallai hyn olygu gwneud addasiadau i fodel presennol RPW Ar-lein; sefydlu model rheoli Corff Cyfryngol neu ddarparu'r cyllid drwy sefydliad arall fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol neu Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. **Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ac yn adolygu gwerth mecanweithiau cyllid grant partneriaeth amgen megis drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol neu Gronfa Treftadaeth y**

**Loteri Genedlaethol, pe bai'n penderfynu darparu cyllid tebyg yn y dyfodol (Argymhelliad 10).**

# Atodiad A Offerynnau ymchwil

## Canllaw trafod 1: Llywodraeth Cymru a staff rheoli RPW

### Cefndir

1. [os na chawsant eu cyfweld yn flaenorol] Dywedwch wrthyf am:
    - eich rôl
    - eich ymwneud ag ENRaW

### Cydweddiad Strategol

2. Pa flaenoriaethau strategol newydd neu ddatblygiadau polisi ehangach (os o gwbl) sydd wedi cael eu cyflwyno ers yr adeg hon y llynedd, a allai fod yn berthnasol i gynllun ENRaW?
    - Pa oblygiadau a allai fod gan y datblygiadau hyn i ENRaW (ac unrhyw gynllun cyllido tebyg yn y dyfodol)?

3. Pa gyfraniad y mae cynllun ENRaW wedi'i wneud at gyflawni nodau ei brif sbardunau polisi, yn enwedig:
    - egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a
    - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

4. A yw grantiau ENRaW wedi helpu i hwyluso dull mwy integredig o ymdrin â pholisi?
    - Os felly, sut?
    - Os nad ydynt, pam?

### Cyflawni'r rhaglen

5. Pa newidiadau (os o gwbl) sydd wedi'u gwneud i'r trefniadau gweinyddol ar gyfer grant ENRaW ers yr adeg hon y llynedd? Holwch am: drefniadau monitro ac adrodd ar gyflawniadau'r grant a chymorth a ddarperir i ddeiliaid grantiau
    - Pa welliannau a wnaed (os o gwbl)?
    - Pa heriau neu broblemau a gododd (os o gwbl)?
    - Pa gamau (os o gwbl) a gymerwyd i roi argymhellion y gwerthusiad canol tymor ar waith?

6. Pa rwystrau a heriau y mae cynllun grant ENRaW wedi'u hwynebu ers yr adeg hon y llynedd?

7. Beth fu'r galluogwyr allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i gynllun grant ENRaW gyflawni ei dargedau a'i amcanion?

### Cyflawniadau'r grant

8. I ba raddau y mae grant ENRaW wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion, sef:
    - datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy
    - gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig; a
    - datblygu rhwydweithiau ac ardaloedd ecolegol cydnerth a datrysiadau sy'n seiliedig ar natur.

9. Beth fyddech chi'n ei nodi fel prif allbynnau a chanlyniadau cynllun ENRaW?

10. Beth yw eich barn am berfformiad y prosiectau a ariannwyd?
    - A yw'r prosiectau'n cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt gan gynnwys unrhyw amrywiadau y cytunwyd arnynt fel y nodir ym mholisi Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Datblygu Gwledig?
    - Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw berfformiad cryf neu danberfformiad?

**Meysydd ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig, themâu ac amcanion trawsbynciol**

11. Pa gyfraniad y mae grantiau ENRaW wedi'i wneud tuag at wyth Maes Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig[26]?

12. Pa gyfraniad y mae grantiau ENRaW wedi'i wneud tuag at y themâu a'r amcanion trawsbynciol? Holwch am **enghreifftiau o brosiectau sydd wedi cyfrannu tuag ati:**
    - gyfle cyfartal (e.e., rhywedd neu gyfran y gweithwyr neu wirfoddolwyr o leiafrifoedd ethnig)?
    - prif ffrydio rhywedd?
    - datblygu cynaliadwy[27]?
    - trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol?
    - dangos neu gyflwyno arloesedd?
    - addasiadau i leihau'r effaith ar yr hinsawdd? (e.e., newidiadau i ymddygiad fel lleihau gwastraff neu ddefnydd dŵr, atal tanau gwyllt)
    - lliniaru newid hinsawdd (h.y., atal neu leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr)? (e.e., defnydd o ynni adnewyddadwy, plannu coed a dolydd,)

13. Pa gyfraniad y mae grantiau ENRaW wedi'i wneud tuag at gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg?
    - Pa brosiectau fyddech chi'n eu hamlygu fel arfer da a pham?

**Yr effaith a'r gwahaniaeth a wnaed**

14. Pa brosiectau ENRaW sydd wedi cael yr effeithiau cymdeithasol a chymunedol mwyaf? Beth yw'r rheswm dros hyn? Holwch am enghreifftiau o brosiectau sydd:
    - wedi gwella mynediad i fannau gwyrdd lleol a gwella eu hansawdd

---

[26] Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn 1. cynyddu effeithlonrwydd y defnydd o ddŵr gan amaethyddiaeth; 2. cynyddu effeithlonrwydd y defnydd o ynni mewn amaethyddiaeth ac wrth brosesu bwyd; 3. hwyluso'r cyflenwad a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, sgil-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion, a deunydd crai arall nad yw'n fwyd at ddibenion y fioeconomi; 4. lleihau allyriadau ocsid nitrus a methan o amaethyddiaeth; 5. meithrin atafaelu carbon mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth; 6. hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi; 7. meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig a 8. gwella hygyrchedd, defnydd ac ansawdd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu mewn ardaloedd gwledig.

[27] Mae datblygiad cynaliadwy yn egwyddor ganolog ar gyfer cyflawni nodau datblygu dynol yn ogystal â chynnal gallu systemau naturiol i ddarparu'r adnoddau naturiol a'r gwasanaethau ecosystem y mae'r economi a chymdeithas yn dibynnu arnynt

- wedi gwella iechyd a llesiant yn y gymuned
- wedi cynnwys grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddolwyr
- wedi cynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol ac ymddygiad cynaliadwy yn y gymuned

15. Pa brosiectau ENRaW sydd wedi cael yr effeithiau amgylcheddol mwyaf? Beth yw'r rheswm dros hyn? Holwch am enghreifftiau o brosiectau sydd:
    - wedi creu coetiroedd a gwrychoedd newydd ac ati, neu gynnal y rhai sydd eisoes yn bodoli
    - wedi gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
    - wedi gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol/ecosystem
    - wedi cymryd camau i leihau allyriadau carbon

16. Pa brosiectau ENRaW sydd wedi cael yr effeithiau economaidd mwyaf? Beth yw'r rheswm dros hyn? Holwch am enghreifftiau o brosiectau sydd:
    - wedi creu incwm neu refeniw
    - wedi denu buddsoddiad o ffynonellau eraill
    - wedi creu, sicrhau neu ddiogelu swyddi
    - wedi cefnogi cymwysterau neu sgiliau newydd

17. Pa brosiectau ENRaW sydd wedi cael yr effeithiau diwylliannol mwyaf? Beth yw'r rheswm dros hyn? Holwch am enghreifftiau o brosiectau sydd:
    - wedi cynyddu rôl y gymuned o ran cyfrifoldebau a rennir ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy
    - wedi cynnal gweithgareddau a digwyddiadau mewn cymunedau lleol a chymunedau ehangach
    - wedi cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o fewn y gymuned (drwy hyfforddiant neu ymgysylltu)
    - wedi mynd i'r afael â materion lleol megis atgyweiriadau, gwaith adfer er mwyn diogelu treftadaeth

18. Pa effaith y mae’r grantiau wedi’i chael ar gefnogi a datblygu cydweithio a gweithio mewn partneriaeth mewn meysydd a gefnogir?

19. Beth yw eich canfyddiad o gynaliadwyedd prosiectau a/neu bartneriaethau ar ôl i'r cyfnod cyllido ddod i ben?
    - Beth yw'r ffactorau hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd parhaus prosiectau a/neu bartneriaethau?

20. Pa fanteision ac effeithiau ehangach a gyflawnwyd gan grantiau ENRaW na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol?

**Gwerth am arian**

21. Yn absenoldeb cyllid ENRaW, beth fyddai wedi'i gyflawni fel arall? Holwch am e.e., cydweithio; manteision lluosog; cynaliadwyedd tymor hwy darpariaeth y tu hwnt i'r grant; dulliau cyflawni newydd

22. A yw'r cynllun grant wedi darparu gwerth am arian?
    - Os felly, sut?
    - Os nad yw, sut y gallai wneud hynny?

**Gwersi a'r dyfodol**

23. Pa wersi a ddysgwyd o gyflawni prosiectau a ariannwyd drwy gynllun grant ENRaW?
    - Beth sy'n llwyddiannus/aflwyddiannus o ran arferion SMNR?
    - Pa brosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus/llai llwyddiannus? Pam hynny?
    - Beth yw'r gwersi allweddol i lywio polisïau a mecanweithiau cyllido Llywodraeth Cymru yn y dyfodol?
    - Pa newidiadau neu welliannau fyddech chi'n awgrymu eu gwneud i unrhyw olynydd i gynllun ENRaW?

24. Beth fyddech chi'n ei nodi fel blaenoriaethau cyllido ar gyfer y dyfodol?

**Canllaw trafod 2: Cyfweliadau gydag arweinwyr prosiectau a ariannwyd gan ENRaW**

1. [os na chawsant eu cyfweld yn ystod y gwerthusiad interim] Dywedwch ychydig wrthyf am eich sefydliad a'r prosiect a ariannwyd gan ENRaW. Holwch am:
    - gefndir y prosiect a sut y datblygwyd y syniad
    - yr hyn y bwriadodd y prosiect ei gyflawni ar angen amdano
    - y partneriaid
    - sut y daethon nhw i glywed am ENRaW a sut i gymryd rhan ynddo
    - cadarnhad o ba gyfnod cyllido y gwnaethant gais amdano/y cawsant gymorth drwyddo

**Y ffordd y cyflawnwyd y prosiectau**

2. Dywedwch ychydig wrthyf am y cynnydd a wnaed gan eich prosiect a ariannwyd gan ENRaW [ers i ni siarad ddiwethaf]. Holwch am:
    - a yw'r prosiect yn dal i fynd rhagddo/wedi'i gwblhau
    - y daith hyd yma
    - yr hyn a gyflawnwyd
    - unrhyw newidiadau mawr i'r hyn a gynlluniwyd a pham y digwyddodd hynny

3. Pa newidiadau (os o gwbl) sydd wedi'u gwneud i'r trefniadau gweinyddol ar gyfer grant ENRaW ers yr adeg hon y llynedd? Holwch am: drefniadau monitro ac adrodd ar gyflawniadau'r grant a chymorth a ddarperir i ddeiliaid grantiau
    - Ym mha ffordd y mae'r newidiadau hyn wedi helpu neu lesteirio eich prosiect?

4. Pa rwystrau a heriau, os o gwbl, y mae eich prosiect wedi'u hwynebu [ers yr adeg hon y llynedd]?
    - Sut y gwnaethoch chi oresgyn y rhain?

5. Beth fu'r prif alluogwyr i'ch prosiect gyflawni ei dargedau a'i amcanion [dros y flwyddyn ddiwethaf]?

**Cyflawniadau'r grant**

6. Beth fyddech chi'n ei ddweud yw prif gyflawniadau eich prosiect?

7. I ba raddau y mae eich prosiect wedi/yn cyflawni ei nodau a'i amcanion?
    - Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw berfformiad cryf neu danberfformiad?

8. I ba raddau y mae eich prosiect wedi cyflawni/yn cyflawni ei DPA a ariennir?
    - Beth sydd i'w gyfrif am hyn?

9. I ba raddau y mae eich prosiect wedi cyfrannu at amcanion ehangach ENRaW i:
    - datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy
    - gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig; a
    - datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

10. I ba raddau y mae eich prosiect wedi datblygu:
    - cynhyrchion newydd

- arferion newydd
- partneriaethau newydd
- prosesau newydd
- technolegau newydd?

11. Pa dystiolaeth sydd gan eich prosiect:
    - ei fod yn cyflawni canlyniadau sy'n berthnasol i wahanol bolisïau a sectorau e.e. cyflawni canlyniadau amgylcheddol a llesiant?
    - ei fod yn cyflawni mwy drwy weithio mewn partneriaeth na phe bai'r prosiect yn cael ei gyflawni gan un sefydliad yn unig?
    - bod y gymuned leol yn gwneud mwy o ddefnydd, ac yn cymryd mwy o berchnogaeth, o'u hadnoddau lleol a'u mannau gwyrdd?
    - a fydd y gymuned leol/partneriaid yn parhau i ymwneud â'r prosiect ar ôl i'r cyllid ddod i ben?

**Meysydd ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig, themâu ac amcanion trawsbynciol**

12. Pa gyfraniad y mae eich prosiect wedi'i wneud tuag at wyth Maes Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig[28]?

13. Pa gyfraniad a wnaeth eich prosiect at y themâu a'r amcanion trawsbynciol? Holwch am **enghreifftiau** o:
    - gyfle cyfartal (e.e., rhywedd neu gyfran y gweithwyr neu wirfoddolwyr o leiafrifoedd ethnig)?
    - prif ffrydio rhywedd?
    - datblygu cynaliadwy[29]?
    - trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol?
    - dangos neu gyflwyno arloesedd?
    - addasiadau i leihau'r effaith ar yr hinsawdd? (e.e., newidiadau i ymddygiad fel lleihau gwastraff neu ddefnydd dŵr, atal tanau gwyllt)
    - lliniaru newid hinsawdd (h.y., atal neu leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr)? (e.e., defnydd o ynni adnewyddadwy, plannu coed a dolydd,)

14. Pa gyfraniad y mae eich prosiect wedi'i wneud i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg? Rhowch enghreifftiau.

---

[28] Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn 1. cynyddu effeithlonrwydd y defnydd o ddŵr gan amaethyddiaeth; 2. cynyddu effeithlonrwydd y defnydd o ynni mewn amaethyddiaeth ac wrth brosesu bwyd; 3. hwyluso'r cyflenwad a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, sgil-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion, a deunydd crai arall nad yw'n fwyd at ddibenion y fioeconomi; 4. lleihau allyriadau ocsid nitrus a methan o amaethyddiaeth; 5. meithrin atafaelu carbon mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth; 6. hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi; 7. meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig a 8. gwella hygyrchedd, defnydd ac ansawdd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu mewn ardaloedd gwledig.

[29] Mae datblygiad cynaliadwy yn egwyddor ganolog ar gyfer cyflawni nodau datblygu dynol yn ogystal â chynnal gallu systemau naturiol i ddarparu'r adnoddau naturiol a'r gwasanaethau ecosystem y mae'r economi a chymdeithas yn dibynnu arnynt

**Yr effaith a'r gwahaniaeth a wnaed**

15. Pa wahaniaeth y mae eich prosiect yn ei wneud i'r [30]gymuned a'r gymdeithas leol? Holwch ynghylch:
    - gwella mynediad i fannau gwyrdd lleol a gwella eu hansawdd
    - gwella iechyd a llesiant yn y gymuned
    - cynnwys grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddolwyr
    - cynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol ac ymddygiad cynaliadwy yn y gymuned

16. Pa wahaniaeth y mae eich prosiect wedi ei wneud i'r amgylchedd lleol? Holwch ynghylch:
    - creu coetir newydd, neu gynnal a chadw coetir, gwrychoedd presennol ac ati
    - gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
    - gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol/yr ecosystem
    - camau i leihau allyriadau carbon

17. Pa wahaniaeth y mae eich prosiect wedi ei wneud i'r economi leol? Holwch ynghylch:
    - cynhyrchu incwm neu refeniw
    - denu buddsoddiad o ffynonellau eraill
    - creu, sicrhau neu ddiogelu swyddi
    - cefnogi cymwysterau neu sgiliau newydd

18. Pa wahaniaeth y mae eich prosiect wedi ei wneud i'r diwylliant lleol? Holwch ynghylch:
    - cynyddu rôl y gymuned o ran cyfrifoldebau a rennir ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy
    - cynnal gweithgareddau a digwyddiadau mewn cymunedau lleol a chymunedau ehangach
    - cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o fewn y gymuned (drwy hyfforddiant neu ymgysylltu)
    - wedi mynd i'r afael â materion lleol megis atgyweiriadau, gwaith adfer er mwyn diogelu treftadaeth

**Gwerth am arian**

19. Yn absenoldeb y cyllid grant, beth ydych chi'n meddwl fyddai wedi digwydd?
    - A fyddai'r prosiect wedi'i gyflawni yn ei gyfanrwydd neu ar raddfa lai?
    - A fyddai'r prosiect (neu elfennau ohono) wedi'u cyflawni dros yr un cyfnod neu gyfnod hwy?
    - Sut y byddech chi wedi cyllido'r prosiect (neu elfennau ohono) yn absenoldeb cyllid grant?

20. A ddefnyddiwyd y cyllid yn y ffordd a fwriadwyd, fel yr amlinellwyd yn y cais gwreiddiol?
    - Os nad ydynt, pam?
    - A wnaed unrhyw arbedion cost wrth gyflawni'r prosiect? Os felly, beth oedd y rhain?
    - A ellid bod wedi arbed unrhyw gostau wrth gyflawni'r prosiect? Os felly, beth oedd y rhain?

[30] Os yw'n brosiect rhanbarthol, neu Gymru gyfan, dylech deilwra'r geiriad ar gyfer C10-13 ar y lefel ddaearyddol briodol

- A oedd yr holl adnoddau a ddefnyddiwyd yn hanfodol i gwblhau'r prosiect?
- A ellid bod wedi cyflawni'r un canlyniadau mewn ffyrdd eraill, rhatach?

**Gwersi a ddysgwyd a chynaliadwyedd parhaus**

21. I ba raddau y mae unrhyw newidiadau a gwahaniaeth a wnaed yn parhau ar ôl i brosiect ENRaW ddod i ben (neu'n debygol o barhau ar ôl i'r cyllid ddirwyn i ben)? Pa dystiolaeth sydd gennych o hyn?

22. A yw'r prosiect a/neu'r bartneriaeth yn parhau (neu'n debygol o barhau) ar ôl i'r cyllid ddod i ben?
    - Beth yw'r rheswm dros hyn?
    - Sut mae unrhyw weithgareddau parhaus neu weithio mewn partneriaeth yn cael eu cyllido?

23. Beth yw eich blaenoriaethau neu anghenion cyllido presennol?

24. Pa newidiadau neu welliannau fyddech chi'n awgrymu eu gwneud i unrhyw olynydd i gynllun ENRaW?

**Canllaw trafod 3: Astudiaethau achos o brosiectau a ariannwyd gan ENRaW – arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru**

**Cyflwyniad**

1. Dywedwch ychydig wrthyf am eich cysylltiad â'r prosiect(au) a ariannwyd gan ENRaW a'r hyn y bwriadodd y prosiect ei gyflawni. Holwch:
    - beth oedd y prosiect(au) yn bwriadu ei gyflawni ar angen am y prosiect(au)
    - y cyngor a'r cymorth a ddarparwyd yn ystod y cam ymgeisio
    - sut yr ymatebodd ymgeisydd/ymgeiswyr i'r cyngor a'r cymorth a ddarparwyd a sut y cafodd prosiect(au) ei addasu/eu haddasu

**Cydweddiad strategol a chyfraniad at amcanion polisi**

2. Ym mha ffordd y mae'r prosiect(au) yn cyfrannu at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru?
    - Sut y mae'n cyfrannu at amcanion polisi sylfaenol allweddol megis polisïau gwastraff, bioamrywiaeth, ac ansawdd yr amgylchedd lleol?
    - Sut y mae'n cyfrannu at amcanion polisi eilaidd allweddol megis iechyd meddwl, pwysau iach, a pholisïau twristiaeth?

3. Sut mae'r prosiect(au) a ariannwyd yn cyd-fynd â chymhellion deddfwriaethol allweddol?
    - I ba raddau y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dylanwadu ar ddatblygiad prosiect a'r ffordd y cafodd ei gyflawni?
    - Ym mha ffordd y mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi dylanwadu ar ddyluniad y prosiect a'r ffordd y cafodd ei gyflawni?

4. Sut y mae egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi dylanwadu ar ddatblygiad a chyflawniad y prosiect(au)?

**Y ffordd y cyflawnwyd y prosiect a'i gyflawniadau**

5. Beth yw eich barn am y cynnydd a wnaed gan y prosiect(au) a ariannwyd gan ENRaW. Holwch am:
    - Beth sydd wedi'i gyflawni
    - Unrhyw newidiadau mawr i'r hyn a gynlluniwyd

6. I ba raddau y mae'r prosiect(au) wedi/yn cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a fwriadwyd?
    - Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw berfformiad cryf neu danberfformiad?

7. I ba raddau y mae'r prosiect(au) wedi datblygu:
    - cynhyrchion newydd
    - arferion newydd
    - partneriaethau newydd
    - prosesau newydd
    - technolegau newydd?

8. I ba raddau y mae'r prosiect(au) wedi cyfrannu at amcanion ehangach ENRaW i:
    - datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy

- gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig; a
- datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

**Meysydd ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig, themâu ac amcanion trawsbynciol**

9. Pa gyfraniad y mae'r prosiect wedi'i wneud tuag at wyth Maes Ffocws y Rhaglen Datblygu Gwledig[31]?

10. Pa gyfraniad a wnaed gan y prosiect at y themâu trawsbynciol a'r amcanion? Holwch am **enghreifftiau** o:
    - gyfle cyfartal (e.e., rhywedd neu gyfran y gweithwyr neu wirfoddolwyr o leiafrifoedd ethnig)?
    - prif ffrydio rhywedd?
    - datblygu cynaliadwy[32]?
    - trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol?
    - dangos neu gyflwyno arloesedd?
    - addasiadau i leihau'r effaith ar yr hinsawdd? (e.e., newidiadau i ymddygiad fel lleihau gwastraff neu ddefnydd dŵr, atal tanau gwyllt)
    - lliniaru newid hinsawdd (h.y., atal neu leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr)? (e.e., defnydd o ynni adnewyddadwy, plannu coed a dolydd,)

11. Pa gyfraniad y mae'r prosiect wedi'i wneud at gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg?

**Yr effaith a'r gwahaniaeth a wnaed**

12. I ba raddau y mae'r prosiect(au):
    - wedi cyflawni canlyniadau sy'n cwmpasu gwahanol bolisïau a sectorau e.e. cyflawni canlyniadau amgylcheddol a llesiant?
    - wedi cyflawni mwy drwy weithio mewn partneriaeth na phe bai'r prosiect yn cael ei gyflawni gan un sefydliad yn unig?
    - wedi cyfrannu at gymuned leol sy'n gwneud mwy o ddefnydd, ac yn cymryd mwy o berchnogaeth, o'i hadnoddau lleol a'i mannau gwyrdd?
    - wedi cefnogi cymuned leol/partneriaid a fydd yn parhau i ymwneud â'r prosiect ar ôl i'r cyllid ddod i ben?

[31] Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn 1. cynyddu effeithlonrwydd y defnydd o ddŵr gan amaethyddiaeth; 2. cynyddu effeithlonrwydd y defnydd o ynni mewn amaethyddiaeth ac wrth brosesu bwyd; 3. hwyluso'r cyflenwad a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, sgil-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion, a deunydd crai arall nad yw'n fwyd at ddibenion y fioeconomi; 4. lleihau allyriadau ocsid nitrus a methan o amaethyddiaeth; 5. meithrin atafaelu carbon mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth; 6. hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi; 7. meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig a 8. gwella hygyrchedd, defnydd ac ansawdd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu mewn ardaloedd gwledig.

[32] Mae datblygiad cynaliadwy yn egwyddor ganolog ar gyfer cyflawni nodau datblygu dynol yn ogystal â chynnal gallu systemau naturiol i ddarparu'r adnoddau naturiol a'r gwasanaethau ecosystem y mae'r economi a chymdeithas yn dibynnu arnynt

13. Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae'r prosiect(au) yn ei wneud i'r [33]gymuned a'r gymdeithas leol? Holwch ynghylch:
    - gwella mynediad i fannau gwyrdd lleol a gwella eu hansawdd
    - gwella iechyd a llesiant yn y gymuned
    - cynnwys grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddolwyr
    - cynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol ac ymddygiad cynaliadwy yn y gymuned

14. Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae'r prosiect(au) yn ei wneud i'r amgylchedd lleol? Holwch ynghylch:
    - creu coetir newydd, neu gynnal a chadw coetir, gwrychoedd presennol ac ati
    - gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
    - gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol/yr ecosystem
    - camau i leihau allyriadau carbon

15. Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae'r prosiect(au) yn ei wneud i'r economi leol? Holwch ynghylch:
    - cynhyrchu incwm neu refeniw
    - denu buddsoddiad o ffynonellau eraill
    - creu, sicrhau neu ddiogelu swyddi
    - cefnogi cymwysterau neu sgiliau newydd

16. Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae'r prosiect(au) yn ei wneud i'r diwylliant lleol? Holwch ynghylch:
    - cynyddu rôl y gymuned o ran cyfrifoldebau a rennir ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy
    - cynnal gweithgareddau a digwyddiadau mewn cymunedau lleol a chymunedau ehangach
    - cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o fewn y gymuned (drwy hyfforddiant neu ymgysylltu)
    - mynd i'r afael â materion lleol megis atgyweiriadau, gwaith adfer er mwyn diogelu treftadaeth

**Gwerth am arian**

17. I ba raddau yr ydych yn meddwl bod y prosiect(au) a ariannwyd wedi darparu gwerth am arian? Pam ydych chi'n dweud hyn?

**Gwersi a'r dyfodol**

18. Pa wersi a ddysgwyd o gyflawni prosiectau a ariannwyd drwy gynllun grant ENRaW?
    - Beth sy'n llwyddiannus/aflwyddiannus o ran arferion SMNR?
    - Pa brosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus/llai llwyddiannus? Pam hynny?
    - Beth yw'r gwersi allweddol i lywio polisïau a mecanweithiau cyllido Llywodraeth Cymru yn y dyfodol?
    - Pa newidiadau neu welliannau fyddech chi'n awgrymu eu gwneud i unrhyw olynydd i gynllun ENRaW?

[33] Os yw'n brosiect rhanbarthol, neu Gymru gyfan, dylech deilwra'r geiriad ar gyfer C10-13 ar y lefel ddaearyddol briodol

19. Beth fyddech chi'n ei nodi fel blaenoriaethau cyllido ar gyfer y dyfodol?

**Atodiad B: Arolwg ar-lein**

Mae OB3 Research yn cynnal gwerthusiad hirdymor o gynllun ENRaW ar ran Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r cam olaf hwn o'r gwerthusiad rydym am gasglu adborth gan brosiectau a ariannwyd am yr effaith a'r gwahaniaeth a wnaed gan eich prosiect.

Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r holiadur byr hwn i ddweud wrthym am ganlyniadau ac effeithiau eich prosiect. Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 10 munud i'w gwblhau.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwerthusiad, gan gynnwys Hysbysiad Preifatrwydd yn nodi sut y byddwn yn defnyddio eich adborth ar gael yma: www.ob3.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-enraw-ymgeiswyr.

Mae ein Datganiad Hygyrchedd Arolwg www.ob3.cymru/datganiad-hygyrchedd-arolwg.

## Gweithredu a chanlyniadau'r prosiect

B1 **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio amgylchiadau presennol eich prosiect orau?**

- ❑ Mae eich prosiect ENRaW yn parhau i redeg
- ❑ Mae eich prosiect ENRaW bron wedi'i gwblhau
- ❑ Mae eich prosiect ENRaW wedi'i gwblhau
- ❑ Arall

Nodwch os gwelwch yn dda:

________________________________________

B2 **A wnaeth cyllid ENRaW eich helpu i:**

**[Dewiswch bob un sy'n berthnasol]**

- ❑ Sefydlu partneriaeth newydd
- ❑ Ehangu nifer yr aelodau o fewn partneriaeth oedd yn bodoli eisoes
- ❑ Ehangu ystod yr aelodau o fewn partneriaeth oedd yn bodoli eisoes
- ❑ Cryfhau partneriaeth oedd yn bodoli eisoes
- ❑ Dim un o'r rhain

B3 **I ba raddau ydych chi wedi cyflawni (neu'n debygol o gyflawni) nodau ac amcanion eich prosiect ENRaW?**

- ❑ I raddau helaeth
- ❑ I ryw raddau
- ❑ I ddim graddau penodol

❑ I ddim graddau o gwbl
❑ Ddim yn gwybod

B4 **I ba raddau ydych chi wedi cyflawni (neu'n debygol o gyflawni) eich Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar gyfer eich prosiect ENRaW?**

❑ Wedi cyflawni neu ragori ar bob un o'r dangosyddion
❑ Wedi cyflawni bron pob un o'r dangosyddion
❑ Wedi rhannol gyflawni'r dangosyddion
❑ Heb gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion
❑ Heb gyflawni unrhyw ddangosyddion

B5 **Pa ffactorau sy'n gyfrifol am lwyddiant eich prosiect ENRaW?**

__________________________________________
__________________________________________
__________________________________________

B6 **Pa rwystrau, os o gwbl, ydych chi wedi'u hwynebu wrth geisio cyflawni nodau ac amcanion eich prosiect ENRaW?**

__________________________________________
__________________________________________
__________________________________________

## Manteision a'r gwahaniaeth a wnaed

C1 **Pa fanteision mae eich prosiect ENRaW wedi'u cynhyrchu (neu yr ydych yn disgwyl iddo eu cynhyrchu)?**

| | Manteision sylweddol | Rhai manteision | Dim manteision penodol | Dim manteision o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Manteision amgylcheddol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Manteision economaidd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Manteision cymunedol a chymdeithasol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Manteision diwylliannol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

C2 **Pa gyfraniad (os o gwbl), mae eich prosiect ENRaW wedi'i wneud (neu mae disgwyl iddo ei wneud) i'r manteision amgylcheddol canlynol?**

| | Cyfraniad mawr | Rhywfaint o gyfraniad | Dim cyfraniad | Ddim yn berthnasol i'r prosiect | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleihau effaith negyddol pobl ar lystyfiant e.e. trwy gyflwyno llwybrau troed | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Leihau achosion o ollwng sbwriel, tipio anghyfreithlon a/neu losgi bwriadol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Lleihau llygredd aer a sŵn | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu plannu coed a/neu wrychoedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu gerddi cymunedol a thyfu bwyd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu neu wella ansawdd dolydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu bioamrywiaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Adfer mwy o gynefinoedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella rheolaeth coetir | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella amddiffyniad rhag rhywogaethau ymledol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymryd camau i helpu lleihau allyriadau carbon | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Canlyniadau amgylcheddol eraill | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

[Os C2l=1 neu 2] Nodwch y canlyniadau amgylcheddol eraill yma:

______________________________________________

C3 [Os C2l=1 neu 2] **I ba raddau y bydd y manteision amgylcheddol hyn yn cael eu cynnal wedi i gyllid ENRaW ddirwyn i ben yn eich barn chi?**

| | Cael eu cynnal yn llawn | Cael eu cynnal i raddau | Ddim yn debygol o gael eu cynnal | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Lleihau effaith negyddol pobl ar lystyfiant e.e. trwy gyflwyno llwybrau troed | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Lleihau achosion o ollwng sbwriel, tipio anghyfreithlon a/neu losgi bwriadol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Lleihau llygredd aer a sŵn | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu plannu coed a/neu wrychoedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu gerddi cymunedol a thyfu bwyd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu neu gwella ansawdd dolydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu bioamrywiaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Adfer mwy o gynefinoedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella rheolaeth coetir | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella amddiffyniad rhag rhywogaethau ymledol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymryd camau i helpu i leihau allyriadau carbon | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| {Ateb C2m} | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

C4 **Pa gyfraniad, os o gwbl, y mae eich prosiect ENRaW wedi'i wneud (neu mae disgwyl iddo wneud) i'r manteision economaidd canlynol?**

| | Cyfraniad mawr | Rhywfaint o gyfraniad | Dim cyfraniad | Ddim yn berthnasol i'r prosiect | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchu incwm neu refeniw | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Denu buddsoddiad o ffynonellau eraill | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Dysgu sgiliau newydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Ennill cymwysterau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Creu swyddi newydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Diogelu swyddi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu nifer ymwelwyr i'r ardal leol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Manteision economaidd eraill | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Nodwch y manteision economaidd eraill yma os gwelwch yn dda:

C5 [Os C4=1 neu 2] **I ba raddau bydd y manteision economaidd hyn yn cael eu cynnal wedi i gyllid ENRaW ddirwyn i ben yn eich barn chi?**

| | Cael eu cynnal yn llawn | Cael eu cynnal i raddau | Ddim yn debygol o gael eu bynnal | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchu incwm neu refeniw | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Buddsoddiad o ffynonellau eraill | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Dysgu sgiliau newydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Ennill cymwysterau | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Creu swyddi newydd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Diogeli swyddi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal leol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| {Ateb C4i} | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

C6 **Pa gyfraniad, os o gwbl, y mae eich prosiect ENRaW wedi'i wneud (neu mae disgwyl iddo wneud) i'r manteision cymdeithasol a chymunedol canlynol?**

| | Cyfraniad mawr | Rhywfaint o gyfraniad | Dim cyfraniad | Ddim yn berthnasol i'r prosiect | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella cyfleusterau yn y gymuned | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella ymgysylltiad cymunedol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella iechyd a lles ymhlith aelodau'r gymuned | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu mynediad i fannau lleol gwyrdd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu cyfleoedd addysgol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu cyfleoedd i bobl leol gysylltu â byd natur | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Arall | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Nodwch y manteision cymdeithasol eraill yma:

[C7] [Os C6=1 neu 2] **I ba raddau y bydd y manteision cymdeithasol a chymunedol hyn yn cael eu cynnal wedi i gyllid ENRaW ddirwyn i benyn eich barn chi?**

| | Cael eu cynnal yn llawn | Cael eu cynnal i raddau | Ddim yn debygol o gael eu cynnal | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Gwella cyfleusterau yn y gymuned | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella ymgysylltiad cymunedol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella iechyd a lles ymhlith aelodau'r gymuned | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu mynediad i fannau lleol gwyrdd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu cyfleoedd addysgol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu cyfleoedd i bobl leol gysylltu â byd natur | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| {Ateb C6i} | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

[C8] **Pa gyfraniad, os o gwbl, y mae eich prosiect ENRaW wedi'i wneud (neu mae disgwyl iddo wneud) i'r manteision diwylliannol canlynol?**

| | Cyfraniad mawr | Rhywfaint o gyfraniad | Dim cyfraniad | Ddim yn berthnasol i'r prosiect | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth gymunedol o ymddygiad cynaliadwy | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu cyfrifoldeb cymunedol dros gynaliadwyedd hirdymor | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu nifer y digwyddiadau a gweithgareddau yn y gymuned | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu perchnogaeth gymunedol o asedau a gweithgareddau treftadaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella neu adfer asedau treftadaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Arall | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Nodwch y manteision diwylliannol eraill yma:

______________________________________________________________________

C9 [Os C8=1 OR 2] **I ba raddau y bydd y manteision diwylliannol hyn yn cael eu cynnal wedi i gyllid ENRaW ddirwyn i ben yn eich barn chi?**

| | Cael eu cynnal yn llawn | Cael eu cynnal i raddau | Ddim yn debygol o gael eu cynnal | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth gymunedol o ymddygiadau cynaliadwy | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu cyfrifoldeb cymunedol dros gynaliadwyedd hirdymor | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu nifer y digwyddiadau a gweithgareddau yn y gymuned | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu perchnogaeth gymunedol o asedau a gweithgareddau treftadaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella neu adfer asedau treftadaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| {Ateb C6i} | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

C10 **Pe na baech wedi derbyn cyllid ENRaW, beth fyddai wedi digwydd?**

**[Dewiswch y disgrifiad sy'n cyd-fynd orau â'r hyn rydych chi'n meddwl allai fod wedi digwydd]**

- ❑ Byddai'r prosiect cyfan wedi mynd yn ei flaen beth bynnag o fewn amserlenni tebyg
- ❑ Byddai agweddau o'r prosiect wedi mynd rhagddynt beth bynnag o fewn amserlenni tebyg
- ❑ Byddai'r prosiect wedi'i ohirio, ond byddai rhywfaint neu'r cyfan ohono'n cael ei wneud yn y dyfodol
- ❑ Ni fyddai'r prosiect wedi symud ymlaen o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

**C11** **Sut fyddech chi wedi ariannu'r gweithgareddau hyn heb arian ENRaW?**

______________________________________________________________________

## Meysydd ffocws y Cynllun Datblygu Gwledig, a themâu ac amcanion trawsbynciol

D1 **Faint o gyfraniad y mae gweithgareddau a ariennir gan eich prosiect wedi'i wneud i'r wyth maes ffocws Cynllun Datblygu Gwledig canlynol?**

| | Cyfraniad mawr | Rhywfaint o gyfraniad | Dim cyfraniad | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu effeithlonrwydd defnydd dŵr gan amaethyddiaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cynyddu effeithlonrwydd defnydd ynni mewn amaethyddiaeth a phrosesu bwyd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hwyluso cyflenwad a defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Lleihau allyriadau ocsid nitraidd a methan o amaethyddiaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Dal a stopio carbon mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hwyluso arallgyfeirio, a chreu mentrau a swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwella mynediad i, defnydd, ac ansawdd TGCh mewn ardaloedd gwledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

D2 [Os atebir D1 = 1 neu 2] **Rhowch enghreifftiau o sut mae eich prosiect wedi cyfrannu at unrhyw rai o'r wyth maes ffocws hyn:**

____________________________________________________________

____________________________________________________________

D3 **Faint o gyfraniad y mae gweithgareddau eich prosiect wedi'i wneud i:**

| | Cyfraniad mawr | Rhywfaint o gyfraniad | Dim cyfraniad | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chefnogi cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhyw | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hyrwyddo a chefnogi datblygiad cynaliadwy | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Helpu gyda mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol (social exclusion) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Helpu diogelu'r amgylchedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Datblygu atebion arloesol sy'n torri tir newydd ar gyfer ardaloedd gwledig | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Helpu gyda mynd i'r afael â newid hinsawdd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

D4 [Os atebir D3 = 1 neu 2] **Darparwch enghreifftiau o sut mae eich prosiect wedi cyfrannu at y themau ac amcanion trawsbynciol os gwelwch yn dda:**

______________________________________________________________

______________________________________________________________

______________________________________________________________

D5 **Faint o gyfraniad y mae gweithgareddau eich prosiect wedi'i wneud i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg?**

- ❑ Cyfraniad mawr
- ❑ Rhywfaint o gyfraniad
- ❑ Dim cyfraniad o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

D6 [Os D5=1 neu 2] **Darparwch enghreifftiau o sut mae eich prosiect wedi cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg:**

______________________________________________________________

______________________________________________________________

## Cynaliadwyedd eich prosiect a'ch phartneriaeth

E1 **A yw eich prosiect ENRaW yn parhau (neu a ydych yn rhagweld y bydd eich prosiect ENRaW yn parhau) wedi i'r cyllid ddirwyn i ben?**

- ❑ Ydy, mae/bydd holl elfennau'r prosiect yn parhau
- ❑ Ydy, mae/bydd elfennau o'r prosiect yn parhau
- ❑ Na, nid oes unrhyw elfen o'r prosiect yn parhau (neu'n debygol o barhau)
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Arall

E2 **A yw eich partneriaeth ENRaW yn parhau (neu a ydych yn rhagweld y bydd eich partneriaeth ENRaW yn parhau) wedi i'r cyllid ddirwyn i ben?**

- ❑ Ydy, mae/bydd yn parhau gyda'r un aelodau dan sylw
- ❑ Ydy, mae/bydd yn parhau ond gyda llai o aelodau yn cymryd rhan
- ❑ Ydy, mae/bydd yn parhau ond gyda mwy o aelodau yn cymryd rhan
- ❑ Na, nid yw'r bartneriaeth yn bodoli mwyach / nid yw'n debygol o fodoli
- ❑ Arall

E3 **Defnyddiwch y gofod hwn i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach:**

______________________________________________________________

______________________________________________________________

E4 **A yw'r cyllid ENRaW wedi galluogi eich partneriaeth prosiect i sicrhau unrhyw gyllid ychwanegol neu arall?**

**[Nodwch bob un sy'n berthnasol]**

- ❑ Ydy, mae ffynonellau cyllid eraill gan Lywodraeth Cymru wedi'u sicrhau
- ❑ Ydy, mae ffynonellau cyllid tu hwnt i'r llywodraeth wedi'u sicrhau
- ❑ Rydym yn aros am ganlyniad cais am gyllid ar hyn o bryd
- ❑ Ddim eto, ond mae bwriad i geisio am ffynonellau cyllid eraill
- ❑ Bydd y gweithgareddau yn hunangynhaliol (yn rhannol neu'n llawn)
- ❑ Does dim bwriad i barhau gyda'r partneriaeth prosiect/chwilio am gyllid
- ❑ Ddim yn gwybod / Ddim yn siwr

**E5** [Os E4=1 – 4] **Pa ffynonellau cyllid eraill y gwnaed cais amdanynt (neu y gwneir cais amdanynt)?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

**E6** **Pa wersi o ENRaW y dylid eu hystyried mewn unrhyw fecanweithiau ariannu cydweithredol yn y dyfodol?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

E6 **Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud am ENRaW?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

Diolch am gwblhau'r arolwg hwn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'r arolwg.